Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020–2021

## a Chynllun Strategol 2021–2022

2020
2021

# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020–2021
# A Chynllun Strategol 2021–2022

Adroddiad Blynyddol 2020–2021 a Chynllun Strategol 2021–2022 wedi'u cyflwyno i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygiad) 2008

Cyflwynwyd cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygiad) 2008

Gorchmynwyd gan Dŷ'r Cyffredin i gael ei argraffu ar
21 Gorffennaf 2021

HC 531

© Cygnor Nyrsio a Bydwreigiaeth Hawlfraint 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'l drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn nmc.org.uk

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-2787-0

CCS0721890888

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

Rhagair 4

Ein rôl 6

Arolwg perfformiad 2020–2021 12

Cynllun Strategol 2021–2022 64

Adolygiad ariannol 68

Adroddiad cydnabyddiaeth 74

Datganiad o gyfrifoldebau'r cyngor ac o'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ynglŷn â chyfrifon 92

Datganiad llywodraethiant blynyddol 96

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 128

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd 134

Datganiadau ariannol ar gyfer y fwyddyd ariannol yn dod I ben 31 Mawrth 2021 142

Atodiad 1 – Penderfyniad Cyfrifon y Cyfrin Gyngor 175

Cynnwys

# Rhagair

Mae blwyddyn a fwriadwyd yn wreiddiol i'w dathlu fel Blwyddyn Ryngwladol y Nyrs a'r Fydwraig wedi bod yn un o'r rhai mwyaf heriol yn yr oes fodern i nyrsio a bydwreigiaeth, a'r bobl broffesiynol ar ein cofrestr wrth galon ymateb y DU i'r pandemig. Rydym am ddiolch i'r holl weithwyr proffesiynol am eu gwasanaeth anhygoel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maen nhw wedi rhoi cymaint ac mae rhai wedi colli cymaint hefyd.

Yma yn yr NMC heriodd a newidiodd Covid-19 ein ffocws hefyd. Dwyshaodd y pandemig yn union fel y gwnaethom gymeradwyo'n strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025 ond fe wnaethom ailffocysu'n blaenoriaethau'n gyflym i ymateb i Covid-19. Fe wnaethom ddatblygu cynlluniau'n gyflym i ehangu a chynorthwyo'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth, wedi'n harwain gan ein tair thema strategol o Reoleiddio, Cynorthwyo a Dylanwadu a'u hategu gan ein gwerthoedd I fod yn deg, caredig, uchelgeisiol a chydweithredol.

Fe wnaethom ddatblygu'r gofrestr Covid-19 dros dro, cynhyrchu safonau argyfwng ac addysg adfer a diweddaru gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd trwy'n gweganolfan coronafeirws.

Gwaethygodd y pandemig heriau oedd yn bodoli yn yr NMC hefyd. Roeddwm wedi adnabod a dechrau mynd i'r afael yn barod ag ôl-groniad yn ein hachosion addasrwydd i ymarfer pan darodd Covid-19. Roedd rhaid inni ohirio rhai gwarandawiadau a gwaith achos, a gynyddodd ein hôl-groniad ymhellach. Rydym yn gwybod yr effaith mae ymchwiliadau hir yn eu cael ar bawb sy'n rhan o addasrwydd i ymarfer. Dyna pam bod lleihau'r ôl-groniad a chreu gwelliannau parhaol sy'n ein helpu i wneud y penderfyniadau cywir, ar yr adeg gywir yn brif flaenoriaeth inni yn y flwyddyn sydd i ddod.

Nid yw'n syndod fod llawer o'r gwaith a amlinellir yn ein cynllun corfforaethol wedi cael ei oedi neu'i fwrw ymlaen, ond fe wnaethom fwrw ymlaen â rhai o'n blaenoriaethau.



Mewn cydgynhyrchiad ag ystod eang o weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid, fe wnaethom ddatblygu safonau addysg ôl-gofrestru drafft ar gyfer ymgynghoriad, gan adeiladu ar uchelgeisiau ar gyfer nyrsio yn y gymuned ac iechyd cyhoeddus. Fe wnaethom gynnydd hefyd wrth ddatblygu ein 'prawf cymhwyster' ar gyfer gweithwyr proffesiynol rhyngwladol a rhai'n dychwelyd oedd am ymuno â'n cofrestr. Ac fe wnaethom wella strwythur ein sefydliad i'n helpu i ddarparu ein strategaeth mor effeithiol â phosibl, er bod pawb yn gweithio o gartref.

Mae'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn llinyn trwy ein holl waith fel rheoleiddiwr gan gynnwys sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'r rheini sy'n codi pryderon i ni fel cyflogwr ac ym mhob peth rydym yn ei wneud. Y flwyddyn hon daethom yn rheoleiddiwr iechyd a gofal proffesiynol cyntaf i ymuno â'r Safon Cydraddoldeb Hil Gweithlu GIG. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi am y tro cyntaf ein hadroddiadau bwlch tâl anabledd ac ethnigrwydd ochr yn ochr â'r adroddiad bwlch tâl rhywiau blynyddol.

Byddwn yn adeiladu ar y sylfeini hyn i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn yr NMC a thrwy gam nesaf ein hymchwil Ambitious for Change sy'n anelu at ein helpu i ddeall profiadau pobl â nodweddion amrywiaeth gwahanol sy'n cymryd rhan yn ein prosesau yn well.

Rydym am dalu teyrnged i'n cyn-gadeirydd, Philip Graf, yr oedd rhaid iddo gamu i lawr yn annisgwyl yn Rhagfyr yn anffodus oherwydd salwch difrifol. Mae ei arweinyddiaeth, doethineb, a chynhesrwydd wedi gadael effaith barhaol ar y sefydliad.

Yn olaf, rydym am ddioch I'n cydweithwyr NMC sydd wedi cyflawni llawer iawn yn y fath amgylchiadau heriol.


Edrychwn at 2021–2022 ag ymrwymiad o'r newydd i wneud cynnydd â'n huchelgeisiau strategol, gan adeiladu ar gydweithrediadau llwyddiannus y flwyddyn ddiwethaf a'r dysgu rydym wedi'I ennill o ffyrdd newydd o weithio.

**Sir David Warren**
Cadeirydd
9 Gorffennaf 2021

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
9 Gorffennaf 2021

# Ein rôl

## Ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU, a nyrsys cyswllt yn Lloegr



Mae'n hamcanion yn cael eu hamlinellu yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

### Nod trosfwaol y Cyngor yw diogelu'r cyhoedd trwy:

- ddiogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
- hyrwyddo a chynnal hyder cyhoeddus yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn hwn;
- hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol ac ymddygiad cywir i aelodau'r proffesiynau hynny

### Ein cyfrifoldebau rheoleiddiol yw i:

- **Gynnal y gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n ateb y gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a nyrsys cyswllt sy'n ateb y gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- Gosod y **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sy'n ofynnol ar gyfer mynediad at, neu nodiad ar, ein cofrestr
- Ffurfio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy ddatblygu **a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes trwy ailddilysu
- **Ymchwilio i ac, os oes angen, gweithredu** lle mae pryderon difrifol yn cael eu codi am addasrwydd nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt i ymarfer.

Ein corff llywodraethol yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwech o bobl lleyg a chwech o bobl proffesiynol ar ein cofrestr. Mae ein gwaith yn cael ei arolygu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheoleiddwyr y proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig ac yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn darparu budd cyhoeddus.

# Ein rôl

Rheoleiddio, Cynorthwyo a Dylanwadu: Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron 732,000 o nyrsys a bydwragedd proffesiynol. Mae gennym rôl bwysig mewn gwireddu hyn.

Ein rôl graidd yw i **reoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau proffesiynol uchel i nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a nyrsys cyswllt yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymafer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nac un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn ystyried y cyd-destun mae digwyddiadau'n digwydd ynddo a rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ateb pryderon, ond byddwn yn gweithredu pan fydd angen o hyd.

I reoleiddio'n dda, rydym yn **cynorthwyo'n** proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chyfarwyddyd sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i ddarparu'n safonau yn ymarferol ac ateb heriau newydd. Rydym hefyd yn cynorthwyo pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu'n gweladwyedd er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cymryd rhan ac wedi'u galluogi i ffurfio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chynorthwyo'n proffesiynau yn caniatáu i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddiol ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo cynllunio gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio'n llais i siarad dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

Bydd ein pump thema strategol yn cyfarwyddo sut y byddwn yn blaenoriaethu a graddoli ein gwaith, yn ogystal â buddsoddiad newydd mewn pobl ac adnoddau eraill. **Y rhain yw:**

- **Gwella ac arloesi**
- **Cymorth rhagweithiol i'n proffesiynau**
- **Mwy gweladwy a mwy gwybodus**
- **Ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid a'u grymuso**
- **Dirnadaeth a dylanwad helaethach**



# Ein gwerthoedd

Gan ategu'r themâu hyn, rydym yn anelu at gydosod ein galluoedd, isadeiledd a diwylliant i ddod yn sefydliad addas ar gyfer y dyfodol.

> Fe wnaethom fabwysiadu gwerthoedd newydd yn 2020 sy'n ategu popeth a wnawn. Maen nhw'n ffurfio sut rydym yn meddwl a gweithredu.

## Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy, tryloyw.

## Rydym yn garedig

Rydym yn gweithredu â charedigrwydd ac mewn ffordd sy'n rhoi gwerth ar bobl, eu dirnadaethau, sefyllfaoedd a phrofiadau.

## Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi'n perthnasoedd (o fewn yn ogystal â'r tu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan rydym yn gweithio'n dda gydag eraill.

## Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn cymryd balchder yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio ac yn anelu bob amser at wneud ein gorau i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a'n gilydd.

> Mae'n strategaeth yn siarad am beth yr ydym am ei gyflawni ac mae'n gwerthoedd yn adrodd y stori am sut y byddwn yn gwneud hyn – sut fydd pobl yn profi gweithio yn a chyda'r NMC.

**Andrea Sutcliffe**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC**



## Strategaeth NMC ar dudalen

**Pwrpas**
Hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf mewn nyrsio a bydwreigiaeth - amddiffyn y cyhoedd, ennyn hyder y cyhoedd.

**Gweledigaeth**
Arferion nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a llesiant pawb.

**Ein rôl**
2020–25

**Rheoleiddio**
- Cofrestr cywir a thryloyw
- **Sofonau** proffesiynol ac addysgol cadarnl
- Sicrhau **rhaglenni addysg**
- Ymateb yn deg i**bryderon addasrwydd i ymarfer (FtP)**

**Cefnogaeth**
- Hyrwyddo **dealltwriaeth** – ein galwedigaethau a'n rôl
- Darparu **offer ymarferol** – help i sefydlu safonau
- **Cymorth emosiynol/ymarferol** – y bobl sy'n gysylltiedig â'n prosesau

**Dylanwad**
- Hyrwyddo **amgylchedd gwaith proffesiynol**
- Rhannu **data a mewnwelediad** mewnwelediad i nodi risgiau niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog **arloesedd rheoliadol**

**Themau ar gyfer**
2020–25
Gwelliant ac arloesi | Cefnogaeth ragweithiol | Gweledol a mwy gwybodus | Mwy apelgar a grymus | Mewnwelediad a dylanwad

**Gwerthoedd** Teg Caredig Cydweithredol Uchelgeisiol

# Arolwg perfformiad 2020–2021





## Arolwg

Ym Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor ar ein strategaeth 2020–2025 a'n cynllun corfforaethol a chyllideb 2020–2021, yn dilyn blwyddyn o ymgynghori helaeth a gwaith datblygu.

Ar yr un pryd cododd y pandemig Covid-19, gan ofyn i ni ddargyfeirio'n ffocws ac adnoddau i helpu ymateb i'r argyfwng. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i ni ohirio rhai o'n gweithgareddau arfaethedig, tra'n sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein dyletswyddau rheoleiddiol craidd ac i reoleiddio'n effeithiol.

Roedd llawer o'n partneriaid allanol yn ymwneud yn drwm â'r ymateb i'r pandemig Covid-19 ac yn cynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol o dan bwysau enfawr. Roedd angen i ni sicrhau ein bod yn lleihau beichiau ar weithwyr proffesiynol prysur tra'n cydweithio i ganfod yr atebion gorau oedd yn cynorthwyo, nyrsys a bydwragedd proffesiynol, myfyrwyr, a'r cyhoedd.

**Ein blaenoriaethau yn y dyddiau digynsail hyn oedd:**

- cynnal ein rôl bwysig mewn diogelu'r cyhoedd a hyrwyddo hyder cyhoeddus mewn nyrsio a bydwreigiaeth;
- sicrhau ein bod yn parhau i gofrestru'r bobl gywir yn gyflym – roedd angen nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy nac erioed;
- chwarae ein rhan yn y gweithredoedd oedd eu hangen i ymateb i'r pandemig Covid-19;
- gofalu am ein cydweithwyr i sicrhau bod pobl yn ddiogel ac y gallem barhau i weithredu'n effeithiol.

**Fe wnaethom weithredu fel a ganlyn i ymateb i Covid-19**

**Rheoleiddio:** Cymeradwyodd ein Cyngor reolau brys ym Mawrth 2020, a gafodd eu diwygio wedyn yng Ngorffennaf, yn ein galluogi i:

- sefydlu cofrestru dros dro (gan gynnwys cofrestr, amodau ymarfer, polisïau a phwerau cyfreithiol) i gynorthwyo rhagor o nyrsys, nyrsys cyswllt a bydwragedd i gyfrannu'n ddiogel ac yn effeithiol at yr ymateb i'r pandemig, â threfniadau diogelu priodol;

- gosod safonau addysg brys i alluogi addysg nyrsio a bydwreigiaeth i barhau'n ddiogel ac yn effeithiol yn ystod y pandemig, tra'n caniatáu i fyfyrwyr gyfrannu at yr ymateb I'r pandemig
- estyn cyfnodau ffi cadw ac ailddilysu i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i aros ar ein cofrestr;
- gweithredu hyblygrwydd o fewn ein gofynion tramor i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol a gymhwysodd dramor i gyfrannu at yr ymateb i'r pandemig;
- sefydlu trefniadau gweithio i alluogi gwarandawiadau rhithiol a chymeradwyaethau rhaglen addysg.

**Cymorth a dylanwad:** Fe wnaethom ymgymryd â chyfathrebiadau allanol a mewnol helaeth gan gynnwys gweganolfan newydd, ac ymgysylltu ledled y DU ag arweinyddion sector ac adrannau llywodraeth perthnasol pedair gwlad y DU.

**Dirnadaeth:** Fe wnaethom ymgymryd ag ymchwil i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a dadansoddiad o'n cofrestr dros dro ac asesiadau effaith cydraddoldeb o'n hymateb i Covid-18, sganio gorwelion a chynhyrchu dirnadaethau rheolaidd, gan gnnwys gwybodaeth am atgyfeiriadau Covid-19.

**Pobl ac isadeiledd:** Fe wnaethom gynorthwyo cydweithwyr i weithio o gartref a phan yn briodol dychwelyd i'r swyddfa. Fe wnaethom asesiadau risg parhaus, a gweithredu mesurau diogelwch a chefnogi lles cyflogeion.

## Ein rheolau brys

Mae gan y ffyrdd o weithio a alluogwyd gan ein rheolau brys fuddion yr ydym am eu sefydlu y tu hwnt i'r pandemig. Ym Mawrth 2021, ar ôl ymgynghori helaeth a gwrando'n ofalus ar farn y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, cyrff proffesiynol a phrif randdeiliaid eraill, cytunodd y Cyngor i barhau â'r pwerau a ddyfarnwyd o dan ddeddfwriaeth frys cyn gynted ag y bydd y cyfnod argyfwng wedi dod i ben. **Mae hyn yn cynnwys:**

- parhau i gynnal gwrandawiadau yn rhithiol oni bai fod rheswm da i beidio a lle mae'n deg ac ymarferol i wneud hynny.
- cytundeb na fyddwn yn defnyddio'r pŵer i gynnal gwrandawiadau heb banelydd cofrestredig yn bresennol, y tu allan i argyfwng cenedlaethol.
- cytundeb y byddwn yn defnyddio panelau o ddau aelod yn hytrach na thri mewn amgylchiadau prin ac eithriadol yn unig.

Cafodd y penderfyniad i barhau i ddefnyddio'r pwerau hyn ei ffurfio gan ystyriaeth ofalus o ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr angen i daro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfiawnder agored a mynediad i'r cyhoedd ar yr un llaw ac unrhyw risgiau o annhegwch neu niwed i'r swyddogion cofrestredig ar y llall. Rydym wedi ymrwymo i adolygu ac esbonio'r defnydd parhaol o'r pwerau hyn yn glir ar ddiwedd y cyfnod argyfwng.

## Beth rydym wedi'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf

Wrth ymateb i'r pandemig, rydym wedi ennill dirnadaeth werthfawr am ein prosesau ac wedi adnabod dulliau newydd yr ydym am eu sefydlu wrth symud ymlaen.

**Rydym wedi dysgu:**

- er bod ymateb i'r pandemig wedi arafu cyflymder darparu'n strategaeth, mae wedi cryfhau ein hargyhoeddiad fod ein amcanion strategol yn gadarn, ac wedi cadarnhau bod ein gwerthoedd a'n hawydd i integreiddio Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant i mewn i'n gwaith wedi llunio'n hymateb i Covid-19 yn ogystal â'n darpariaeth strategol.
- bod asesu penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r pandemig trwy asesiad effaith cydraddoldeb (EQIA) ledled y sefydliad wedi bod yn hollbwysig mewn sicrhau ein bod yn monitro effaith ein prosesau ar grwpiau gwahanol a sicrhau ein bod yn gwella, yn hytrach na'n gwaethygu, anghydraddoldebau annerbyniol a dwfn eu gwreiddiau.
- bod cydweithio ac ymgysylltu â phartneriaid sector i gyfosod ein cymorth a chyfarwyddyd, fel datganiadau ar y cyd ynglŷn â iechyd ac ymgynghori ar newidiadau polisi, wedi bod yn hanfodol bwysig.
- ein bod yn gallu bod yn addasadwy, ymatebol a hyblyg. Mae eisiau rhagor o hyn ar ein rhanddeiliaid oddi wrthym, ond heb gyfaddawdu ar ddiogelwch.

Arolwg perfformiad

- ein bod yn gallu darparu gweithgareddau'n llwyddiannus yn gyflymach, fel y datrysiad technoleg y gwnaethom ei ddefnyddio i reoli cofrestru brys, a dylem ystyried ein harchwaeth i wneud rhagor o hyn yn y dyfodol.
- er bod rhai gweithgareddau, yn enwedig rhai gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer, yn golygu bod angen i rai pobl fynychu swyddfeydd, rydym yn gallu gweithio'n llwyddiannus o bell ar draws llawer o'n gweithgareddau, sy'n creu cyfleoedd posibl ar gyfer ein cynllunio ystadau i'r dyfodol ac i gydweithwyr NMC.

Rydym yn falch o'r hyn mae ein cydweithwyr wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tudalennau canlynol o'r adolygiad perfformiad yn darparu adroddiad o'n gwaith yn erbyn ein pump thema strategol, fel yr amlinellir yn ein strategaeth 2020–2025, a'n hymrwymiadau corfforaethol blynyddol, fel yr amlinellir yn ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2020–2021.



Thema strategol 1

**Gwella ac Arloesi**: arloesi'n dull o reoleiddio'n barhaus i sicrhau ein bod yn mwyafu budd i'r cyhoedd ac yn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid

**Ymrwymiad 1:** Parhau i ddarparu rheoleiddio effeithiol o nyrsys a bydwragedd ledled y DU a nyrsys cyswllt yn Lloegr.

## Ein cofrestr

Mae ein cofrestr wrth graidd popeth rydym yn ei wneud. Mae'n diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n ateb ein safonau sy'n gallu ymarfer yn y DU. Er mwyn cyfrannu at yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig ac i gynorthwyo'r rheini ar ein cofrestr, fe wnaethom nifer o newidiadau i'r ffordd roeddem yn gweithio yn 2020–2021.

Gan ddefnyddio'n pwerau brys, fe wnaethom adnabod grwpiau o bobl roeddem yn eu hystyried yn briodol, cywir ac addas o brofiadol; i gynorthwyo'r argyfwng. Trwy gydol 2020-2021 fe wnaethom alluogi amrywiaeth o grwpiau gwahanol i ymuno â'r gofrestr dros dro gan gynnwys nyrsys a bydwragedd oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol a grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi dramor oedd yn y broses o wneud cais i'r gofrestr barhaol, yn amodol ar amodau ymarfer, fel y byddai'n briodol.

**Megis ar 31 Mawrth 2021, y nifer o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr dros dro oedd 15,457.**

> "Fe wnaethom greu'r gofrestr dros dro Covid-19, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol oedd wedi gadael cofrestr yr NMC yn ddiweddar a gweithwyr proffesiynol o dramor oedd yn aros am eu hasesiad terfynol yn y DU. Rydym yn wylaidd ac yn eithriadol o ddiolchgar i bawb sydd wedi ymuno â'r gofrestr dros dro."



Arolwg perfformiad

Ers i ni gyflwyno cofrestru dros dro ym Mawrth 2020, rydym wedi bod yn monitro effaith cydraddoldeb ein gwaith ymateb i Covid-19. **Daeth ein Hasesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y cyfnod o Fawrth 2020 – Ebrill 2021 i'r casgliad fod:**

- Roedd penderfyniadau i gynnwys grwpiau â chofrestru dros dro wedi'u seilio ar asesiad a oedd y grŵp – nid yr unigolion o fewn y grŵp – yn cael eu hystyried i fod yn 'briodol, cywir ac addas o brofiadol'. Canfuwyd nad oedd yr ystyriaethau hyn yn ffafrio nac yn anffafrio unrhyw unigolyn na grŵp dros un arall mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig.
- Roedd gwahaniaethau ar sail oed ac anabledd y bobl a gafodd eu gwahodd i gael cofrestriad dros dro. Roeddem yn ymwybodol o gyfarwyddyd y llywodraeth mewn grym ar y pryd, wedi'i gynllunio i ddiogelu rhai pobl mewn grwpiau risg uwch. Yn hytrach na derbyn ceisiadau ar gyfer y gofrestr dros dro oddi wrth bobl mewn grwpiau oedran penodol neu oedd â phroblemau ynghylch iechyd yn awtomatig, fe wanethom eu prosesu â llaw.
- Rydym yn gallu monitro ac adrodd ar ddiddymiadau o gofrestriad dros dro a chwynion a godir yn erbyn y rheini â chofrestriad dros dro o bersbectif cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Er nad ydym wedi adnabod na derbyn pryderon am wahaniaethu posibl yn ein prosesau diwygiedig yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn dal yn ymwybodol a phryderus am effaith dymor hir y pandemig a'r potensial ar gyfer gwahaniaethau cynyddol ar draws y sector i weithwyr proffesiynol yn ogystal â'r rheini sy'n cyrchu gofal.

## Cofrestr Barhaol

Ar 31 Mawrth 2021, y nifer o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr barhaol oedd 731,918. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 2.1 y cant (15,311 o weithwyr cofrestredig) ers Mawrth 2020, ac mae'n nifer uchaf o weithwyr cofrestredig erioed.



**Cofrestr barhaol ar 31 Mawrth 2021**

**681,527** o Nyrs


**39,070** o Fydwragedd

**6,968** O Weithwyr

**4,353** o Nyrsys Cyswllt

Ar ein cofrestr cyfanswm o **731,918**

**Nifer o weithwyr cofrestredig fesul gwlad neu ranbarth cofrestriad gwreiddiol**




**92,260** Undeb Ewropeaidd/ Ardal Economaidd Ewropeaidd

**30,331** Y tu allan i'r DU/UE/AEE

## Effaith Covid-19 ar weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr

Rydym yn gwybod bod ymateb i'r pandemig Covid-19 wedi dwyshau'r galwadau ar nyrsys a bydwragedd, gyda gweithwyr proffesiynol yn gofalu am bobl ac yn cynorthwyo teuluoedd mewn amgylchiadau newydd a anodd ar draws pob lleoliad iechyd a gofal. Fel yr amlygodd yr adroddiad King's Fund ar The Courage of Compassion.

"Mae effaith y pandemig ar y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth wedi bod yn ddigynsail a bydd yn cael ei deimlo am amser maith i ddod."

Mae gennym rôl bwysig mewn helpu i feithrin y diwylliant ac amgylchedd sy'n cynorthwyo iechyd meddyliol a chorfforol gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Rydym wedi cymryd camau yn 2020-2021 i helpu cefnogi hyn, er enghraifft, mae'n canolfan Covid-19 yn darparu adnoddau i gynorthwyo iechyd meddwl a llesiant gweithwyr proffesiynol. Ond rydym yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud. Mae ein strategaeth ar gyfer 2020-2025 yn amlinellu ein huchelgeisiau am y gwaith hwn ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gydweithio ag eraill i gyflawni'r amcanion hynny.

**Y flwyddyn hon fe wnaethom groesawu 34,557 o weithwyr proffesiynol newydd i'r gofrestr barhaol.**

- Hyfforddodd 24,611 yn y DU (2019–2020: 25,381)
- Hyfforddodd 810 yn yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd (UE/AEE)
- Hyfforddodd 9,156 y tu allan I'r DU neu Ue/AEE (2019–2020: 11,933).

Mae'n prosesau a gofynion cofrestru yn darparu sicrwydd bod y gweithwyr proffesiynol cywir ar ein cofrestr ac maen nhw'n gallu darparu gofal diogel a charedig.Mae'n rhaid i'r prosesau hyn fod yn briodol, cymesur a gweithredu'n effeithlon er mwyn cynorthwyo'r gweithlu a diogelu'r cyhoedd. Mae'r perfformiad cofrestru cryf eleni, fel y dangosir isod yn cefnogi'r nod hwnnw.

**Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd oherwydd Covid-19, fe wnaethom ateb ein prif dargedau dangosyddion perfformiad cofrestru:**

- Cafodd 99.3 y cant (2019–2020: 97.1 y cant) o geisiadau cofrestru cyntaf y DU eu cwblhau o fewn un diwrnod, gan gyrraedd ein targed o 97 y cant.
- Cymerodd rhai ceisiadau fwy o amser i'w prosesu, er enghraiift, os oes pryder wedi cael ei nodi, cafodd 97.7 y cant o'r ceisiadau cofrestru cyntaf hyn yn y DU eu cwblhau o fewn 60 diwrnod (2019–2020: 99.7 y cant), gan ragori ar ein targed o 95 y cant.
- Cafodd 99.7 y cant o geisiadau cofrestru'r UE/AEE eu cwblhau o fewn ein nod o 30 diwrnod (Cymharydd 2019-2020: 99.8 y cant), gan ragori ar ein targed o 90 y cant.
- Cafodd 99.4 y cant o geisiadau cofrestru o dramor eu cwblhau o fewn ein nod o 30 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant. Y cymharydd ar gyfer 2019–2020 oedd 99.9 y cant mewn 60 diwrnod. Roedd y newid yn y targed o 60 diwrnod i 30 yn ganlyniad o welliannau i'r system a gyflwynwyd yn Hydref 2019 a symleiddiodd ein prosesu.

Mae'n Canolfan Gyswllt yn cynorthwyo nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt ag ymholiadau sydd ganddynt am eu cofrestriad. Fe wnaethom alluogi'r Ganolfan Gyswllt i weithio'n llwyddiannus o bell ond cyflwynodd hyn rai heriau technegol a arweioniodd at rai oediadau ar y llinell a materion gyda chysylltu â'n systemau o bell.

Dros gyfnod y Nadolig ac ail don y pandemig fe wnaethom hefyd dderbyn swm uwch o alwadau cymhleth. **Er gwaethaf y ffactorau hyn:**

### Galwadau a atebwyd

86.1 y cant o alwadau yn 2020–2021 (2019–2020: 92.5 y cant). Mae hyn yn erbyn targed o 90 y cant.

**86.1%** o alwadau wedi'u hateb yn 2020–2021

### Canolfan Gyswllt

Dros y flwyddyn, atebodd ein Canolfan Gyswllt gyfartaledd o 891 a alwadau y dydd, yn is na'r flwyddyn flaenorol gyda 1,655 yn cael eu hateb ar ein diwrnod prysuraf

**1,655** o alwadau wedi'u hateb ar y diwrnod prysuraf

### Ar ein hanterth

Y mis prysuraf oedd Mawrth 2021, pan wnaethom dderbyn 22,559 o alwadau, er 8.2 y cant yn llai o alwadau na'r un mis y flwyddyn flaenorol.

**Mawrth 2021 22,559** o alwadau derbyniwydal

### Ymatebion digidol

Ymatebodd y Ganolfan Gyswllt hefyd i 62,274 o e-byst dros y flwyddyn, o gymharu â 42,788 yn 2019–2020, cynnydd o 45.5 y cant.

**62,274** o e-byst a gafodd eu hateb yn 2020–2021

Roedd y cynnydd mewn gweithgaredd e-bost oherwydd ymholiadau ynglŷn â'r pandemig Covid-19 pandemic, yn enwedig ynglŷn â chofrestru brys dros dro ac estyniadau ailddilysu.

## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Cytunodd y DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu ar 24 Rhagfyr 2020 a daeth y cyfnod pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Fe wnaethom baratoi'n helaeth ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a bod newidiadau i'n prosesau cofrestru yn cael eu gweithredu'n llyfn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phrif randdeiliaid gan gynnwys y Llywodraeth a'n partneriaid rheoleiddiol, yn enwedig Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon (NMBI), ar faterion blaenoriaeth fel rhannu data a chynorthwyo gofal trawsffiniol ar ynys Iwerddon. Gan edrych ymlaen, rydym yn parhau i ddylanwadu ar fframwaith cydnabod cymhwyster arfaethedig sy'n cael ei datblygu gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Bydd gan hyn ddylanwad ar sut y byddwn yn trin cymwysterau UE yn y dyfodol.

Fe wnaethom ddiweddaru ein prosesau cofrestru tramor a systemau i gynnwys asesu ymgeiswyr hyfforddedig yn yr UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)-o 1 Ionawr 2021. Ar ddiwedd Mawrth 2021, roedd 279 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi yn y r UEU/AEE-wedi gwneud cais i ymuno â'n cofrestr.

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno ar gyfnod 'sefyll yn llonydd' fel y'i gelwir am hyd at ddwy flynedd y byddwn yn gallu parhau o hyd i gydnabod cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrarwyddeb yr UE. Mae hyn yn golygu na fydd gofyn i nyrsys a bydwragedd o oedolion sy'n gwneud cais i'n cofrestr a hyfforddodd yn yr UE/AEE ac sydd â chymhwyster cydnabyddedig gymryd prawf cymhwyster. Bydd gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi yn y DU sy'n dymuno gweithio yn yr UE yn mynd trwy lwybr cofrestru tramor y wlad sy'n croesawu ac efallai na fydd eu cymhwyster o'r DU yn cael ei gydnabod gan y wlad honno.

Ni newidiodd statws cofrestru gweithwyr proffesiynol o'r UE oedd ar ein cofrestr yn barod cyn y cyfnod pontio ymadael â'r UE. Fe wnaethom ysgrifennu at y gweithwyr proffesiynol hynny i ddarparu sicrwydd mai dyma oedd yn wir.

Roedd hi'n bwysig y gallem barhau i gofrestru gweithwyr proffesiynol wedi'u cofrestru yn yr UE ar ôl i'r DU adael a bod y gwasanaeth hwn yn ddi-dor. Wrth gymryd ymgeiswyr wedi'u hyfforddi yn yr UE trwy'n llwybr cofrestru presennol ar gyfer gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi dramor nid oes toriad mewn gwasanaeth.

## .Ailddilysu

Ers Ebrill 2016, bydd angen i bob gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr ailddilysu i adnewyddu eu cofrestriad â ni unwaith bob tair blynedd. Mae ailddilysu yn hyrwyddo dysgu gydol oes trwy ofyn i weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth fyfyrio ar eu hymarfer a sut mae'r Cod yn gymwys i'w gwaith. Yn 2020–2021, roedd llawer o'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn ailddilysu am yr ail dro.

Fe wnaethom gydnabod er y byddai rhai yn hawdd i'w hailddilysu yn unol â'u dyddiad ailddilysu, byddai eraill yn cael anwasterau i gwblhau eu hailddilysu yn ystod y cyfnod digynsail hwn. I godi'r pwysau ac i leihau pryder fe wnaethom ddefnyddio'n pwerau brys i estyn yr amser oedd gan bobl i gwblhau eu hailddilysu yn ystod dwy don y pandemig. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cyfarwyddyd penodol ar sut i ailddilysu yn ystod yr argyfwng, gan amlinellu sut roeddem yn cynorthwyo pobl i ateb y gofynion a darparu cyngor ar sut i ateb gofynion myfyrio a chadarnhau y datblygu proffesiynol parhaus (CPD). Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa allanol i sicrhau bod ein cymorth wedi'i deilwra ac yn effeithiol.

Am flwyddyn lawn 2020–2021, ailddilysodd 179,361 o weithwyr proffesiynol erbyn adeg eu dyddiad ailddilysu gwreiddiol. Mae'r gyfradd ailddilysu hon o 80.7 y cant yn is na blynyddoedd blaenorol (lle yr amrywiodd o 92 y cant – 94 y cant).

Mae'r gyfradd is a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn lawn oherwydd y pandemig a'r estyniadau cyffredinol y gwnaethom eu cymhwyso i dynnu'r pwysau oddi ar y gweithlu. Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi adrodd ar y nifer o weithwyr proffesiynol a ailddilysodd erbyn eu dyddiadau dyledus gwreiddiol ac heb gynnwys y rheini a ailddilysodd yn ystod unrhyw gyfnod estyniad a ganiatawyd.

Fe wnaethom  newidiadau i'r system ym Medi 2020 a newidiodd y ffordd rydym yn cipio ac yn adrodd am y  data ailddilysu, sy'n golygu ein bod yn gallu adrodd yn awr hefyd ar y nifer o weithwyr proffesiynol sy'n ailddilysu erbyn terfyn amser estynedig, ac felly'n cael darlun cyffredinol.

Estynnodd estyniadau ailddilysu y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod adrodd i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Felly bydd hi'n beth amser cyn y byddwn ni'n gwybod faint o weithwyr proffesiynol a ailddilysodd i gyd, gan gynnwys y rheini a wnaeth hynny ar ôl eu dyddiad dyledus


Arolwg perfformiad

gwreiddiol. Gan i ni ond dechrau cipio'r data ychwanegol o Fedi 2020 ymlaen ni fydd gennym unrhyw ddata blwyddyn flaenorol lawn cymharol a bydd ond yn berthynol i hanner olaf y flwyddyn.

Mae ailddilysu yn brif offeryn rheoleiddiol i alluogi gweithwyr proffesiynol i ddangos eu cymhwyster yn barhaus. Trwy ganiatáu estyniadau i'r fframiau amser i gyflwyno'u hailddilysiad fe wnaethom gynorthwyo niferoedd arwyddocaol o nyrsys a bydwragedd i barhau i weithio trwy'r pandemig, ac i gwblhau eu hailddilysiad wedyn pan oeddent yn fwy abl i wneud hynny. Rydym yn credu bod hyn wedi bod yn ddefnydd effeithiol a chytbwys o'r gofyniad pwysig hwn.

## Sut mae ailddilysu yn gweithio i grwpiau gwahanol

Ffocws pwysig o'n hymchwil cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yw archwilio pam bod rhai grwpiau'n ei chael hi'n anoddach i ailddilysu a beth rydym yn gallu'i wneud am hyn. Mae ein data'n dangos:

**Ethnigrwydd:** Er bod gan y rhan fwyaf o grwpiau ethnig gyfradd ailddilysu (o fewn y y cyfnod ailddilysu gwreiddiol) rhwng 75 y cant ac 85 y cant, mae rhai grwpiau y tu allan i'r ystod hwn. Gan bobl sy'n Asiaidd/Asiaidd Prydeinig Indiaidd mae'r gyfradd ailddilysu uchaf (87.6 y cant, 6,774 o 7,731) a chan bobl sy'n 'Unrhyw gefndir cymysg arall' mae'r isaf (58 y cant, 105 o 181). Mae grwpiau ethnig y rheini sydd i fod i ailddilysu yn amrywio mewn maint, felly dylai hyn gael ei nodi wrth wneud cymariaethau.

**Anabledd:** Roedd gan y rheini oedd yn datgan anabledd ar adeg dilysu raddfa is o ailddilysu (70 y cant) na'r rheini nad oedd yn datgan anabledd (81 y cant). Rydym yn parhau i flaenoriaethu darparu cymorth ac addasiadau rhesymol i bobl ag anabledd; mae rhagor o fanylion i'w gweld yn ein polisi addasiad rhesymol.

Fel y crybwyllwyd uchod, er y bydd y ffigurau a adroddir yn cael eu tanddatgan oherwydd estyniadau ailddilysu mae'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn wirioneddol a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau nad yw unrhyw wahaniaethau yn codi oherwydd rhwystrau o fewn ein prosesau.



## Addysg Nyrsio a bydwreigiaeth sy'n sicrhau ansawdd

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer nyrsys a bydwragedd proffesiynol, ein rôl ni yw sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Rydym yn gwneud hyn trwy gymeradwyo rhaglenni addysg a monitro darparu'r rhaglenni hyn mewn Sefydliadau Addysg Cymeradwy (AEIs).

### Addysg Argyfwng a Safonau Adfer

Mewn ymateb i'r pandemig ac yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddogion Nyrsio, Prif Swyddogion Bydwreigiaeth, Cyngor y Deoniaid Iechyd, Colegau Brenhinol, a chyrff cynrychioladol, fe wnaethom gyflwyno set o safonau argyfwng ym Mawrth 2020. Galluogodd y safonau hyn fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth blwyddyn olaf i gwblhau eu rhaglenni mewn lleoliadau estynedig i gynorthwyo'r gweithlu. Galluogwyd myfyrwyr ail flwyddyn hefyd i ymgymryd â lleoliadau estynedig, tra gallai myfyrwyr blwyddyn gyntaf gwblhau eu blwyddyn mewn dysgu damcaniaethol i leihau unrhyw bwysau ar y gweithlu.  Fe wnaethom ddileu'r angen i fyfyrwyr ar leoliadau clinigol estynedig fod yn ychwanegol i'r angen ond bod gofyn iddynt gael amser dysgu wedi'i ddiogelu. O ganlyniad, penderfynodd llywodraethau'r pedair gwlad i dalu'r myfyrywyr hyn yn ystod y cyfnod hwnnw. O dan y trefniadau hynny cynorthwyodd mwy na 35,000 o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth y gweithlu ymhellach fel rhan o'u rhaglenni.

Cymerodd set o safonau adfer le'r trefniadau brys hyn ym Medi 2020. Ceisodd y safonau gynyddu hyblygrwydd yn ystod y pandemig, gyda golwg ar ddod a myfyrwyr yn ôl i addysg mor normal â phosibl.

Yn Ionawr 2021, a'r pandemig yn dwyshau a phwysau cynyddol ar y gweithlu, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ni ailsefydlu safonau argyfwng ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf i'w caniatáu eto i ymgymryd a lleoliadau clinigol estynedig ac i gynorthwyo'r gweithlu fel rhan o'u rhaglenni. Fe wnaethom hefyd ddarparu hyblygrwydd ychwanegol i Sefydliadau Addysg Cymeradwy ynghylch arolygu ac asesu myfyrwyr, a'r defnydd o ymarfer efelychiadol.



Arolwg perfformiad

Rydym yn cymeradwyo'r ymateb gan fyfyrwyr nysrio a bydwreigiaeth a chwaraeodd rôl hanfodol trwy gydol y pandemig ac ymdopi â chymaint o darfu.

### Sicrwydd Ansawdd Safonau Brys

Pan fabwysiadodd Sefydliadau Addysg Cymeradwy a'u partneriaid ymarfer dysgu y safonau brys yn 2020, fe wnaethom ofyn iddynt gyflwyno adroddiad i ni yn amlinellu'r newidiadau roeddent wedi eu gwneud i'w rhaglenni, a sicrwydd eu bod yn parhau i ateb ein safonau'n gyffredinol.

Gwnaeth pob un o'r 87 AEI y gofynnwydd iddynt gyfwyno adroddiadau, wneud hynny. O'r rheini, ni wnaeth 22 (25 y cant) ddarparu digon o sicrwydd ac roedd gofyn iddynt ailgyflwyno'u hadroddiadau. Rydym wedi adolygu'r adroddiadau a gafodd eu hailgyflwyno ac mae'r AEIau yn awr wedi darparu sicrwydd digonol.

### Cymeradwyo rhaglenni addysg yn 2020–2021

Oherwydd canllawiau cadw pellter cymdeithasol, fe wnaethom gyflwyno ymweliadau rhithiol i alluogi gweithgaredd cymeradwyo rhaglenni i barhau yn ystod y pandemig. Cafodd yr 169 ymweiad a gafodd eu cynnal o bell dderbyniad da ac rydym yn archwilio ar hyn o bryd lle gallai'r mathau hyn o ymweliadau gael eu defnyddio yn fwy arferol fel rhan o'n gweithgaredd sicrwydd ansawdd arferol.

Mae'r nifer o Sefydliadau Addysg Cymeradwy wedi cynyddu o 86 yn 2019–2020 i 88 yn 2020–2021, gan ddarparu 2,235 o raglenni cymeradwy.

Yn 2018, fe wnaethom lansio safonau uchelgeisiol newydd sy'n amlinellu'r sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar y genhedlaeth nesaf o nyrsys i ddarparu gofal o safon byd. Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rôl hollbwysig mewn darparu, arwain a chyd-drefnu gofal sy'n drugarog, wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Mae'r safonau newydd hyn yn ystyried anghenion newidiol pobl, gan gynnwys gofalu am y rheini ag anghenion cymhleth ac mewn hyrwyddo agendâu a blaenoriaethau iechyd cyhoeddus. Dechreuodd Sefydliadau Addysg Cymeradwy hyfforddi yn erbyn y safonau newydd yn 2019.



Yn 2020–2021 roedd 83 Sefydliad Addysg Cymeradwy wedi cael eu cymeradwyo yn erbyn ein hen safonau, cawsant eu hailgymeradwyo yn erbyn ein safonau newydd, gan sicrhau ein bod yn ateb ein prif ddangosydd perfformiad. Fe wnaethom wrthod cymeradwyo un rhaglen ynghylch dychwelyd i ymarfer. Bydd pob Sefydliad Addysg Cymeradwy yn y DU yn addysgu nyrsio gan ddefnyddio'n safonau newydd erbyn Medi 2021, gan ddilyn cytundeb y Cyngor ym Mawrth 2020 i estyn y terfyn amser o 2020 i 2021 yng ngolau effaith y pandemig.

Yn 2020, fe wnaethom lansio'n safonau newydd ar gyfer bydwreigiaeth a amlinellodd y sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen gan fydwragedd y dyfodol i ddarparu gofal bydwreigiaeth o safon byd. Cychwynnodd Sefydliadau Addysag Cymeradwy raglenni addysg gan ddefnyddio'r safonau hyn yn 2020, ac yn 2020–2021, cafodd 19 Sefydliad Addysg Cymeradwy eu cymeradwyo yn erbyn y safonau hyn. Bydd pob Sefydliad Addysg Cymeradwy yn y DU yn addysgu bydwragedd gan ddefnyddio'n safonau newydd erbyn 2022, yn dilyn cytundeb y Cyngor yng Ngorffennaf 2020 i estyn y terfyn amser o 2021 i 2022 oherwydd effaith y pandemig.

### Monitro rhaglenni addysg yn 2020–2021

Mae'n ofynnol i Sefydliadau Addysg Cymeradwy gyflwyno hunanasesiad a hunanddatganiad blynyddol mewn perthynas â'u rhaglen/rhaglenni wedi'u cymeradwyo gan yr NMC. Roedd pob un o'r 87 Sefydfliad Addysg Cymeradwy (cafodd un Sefydliad Addysg Cymeradwy ei gymeradwyo ar ôl terfyn amser cyflwyno'r hunanasesiad blynyddol) oedd wedi cael eu cymeradwyo ac roedd yn ofynnol iddynt ymgymryd â hunanadrodd blynyddol ar y pryd, wedi cyflwyno'u hadroddiadau hunanasesu ar gyfer blwyddyn academaidd 2019–2020. Ni wnaeth 21 (24 y cant) ddarparu sicrwydd digonol ar y dechrau. Roedd yn ofynnol i'r sefydliadau hyn ailgyflwyno'u hadroddiadau, sydd wedi cael eu hadolygu ac mae sicrwydd wedi cael ei ddarparu yn awr.

Mae gennym 53 sefydliad o dan fonitro rhaglen newydd ar hyn o bryd lle maen nhw'n rhedeg rhaglen cyn cofrestru newydd am y tro cyntaf. Mae monitro rhaglenni newydd yn cynnig craffu ychwanegol ac mae'n gofyn i Sefydliadau Addysg Cymeradwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar raglenni newydd, hyd yr adeg y bydd y garfan gyntaf o fyfyrwyr yn cwblhau eu rhaglen ac yn ymuno â'r gofrestr. Mae gennym un rhaglen hefyd o dan graffu manylach wedi cwblhau adolygiad arbennig yn 2020 a chanfod nad oedd ein safonau'n cael eu

hateb. Mae'r sefydliad hwnnw yn dilyn hynny wedi cwblhau ei gynllun gweithredu a gytunwyd.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd newydd wedi'i yrru gan ddata at sicrwydd ansawdd fydd yn ein galluogi i dargedu'n briodol lle mae pryderon yn cael eu codi, neu lle mae risgiau nad yw'n safonau yn cael eu hateb.

Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol eraill i rannu gwybodaeth a gofyn i sefydliadau adrodd am unrhyw bryderon yn rhagweithiol.

Gofynnwyd i ni hefyd gynorthwyo, a darparu cyngor ar, brosiect dysgu cymysg Addysg Iechyd Lloegr (HEE). Mae'r prosiect yn anelu at helpu i fynd i'r afael â phrinderau cenedlaethol mewn arbenigedd clinigol trwy ddatblygu hyfforddiant sy'n cymysgu dysgu ar-lein a dysgu ymarferol. Cafodd cyngor ei roi ynglŷn â'r gofynion i ateb ein safonau a'r angen i ennill cymeradwyaeth neu addasiad i raglenni o fewn ffrâm amser penodedig. Arweiniodd hyn at chwech Sefydliad Addysg Cymeradwy yn cael eu dewis i ddarparu rhaglen ddysgu gymysg; cafodd y rhaglenni hyn eu cymeradwyo'n llawn i'w darparu o Ionawr 2021.

## Addasrwydd i ymarfer

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth, ein rôl yw ymateb yn deg ac yn effeithiol i bryderon am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt trwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Rydym yn annog pobl i siarad yn gyntaf â'r cyflogwr am eu pryderon i weld os ydynt yn gallu cael eu datrys ar lefel leol. Lle nad yw hyn yn bosibl, neu os yw rhywun yn credu eu bod yn ddigon difrifol i ofyn am weithredu rheoleiddiol ar unwaith a bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio atom ni yna rydym yn penderfynu os oes angen i ni weithredu i ddiogelu'r cyhoedd.

Rydym yn credu mewn rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael a phryderon trwy gryfhau eu hymarfer fodd bynnag, lle mae rhywun wedi'i gofrestru â ni yn cyflwyno risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd, neu eu cydweithwyr, rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd trwy gyfyngu eu hymarfer neu ddileu eu hawl i weithio fel nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt.





Roedd hyn yn rhannol oherwydd ein ffordd o weithio wedi'i chanoli ar yr unigolyn, ac mewn timau allweddol yn enwedig y rheini oedd yn cymryd rhan yn rhannau cyntaf ein proses gwneud penderfyniadau ac ymchwilio. Er bod cynlluniau recriwtio i fynd i'r afael â'r sefyllfa ar waith, cafodd y rhain eu cwtogi yn y lle cyntaf gan gychwyn y pandemig.

**Parhaodd llwyth ein hachosion i gynyddu yn 2020–2021 oherwydd ein hymateb i'r pandemig Covid-19:**

- Er i ni weithredu symudiad at wrandawiadau rhithiol, roedd rhaid i ni ohirio popeth heblaw am weithgaredd y gwrandawiadau mwyaf difrifol ac o bwys mawr.
- Yn ystod y don gyntaf, lle nad oedd risg ar unwaith i'r cyhoedd, fe wnaethom atal ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Er bod hyn wedi cynyddu llwyth ein hachosion, ein barn oedd ei bod yn gywir i beidio â chynnal unrhyw ymchwiliad a allai darfu ar yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig trwy ddargyfeirio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyflogwyr o ganolbwyntio ar yr argyfwng Covid-19.

**Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio i leihau oediadau:**

- O Orffennaf 2020, fe wnaethom ailddechrau gwrandawiadau llawn a recriwtio aelodau tîm ychwanegol i gynorthwyo'n perfformiad.
- O Fedi 2020, ochr yn ochr â pharhau gwrandawiadau rhithiol, fe wnaethom ailddechrau gwrandawiadau corfforol Covid-ddiogel.
- Yn Ionawr 2021, fe wnaethom lansio ein rhaglen Wella Addasrwydd i Ymarfer. Mae'n canolbwyntio ar newidiadau i'n prosesau a gwneud penderfyniadau fydd yn sicrhau bod penderfyniadau terfynol achosion yn gallu cael eu cymryd ar yr adeg gynharaf bosibl. Bydd hyn yn helpu i leihau llwyth yr achosion, heb gyfaddawdu ansawdd, a bydd hefyd yn arwain at welliant parhaol i'n hymagwedd at addasrwydd i ymarfer.

Er gwaetha'r gwaith hwn, fe wnaethom orffen y flwyddyn â llwyth achosion addasrwydd i ymarfer uchel ac ni wnaethom ateb ein targed o gau 80 y cant o'n hachosion mewn 15 mis; yn 2020-2021 fe wnaethom gau 72 y cant o achosion o fewn 15 mis, o gymharu â 81 y cant yn 2019-2020. Rydym yn cydnabod y bydd hi'n beth amser eto cyn i ni ddychwelyd i safon ein gwasanaeth yn y maes hwn. Fel mesur arall dros dro i asesu'n cynnydd byddwn yn monitro faint o benderfyniadau sy'n cael eu cymryd ar bob cam yn ein proses bob mis i sicrhau bod cynnydd cyson yn cael ei wneud. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu achosion lle mae risg amlwg o niwed tra'n bod yn adfer

sefyllfa llwyth ein hachosion. flaenoriaethu achosion lle mae risg amlwg o niwed tra'n bod yn adfer sefyllfa llwyth ein hachosion.

Mae ein perfformiad yn erbyn ein targed o ddosbarthu gorchmynion dros dro o fewn 28 diwrnod o'u derbyn mewn 80 y cant o achosion wedi cael ei effeithio hefyd o ganlyniad i'r cynnydd cyffredinol yn llwyth yr achosion. Fe wnaethom orffen y flwyddyn ychydig o dan y targed, gyda 78 y cant o orchmynion dros dro yn cael eu rhoi o fewn 28 diwrnod (targed 80 y cant), sydd i lawr o 81 y cant yn 2019–2020.

Mae dadansoddiad ystadegol manwl o'n perfformiad yn 2020–2021 wedi'i gyhoeddi yn ein hadroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol.

Arolwg perfformiad

Addasrwydd i ymarfermewn rhifau 2020–2021

## Sgrinio

Pan fyddwn yn derbyn pryderon am addasrwydd rhywun i ymarfer, byddwn yn gwirio os ydynt ar ein cofrestr ac yn asesu a yw'r pryderon yn gofyn am ymchwiliad llawn.

Fe wnaethom dderbyn

**5,547**

**o bryderon newydd**

(2019-2020: 5,704)

Fe wnaethom benderfyniadau ar

**4,123**

**o achosion**

(2019-2020: 4,650)

Fe wnaethom benderfynu bod

**1,335**

o achosion yn gofyn am **ymchwiliad llawn**

(2019-2020: 1,669)

Fe wnaethom benderfynu nad oedd

**2,788**

o achosion yn gofyn am **ymchwiliad llawn**

(2019-2020: 2,981)

## Gorchmynion dros dro

Lle bo angen, gall panelau addasrwydd i ymarfer weithredu ar frys, dros dro i ddiogelu'r cyhoedd tra'n bod yn ymchwilio i'r pryderon sydd wedi cael eu codi.

**Gosododd panelau addasrwydd i ymarfer:**

**Orchmynion atal dros dro mewn**

**240**

**o achosion**

(2019-2020: 245)

**Gorchmynion amodau ymarfer dros dro mewn**

**309**

**o achosion**

(2019-2020: 316)

## Archwilwyr Achosion

Lle bo angen, rydym yn ymchwilio'n llawn i'r pryderon sy'n cael eu codi am addasrwydd rhywun i ymarfer.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd ein Harchwilwyr Achosion yn penderfynu a oes unrhyw gamau nesaf yn ofynnol i ddiogelu'r cyhoedd. Gall Archwilwyr Achosion benderfynu peidio gweithredu ymhellach os byddant yn dod i'r casgliad nad yw'r pryderon yn gofyn am weithredu rheoleiddiol neu os yw'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt wedi cymryd camau digonol i wella'u hymarfer.

**Fe wnaethom gwblhau**

**1,083**

**o ymchwiliadau**

(2019-2020: 1,405)

**Penderfynodd ein harchwilwyr achosion i:**

**Beidio gweithredu mewn**

**575**

**o achosion**

(2019-2020: 812)

**Rhoi cyngor, rhoi rhybudd neu gytuno ar ymgymeriadau mewn**

**73**

**o achosion**

(2019-2020: 59 cases)

**Atgyfeirio**

**435**

**o achosion i'w dyfarnu**

(2019-2020: 534)

## Dyfarnu

Lle bo angen, bydd achosion yn cael eu clywed gan banelau addasrwydd i ymarfer.

Bydd panelau'n penderfynu a oes angen gweithredu'n rheoleiddiol i ddiogelu'r cyhoedd. Gall panelau benderfynu peidio gweithredu ymhellach os byddant yn dod i'r casgliad nad yw'r honiadau wedi'u profi neu os yw'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt wedi cymryd camau digonol i wella'u hymarfer.

**Gwnaeth panelau addasrwydd i ymarfer**

**208**

**penderfyniad**

(2019-2020: 452)

**lle gwnaethant benderfynu i:**

**Dynnu'r unigolyn o'r gofrestr mewn**

**56**

**o achosion**

(2019-2020: 127)

**Atal yr unigolyn o'r gofrestr dros dro mewn**

**86 o achosion**

(2019-2020: 142)

**Rhoi rhybuddiadau mewn**

**14 o achosion**

(2019-2020: 42)

**Gosod amodau y marfer mewn**

**27 o achosion**

(2019-2020: 69)

**Dim gweithredu ymhellach mewn**

**25 o achosion**

(2019-2020: 72)

**Ymrwymiad 2:** Parhau i weithredu ein hymagwedd strategol newydd at addasrwydd i ymarfer i wella'n hymagwedd at ymchwiliadau ac i wella'r profiad a chymorth i'r rhai sy'n cymryd rhan, yn weithwyr proffesiynol neu'r cyhoedd

Ers Mai 2018 rydym wedi bod yn datblygu a rhoi ein hymagwedd strategol newydd at addasrwydd i ymarfer ar waith. Mae'n canolbwyntio ar sut rydym yn symud i ffwrdd o ddiwylliant o feio pan fydd pethau'n mynd o'u lle mewn iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn hytrach ar ddatblygu diwylliant o fod yn agored, gonestrwydd a dysgu.

Er bod gweithredu wedi cael ei ohirio gan y pandemig a'n gwaith i ymateb i'r argyfwng, rydym wedi gwneud cynnydd yn ein gwaith paratoadol a datblygu ac wedi lansio sawl elfen o'n hymagwedd newydd.

## Cyfarwyddyd a chymorth i gyflogwyr

Gan fod cyflogwyr yn agosach ac mewn lle gwell i reoli ffynonellau risg, dylent weithredu yn gyntaf i ddelio â phryderon am ymarfer gweithiwr cofrestredig, oni bai fod y risg i gleifion neu'r cyhoedd mor ddifrifol fod angen i ni weithredu ar unwaith. Mae'n rhan graidd o'n hymagwedd i gynorthwyo cyflogwyr i wneud hyn.

Yn Ionawr 2021, fe wnaethom gyhoeddi adnodd newydd i gynorthwyo cyflogwyr i weithredu'n effeithiol pan fydd pryderon yn cael eu codi am ymarfer nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt. Cafodd yr adnodd ei ddatblygu mewn cydweithrediad â chyflogwyr, gweithwyr proffesiynol, partneriaid rheoleiddiol, a chynrychiolwyr pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ledled y DU.



## Galluogi nyrsys a bydwragedd proffesiynol i gywiro pethau fel rhan o'n gweithrediadau

Fel rhan o ddatblygu diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu, rydym am i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr gael y cyfle i gywiro a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd wedi cael eu codi gyda ni.

Eleni, fe wnaethom gydnabod y byddai effaith Covid-19 yn gwneud amlygu ymarfer cryfhau yn anoddach, felly ym Mehefin 2020 fe wnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd ychwanegol wedi'i deilwra i Covid-19 ar gryfhau ymarfer i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt yn ystod y pandemig.

## Ystyried y cyd-destun mae digwyddiadau'n digwydd ynddo

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y cyd-destun y mae digwyddiau'n digwydd ynddo, oherwydd ein bod yn gwybod bod nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt yn wynebu materion cymhleth a phwysau bob dydd.

Yn Hydref 2019, fe wnaethom gychwyn treialu ymagwedd newydd at ddefnyddio cyd-destun. Daethom â'r cynllun peilot i ben yn gynnar wrth i ni gydnabod, fel y datblygodd y pandemig, y byddai cyd-destun yn dod yn gynyddol bwysig yn ein hystyriaethau a byddai'n gweithwyr proffesiynol cofrestredig yn disgwyl ybyddem yn ei gymryd i ystyriaeth yn gyson yn ein prosesau.

Yn hytrach, fe wnaethom ganolbwyntio ein hymdrechion ar hyfforddi ein timau ar sut i ystyried cyd-destun ac mewn paratoi nifer o ymrwymiadau y byddwn yn glynu atynt wrth asesu cyd-destun. Fe aethom yn fyw â'n hymagwedd ar ddiwedd Mawrth 2021. Wrth ddatblygu'r ymrwymiadau hyn, fe wnaethom geisio barn amrywiol, gan gynnwys o fforymau profiadau cleifion, a chyrff proffesiynol cynrychioladol, undebau ac arweinyddion proffesiynol eraill, fel bydwragedd arweiniol ar gyfer addysg.

Mae rhagor o wybodaeth ar ein hymagwedd newydd at Addasrwydd i Ymarfer wedi'i gyhoeddi yn ein hadroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer.



Arolwg perfformiad

## Chwythu'r chwiban i'r NMC fel unigolyn rhagnodedig

Mae'r NMC yn 'unigolyn rhagnodedig' yn neddfwriaeth chwythu chwiban y DU. Mae hyn yn golygu bod mesurau diogelu mewn cyfraith i weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, pobl sy'n astudio tuag at gymwysterau wedi'u cymeradwyo gan yr NMC, a gweithwyr gofal, iechyd proffesiynol eraill sy'n codi pryderon i ni. Mae gennym bolisi sy'n esbonio sut yr ydym yn trafod pryderon sy'n cael eu codi i ni a'r meini prawf rydym yn eu defnyddio i benderfynu a ydynt yn ateb y diffiniad cyfreithiol o chwythu chwiban.

Yn 2020–2021 fe wnaethom dderbyn 192 o bryderon oedd yn ateb ein meini prawf ar gyfer datgeliadau rydym yn credu'n rhesymol sy'n enghreifftiau o chwythu chwiban (2019–2020: 107). O'r 192, cafodd 45 eu derbyn trwy ein blwch post chwythu chwiban (2019-2020: 23) ac roedd 147 yn ddatgeliadau a gafodd eu gwneud yn ystod achosion addasrwydd i ymarfer (2019–2020: 84). Y themâu mwyaf cyffredin mewn datgeliadau a gafodd eu gwneud eleni oedd: materion rheolaeth, gofal cleifion, ymddygiad a thrais, a rheoli rhagnodi a meddyginiaethau.

Pob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd â rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill ar sut y gwnaethom drafod datgeliadau chwythu chwiban. Mae'r adroddiad ar y cyd ar gyfer 2019–2020 i'w gael ar ein gwefan. Bydd yr adroddiad ar y cyd ar gyfer 2020–2021 yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.



Arolwg perfformiad

## Astudiaeth Achos 1

Cysylltodd nyrs yn gweithio mewn Ymddiriedolaeth yn Lloegr â ni â phryderon ynglŷn ag ymarferion gwaith Covid-19. Roedd y nyrs wedi cael ei hailgyfeirio o weithio mewn triniaeth canser ac roedd ganddi bryderon tra bod gan y safle weithdrefnau mynediad llym, roedd gweithwyr yn dal i gael eu hailgyfeirio i feysydd eraill bob dydd. Roeddent yn pryderu bod hyn yn torri gweithdrefnau ynysu Covid-19 gan y gallai gweithwyr fod yn gweithio o bosibl gyda chleifion coronafeirws hysbys neu bosibl un diwrnod ac yna'n gweithio gyda chleifion canser sydd wedi'u cyfaddawdu'n imiwnaidd y diwrnod nesaf. Roedd y nyrs hefyd yn bryderus am yr effaith ar forâl a llesiant gweithwyr gan y dywedwyd wrthynt ar rybudd byr â pha dimau y byddent yn gweithio, ac yn aml mewn meysydd lle nad oedd ganddynt brofiad.

**Canlyniad:** Cafodd pryderon eu rhannu â'r Comisiwn Ansawdd Gofal, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a GIG Lloegr a Gwelliant.

## Astudiaeth achos 2

Yn Rhagfyr 2020, cafodd datgeliad ei wneud ynghylch bwlio a phryderon am reolaeth mewn cartref gofal preswyl yng Ngogledd Iwerddon oedd yn peryglu urddas a diogelwch staff a preswylwyr. Roedd pryderon yn cynnwys bwlio, ymddygiad amhroffesiynol a rheoli heintiad Covid-19.

**Canlyniad:** Fe wnaethom agor achos addasrwydd i ymarfer a rhannu gwybodaeth â'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA).

## **Ymrwymiad 3:** Darparu'r cam nesaf o welliannau i gofrestru ymgeiswyr tramor

Gan gydnabod bod gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi dramor oedd yn ymgeisio i ymuno â'n cofrestr yn delio ag effaith y pandemig yn broffesiynol yn ogystal ag yn bersonol, fe wnaethom gyflwyno mesurau dros dro i ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Er enghraifft, er bod ein canolfannau profi wedi'u cau, fe wnaethom ganiatáu i'r rheini roedd eu tystiolaeth yn y Saesneg ar fin dod i ben, i ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ddangos bod eu hiaith yn parhau i ateb ein safonau.

Roedd rhai o'r ymgeiswyr hyn yn gymwys i ymuno â'n cofrestr dros dro ac fe wnaethant gynorthwyo'r ymateb i'r argyfwng wrth gwblhau eu cais i'r gofrestr barhaol.

Caeodd ein canolfannau profi ym Mawrth 2020 ac ailagor yng Ngorffennaf 2020 â mesurau cadw pellter cymdeithasol cadarn mewn grym. Mae ac roedd diogelwch ymgeiswyr yn mynychu'r canolfannau profi a'n staff yn dal o'r pwys mwyaf i ni. Ffocws y canolfannau profi pan wnaethant ailagor oedd cynorthwyo'r rheini oedd wedi bod ar y gofrestr dros dro i gwblhau eu ceisiadau cofrestru parhaol.

Erbyn 31 Mawrth 2021, roedd 3313 (78.9 y cant) o'r ymgeiswyr wedi'u hyfforddi dramor a ymunodd â'r gofrestr dros dro yn nhon gyntaf y pandemig wedi ymuno â'r gofrestr barhaol. Yn ogystal, y gyfradd lwyddo ar gyfer y garfan hon oedd 83 y cant o gymharu â'r cyfartaledd blaenorol o 81 y cant. Adborth gan yr holl randdeiliaid oedd fod y grŵp hwn wedi cyfrannu at ein hymateb i'r pandemig ac wedi cyflymu a dyfnhau eu dealltwriaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol y gwnaethant ymuno â hwy yn y diwedd trwy gofrestriad llawn.



# Prawf Cymhwyster

Mae'r prawf cymhwyster yn sicrhau bod gan y gweithwyr proffesiynol a hyfforddodd dramor a'r rheini sydd am ailymuno â'r gofrestr ar ôl amser i ffwrdd o ymarfer y sgiliau a gwybodaeth cywir i ymarfer yn ddiogel.

Roeddwm wedi bwriadu lansio prawf cymhwyster newydd yn ystod haf 2020. Rydym yn gwybod bod paratoi yn allweddol i lwyddiant ymgeiswyr ac fe wnaethom gydnabod bod y pandemig wedi torri ar draws y paratoi hwn yn ddifrifol. Fe wnaethom benderfynu i ddechrau gohirio gweithredu hyd Mawrth 2021, a phan gododd yr ail don, fe wnaethom ohirio unwaith eto i Awst 2021.

Ym Mawrth 2021 fe wnaethom lansio canolfan wybodaeth bwrpasol â phopeth mae angen i ymgeiswyr, recriwtwyr a chyflogwyr wybod am y prawf cymhwyster newydd cyn lansiad yn Awst 2021. Mae'n darparu cymorth ar gyfer y rheini sy'n paratoi ar gyfer y prawf ac mae'n cynnwys ffug arholiadau a llawlyfrau.

# Gweithlu

Parhaodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Lloegr a Gwelliant GIG (NHSE&I) i gyflwyno cynlluniau i gynyddu'r gweithlu nyrsio yn Lloegr fel yr amlinellir yn eu cynllun Pobl. Roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo ymddiriedolaethau yn Lloegr yn eu cynllunio recriwitio rhyngwladol. Fe wnaethom weithio'n agos â hwy i ddeall y gofynion ar ein gwasanaethau cofrestru a'n prawf cymhwyster fel y gallem ymateb i alw. Fe wnaethom hefyd rannu ein data fel y gallent ffurfio'u hasesiadau o'r cynlluniau yn well. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau capasiti ychwanegol yn y canolfannau arholi gan ddarparu'r elfen ymarferol o'r prawf cymhwyster. Bydd y cynllun hwn o fudd a bydd ar gael i bawb sy'n dychwelyd i'n cofrestr ar ôl cyfnod maith allan o ymarfer a gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi dramor sy'n gwneud cais i'n cofrestr fydd yn gweithio ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Thema strategol 2

**Cymorth rhagweithiol i'n gweithwyr proffesiynol:** galluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, rhag-weld a llunio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth i'r dyfodol

## Ymrwymiad 4: Darparu set newydd o safonau hyfedredd ôl-gofrestru sy'n canolbwyntio ar ymarfer yn y gymuned

Yn 2019-2020, fe wnaethom gymryd camau cyntaf mewn datblygu safonau hyfedredd ôl-gofrestru i nyrsio iechyd cyhoeddus arbenigol yn y gymuned (SCPHN), gan gynnwys ymweld iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio mewn ysgolion, a chymhwyster ymarfer arbenigol ar gyfer nyrsio yn y gymuned. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu grŵp llywio a phenodi cadeiryddion annibynnol i arwain ar y setiau gwahanol o safonau.

Yn 2020-2021, mewn ymateb i effaith Covid-19, fe wnaethom fabwysiadu ein methodoleg bresennnol o ddatblygu safonau i'n galluogi i symud y darn pwysig hwn o waith yn ei flaen mewn ffordd rithiol. **Mae hyn wedi'n galluogi i:**

- gynhyrchu hyfedreddau craidd drafft ar gyfer SCPHN a hyfedreddau penodol i faes ar gyfer tri maes SCPHN ymweld iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol a nyrsio mewn ysgolion.
- amlinellu'r cynnwys a drafftio set o hyfedreddau sy'n gymwys i'r holl gymwysterau ymarfer arbenigol yn y gymuned sy'n bodoli, gyda safonau rhaglen sy'n sicrhau bod rhaglenni wedi'u trefnu i ddarparu cymwysterau sy'n arwain at nodiadau ar wahân ar gyfer yr arbenigeddau unigol sy'n bodoli yn y gymuned.
- cynnig nodiad ychwanegol o ymarferydd arbenigol yn y gymuned heb unrhyw faes ymarfer wedi'i bennu. Mae hyn er cydnabyddiaeth o nyrsys sy'n gweithio mewn lleoliadau cymunedol eraill yn awr ac yn y dyfodol, er enghraifft nyrsys yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, y sector elusennol neu mewn lleoliadau carchar. Byddai'r nyrsys hyn yn gallu ymgymryd â'r cymhwyster hwn er budd y bobl yn eu gofal yn y lleoliadau gofal eraill hynny.
- cynhyrchu set unigol o safonau rhaglen drafft sy'n uchelgeisiol, heini, wedi'u canobwyntio ar ganlyniadau ac wedi'u cydosod â'n fframwaith addysg a gyhoeddwyd yn flaenorol a safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr. Mae safonau'r rhaglen yn ateb gofynion SCPHN yn ogystal â rhaglenni cymhwyster ymarfer arebenigol, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a gweithredu ar y cyd.

Oherwydd y pandemig, nid oeddem yn gallu cwblhau ein ymgynghoriad cyhoeddus a phrofi defnyddwyr cyn diwedd 2020-2021 fel y cynlluniwyd. Golygodd y pandemig fod y penderfyniad i wthio ymgynghoriad i Ebrill 2021 wedi cael ei seilio ar argymhelliad y grŵp llywio strategol ôl-gofrestru a rhanddeiliaid eraill o'r bedair gwlad. Fodd bynnag, mae'n hymrwymiad i dynnu'r safonau presennol yn ôl heb fod yn hwyrach na 2023 fodd bynnag yn golygu ein bod yn aros ar y trywydd cywir.

Er na allem gwblhau ein hymgynghoriad a phrofi defnyddwyr, rydym wedi ymgymryd â gwaith helaeth cyn ymgynghori ac wedi paratoi'r broses ymgynghori a deunyddiau. Fe wnaethom gynnal ein holl weithgaredd ymgysylltu cyn ymgynghori ar-lein a'n galluogodd i ehangu ein cyrhaeddiad. Rydym hefyd wedi cynyddu'r cyfnod ymgynghori o'r 12 wythnos arferol i 16 wythnos, gan gydnabod y pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd a chanllawiau iechyd cyhoeddus y llywodraeth. Fe wnaethom gadw ein hamserlen ar gyfer y prosiect o dan adolygiad i alluogi cyfranogaeth rhanddeiliaid.

Oherwydd y cyfnod clo a chyfyngiadau ar deithio a chyfarfod yn y cnawd, cafodd ein gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid ei gynnal yn gyfan gwbl ar-lein gan ddefnyddio platfformau gwahanol ac yn cynnwys gweminarau, cyfarfodydd grwpiau rhanddeiliaid a chyfarfodydd un i un. Er gwaethaf heriau'r pandemig, roedd cyfranogaeth ardderchog yn yr ymgysylltiadau hyn o dros 2000 o randdeiliaid ledled y DU. Helpodd natur rithiol y gweithgaredd i ehangu cyfranogaeth, yn enwedig i ymarferwyr llinell flaen na fyddai fel arall wedi gallu rhoi o'u hamser i fynychu un o'n digwyddiadau. Fe wnaethom gyhoeddi dau adroddiad ar ein gwefan, un ar y gweithgaredd ymgysylltu ac adroddiad annibynnol ar y themâu a gododd mewn perthynas â'r safonau newydd. Galluogodd hyn, ynghyd â'n hadolygiad o dystiolaeth, i ni adeiladu sylfaen gadarn o dystiolaeth i ffurfio drafftio'r safonau newydd ar gyfer SCPHN a Chymhwyster Ymarferydd Arbenigol (SPQ), mewn cydgynhyrchiad â'n rhanddeiliaid.





Arolwg perfformiad

**Ymrwymiad 5:** Archwilio dull newydd i sicrhau ein bod yn cymryd ymagwedd ddynamig at ddatblygu safonau proffesiynol, er mwyn ymateb yn gyflym i heriau proffesiynol newydd

O ganlyniad i'r pandemig a'r angen i ailflaenoriaethu'n gweithgaredd, fe wnaethom benderfynu i oedi gweithgaredd yn y maes hwn.

**Fe wnaethom y cynnydd canlynol:**

- Fe wnaethom ddechrau diffinio'n hymagwedd at ddatblygu rhaglen waith ymlaen i ddiweddaru'n safonau, gan gynnwys ffurfio grwpiau gwaith mewnol.
- Cafodd egwyddorion lefel uchel dechreuol ar gyfer datblygu'n safonau eu hadnabod gan gynnwys bod yn seiliedig ar dystiolaeth a chael eu cydgynhyrchu. Cafodd prif gamau cylch datblygu safonau newydd eu hadnabod hefyd gan gynnwys cychwyn prosiect, datblygu gweithredu a gwerthuso safonau.
- Fe wnaethom ffurfio grwpiau gwaith mewnol i ddatblygu ymhellach sut fyddai'r camau hyn o ddatblygu safonau yn gweithredu, gan gynnwys lle gallai fod angen rhagor o newidiadau brys i'n safonau, er enghraifft ein gwaith presennol i adolygu'n safonau yn awr nad yw Cyfarwyddeb yr UE yn gymwys mwyach.

## Bydwreigiaeth yn yr NMC

Yn ystod 2020–2021 fe wnaethom gydgynhyrchu, â rhanddeiliaid allanol, cynllun gweithredu byw o dan y teitl 'Bydwreigiaeth yn yr NMC' sy'n dehongli'n strategaeth 2020-2025 o bersbectif bydwreigiaeth. Bydd y cynllun yn sicrhau bod bydwreigiaeth yn parhau i ddylanwadu ac i gael ei ystyried yn ein holl waith. Bydd datblygu'r gwaith hwn yn parhau a byddwn yn cyhoeddi'r cynllun yn 2021–2022.

## Safonau Bydwragedd y Dyfodol

Yn dilyn lansiad ein safonau Bydwragedd y Dyfodol yn Ionawr 2020, rydym wedi parhau i ddefnyddio'n rhwydweithiau helaeth ledled y DU i hyrwyddo ac annog mabwysiadu safonau wedi'u seilio ar dystiolaeth mewn addysg yn ogystal ag ymarfer.



Rydym wedi cyflwyno a chodi ymwybyddiaeth o'r safonau mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithiol ac wedi gweithio gyda Byrddau Bydwragedd y Dyfodol mewn amrywiol ddigwyddiadau rhithiol yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, a sawl grŵp cyfeirio arbenigol. Fel rhan o'n gwaith gyda'r cyhoedd, oedd â rhan amlwg iawn mewn gwneud sylwadau ar a chyfrannu at ddatblygu'n safonau, fe wnaethom ddatblygu ac yna cyhoeddi ym Mai 2021 animeiddiad sy'n amlygu ein safonau hyfedredd a'r gofal mae menywod, partneriaid a'u teuluoedd yn gallu'i ddisgwyl gan fydwragedd.

## Y Cod ar Waith: animeiddiadau cryno

Rydym yn gwybod bod nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt wedi wynebu penderfyniadau anodd mewn amgylchiadau digynsail yn ystod 2020-2021. Fel rhan o'n cymorth i'r proffesiynau fe wnaethom ddatblygu cyfres o animeiddiadau cryno o'r enw *Caring with Confidence*: The Code in Action. Mae'r animeiddiadau hyn yn canolbwyntio ar brif themâu ynghylch rolau proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, a sut mae'r Cod yn gallu eu cynorthwyo i gynnal safonau uchel, yn enwedig mewn sefyllfaoedd anodd.

Cafodd yr animeiddiadau eu gweld fwy na 700,000 gwaith, ac fe wnaethom dderbyn ymatebion cadarnhaol o'n harolwg adborth gyda 92 y cant o'n hymatebwyr (427 o bobl) yn dweud bod yr animeiddiad y gwnaethant ei wylio wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus am y pwnc a sut mae'n berthynol i'w gwaith fel gweithiwr proffesiynol cofrestredig; a 92 y cant (424 o ymatebwyr) yn dweud bod y math hwn o adnodd yn eu helpu i gynnal safonau uchel yn ystod amgylchiadau heriol.

**Roedd sylwadau a wnaethom eu derbyn yn cynnwys:** Diolch am gynhyrchu'r fideos hyn. Roedden nhw'n ddefnyddiol iawn i mi ac wedi fy atgoffa o fy angerdd at nyrsio.

**Fe wnaethom hefydd dderbyn adborth gan addysgwyr yn cynnwys:** Rydym yn cael sesiynau ar God yr NMC ym mhob blwyddyn o'n cyrsiau cyn cofrestru. Mae'r ddolen i'r animeiddiadau wedi cael ei rhoi i'r myfyrwyr. Mae'r animeiddiadau'n fywiog a diddorol. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi dau animeiddiad i helpu pawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall beth i'w ddisgwyl gan eu nyrsys a bydwragedd. Mae'r animeiddiadau yn helpu i esbonio'r

safonau rydym wedi'u cyflwyno dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gynorthwyo nyrsys a bydwragedd y DU i ddarparu gofal caredig, diogel ac effeithiol.

"Gobeithio bydd ein hanimeiddiadau yn helpu i sicrhau bod hyd yn oed rhagor o bobl yn deall ein safonau ac adeiladu ymwybyddiaeth i'r dyfodol o'r gofal rhyfeddol mae nyrsys a bydwragedd yn ei ddarparu bob dydd."

**Geraldine Walters, Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymarfer Proffesiynol NMC**





Thema strategol 3

**Mwy gweladwy a mwy gwybodus:** Mewn cysylltiad agosach â'n proffesiynau, eu cyflogwyr a'u haddysgwyr, er mwyn i ni allu rheoleiddio â dealltwriaeth ddyfnach o'r amgylchedd dysgu a gofal ym mhob gwlad o'r DU

## **Ymrwymiad 6:** Adolygu a datblygu ein presenoldeb mewn ardaloedd lleol ar draws rhanbarthau Lloegr ac yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, gan gynnal ffocws ar ddarparwyr ac estyn ein rhwydweithiau seiliedig ar le ymhellach

Yn ystod 2020–2021, fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad strategol o'n Gwasanaeth Dolen Cyflogwr (ELS), gan ystyried ein nodau strategol a'n dealltwriaeth o'r cyd-destun allanol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylem estyn yr agwedd hon o'n gwaith i gynnig gwasanaeth ymestyn mwy cynhwysfawr i genhedloedd a rhanbarthau'r DU, gan weithio gydag ystod ehangach o bartheriaid, ac ymgysylltu ar bob agwedd o'n cylch gorchwyl.

Golygodd Covid-19 ein bod wedi oedi gweithredu canfyddiadau ein harolwg ac wedi canolbwyntio ar gynorthwyo cyflogwyr. Gan nad oedd ymweliadau wyneb i wyneb yn bosibl am y rhan fwyaf o 2020–2021, ymgysylltodd ein Cynghorwyr Rheoleiddio yn rhithiol â chyflogwyr nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt ledled y DU.

**Roedd meysydd ffocws am y flwyddyn yn cynnwys:**

- darparu gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr ar ein hymagwedd at reoleiddio yn ystod y pandemig;
- cyhoeddi adnodd ar gyfer cyflogwyr i'w cynorthwyo i ymateb yn effeithiol; i bryderon am ymarfer gweithiwr proffesiynol;
- annog cyflogwyr i gysylltu â'n llinell gyngor cyn gwneud atgyfeiriad addasrwydd i ymarfer, gan arwain at gynnydd o 50 y cant mewn galwadau; arweiniodd 48 y cant o alwadau at ddewisiadau amgen i atgyfeiriad ar adeg yr alwad;
- cryfhau perthnasoedd â phrif fydwragedd rhanbarthol a grwpiau gwyliadwriaeth diogelwch amenedigol mewn ymateb i adolygiad mamolaeth cenedlaethol yn Lloegr.

### Cydweithredu â GMC a CQC ar wasanaethau mamolaeth

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom drafod â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) sut y gallem weithio gyda'n gilydd yn well i ddefnyddio'n dirnadaeth gasgliadol i wella gwasanaethau. Fe wnaethom gytuno i gychwyn prosiect cydweithredol gan ganolbwyntio ar wasanaethau mamolaeth yn Lloegr oherwydd pryderon ar hyn o bryd mewn rhai unedau mamolaeth. Mae gan y rhain lawer o achosion ac er bod ymarfer bydwreigiaeth da yn un rhan o'r ateb, mae materion tîm amlddisgyblaethol hefyd a system i fynd i'r afael â hwy hefyd. Rydym yn cydweithio â'r GMC a'r CQC i sicrhau cysoni da rhwng ein disgwyliadau o fydwragedd, obstetryddion a gynecolegwyr, a'r gwasanaethau mamolaeth maen nhw'n gweithio o'u mewn – ac i sicrhau bod mecanwaith gwell i rannu dirnadaeth.

Yn Nhachwedd 2020 fe wnaethom gynnal digwyddiad bwrdd crwn gyda phrif randdeiliaid i drafod sut rydym yn gallu gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn.
**Cafodd tri phrif faes o gydweithio posibl eu nodi:**

- Archwilio sut rydym yn gallu defnyddio'n data casgliadol i adnabod pryderon, darparu gwybodaeth y gellir gweithredu arni a chynorthwyo'r system ddiogelwch ehangach.
- Datblygu gwaith ar ddisgwyliad ar y cyd gan reoleiddwyr proffesiynol a system ar arweinyddiaeth.
- Ystyried pa gymorth fyddai ar gael wedyn i ddarparwr gwasanaeth fel rhan o gyfrannu at ymyriad cydweithredol pan fydd risgiau'n cael eu hadnabod.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r GMC a CQC, a phartneriaid eraill yn Lloegr i symud y cynllun hwn ymlaen a gobeithiwn allu cymhwyso'r dysgu ledled y DU.



## Astudiaeth achos 1

**Sut mae ELS yn cynorthwyo cyflogwyr gyda'r broses reoleiddio**

Cysylltwyd â Chynghorwr Rheoleiddio ELS gan dîm addasrwydd i ymarfer yr NMC yn dilyn patrwm o atgyfeiriadau gan ymddiriedolaeth ambiwlans oedd yn brin o wybodaeth neu nad oedd yn ateb ein trothwyau difrifoldeb ar gyfer atgyfeirio pryderon atom ni.

Cysylltodd y Cynghorwr Rheoleiddio â'r tîm rheoli yn yr ymddiriedolaeth ambiwlans oedd yn awyddus i weithio gydag ELS i gynorthwyo adolygiad o brosesau mewnol ac i ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo bod yn fwy agored a thryloyw o fewn y gweithle.

Y canlyniad yw y bu cynnydd mewn ceisiadau am gyngor yn gynnar pan mae pryderon yn cael eu hadnabod. Arweiniodd hyn at hyder cynyddol i reoli pryderon yn lleol lle'n briodol, a dealltwriaeth well o'r wybodaeth sydd ei hangen os oes angen am atgyfeiriad i'n galluogi ni i gyrraedd penderfyniad cyn gynted â phosibl.

## Astudiaeth achos 2

**Sut mae adnodd y cyflogwr yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo darparwr annibynnol bach**

Cysylltodd nyrs uwch â ni am gyngor oherwydd bod dulliau gwahanol i reoli pryderon yn ei sefydliad rhwng y tîm nyrsio a'r tîm adnoddau dynol. Darparodd Cynghorwr Rheoleiddio ELS sesiwn ddysgu ac ymgysylltu ar gyfer cydweithwyr nyrsio uwch ac Adnoddau Dynol, yn seiliedig ar ein hadnodd ar gyfer cyflogwyr.

O ganlyniad, adroddodd y tîm nyrsio uwch eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n well ac yn fwy hyderus yn eu hymagwedd a'u penderfyniadau. Roedd cydweithwyr Adnoddau Dynol yn gadarnhaol am yr offerynnau ar gael i ffurfio'u trafodaethau yn y dyfodol.

Arolwg perfformiad

## Astudiaeth achos 3

**Cymorth i gartrefi nyrsio gofal cymdeithasol i oedolion**

Fe wnaeth ein Cynghorwr Rheoleiddio adnabod bod nifer o gartrefi gofal yn ei ranbarth wedi cael eu graddio'n 'annigonol' neu'n 'gofyn am welliant' gan y Comisiwn Ansawdd Gofal. Fe wnaethom gysylltu â'r darparwyr perthnasol trwy'r Grŵp Comisiynu Clinigol. Fe wnaethom gyfarfod â hwy i ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ar ein prosesau, gan gynnwys cymorth a chyngor am reoli pryderon yn lleol lle'n briodol.

Mae'r darparwyr wedi sefydlu cysylltiad â'r NMC yn awr ar gyfer pan fydd angen cyngor ychwanegol arnynt ac y byddant yn fwy hyderus ynglŷn ag ymgysylltu â ni a'n prosesau.

Thema strategol 4

**Grymuso ac ymgysylltu'n weithredol:** Ymgysylltu â a grymuso'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid. NMC yr ymddiriedir ynddo ac sy'n ymatebol, gan adeiladu dealltwriaeth yn weithredol o beth rydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud i bobl.

## Ymrwymiad 7: Ffurfio a chytuno ar ymagwedd ledled y sefydliad sy'n sicrhau bod pobl wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud, ac egwyddorion ar gyfer cydgynhyrchu'n gwasanaethau a safonau addysgol

Rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr ymrwymiad hwn yn 2020–2021, er gwaethaf rhai oediadau oherwydd blaenoriaethu gwaith brys Covid-19.

Fe wnaethom ddiffinio'n gweledigaeth a datblygu cyfres o ymrwymiadau syml i ddarparu'r weledigaeth honno, fydd yn ein galluogi i adeiladu ymgysylltiad effeithiol ac ystyrlon â'r cyhoedd i'n holl waith.



Yn y flwyddyn hon roedd hyn yn cynnwys adeiladu ymgysylltu cyhoeddus i mewn i brosiectau blaenoriaeth megis datblygu safonau newydd ar gyfer nyrsio yn y gymuned ac iechyd cyhoeddus. Rydym yn parhau i ddatblygu'n cyfathrebiadau â'r cyhoedd megis trwy lythyr newyddion pwrpasol a gwelliannau i'n cyfathrebiadau ar-lein. Rydym yn adeiladu'n cymorth i'r rheini sy'n gweithio gyda ni, i sicrhau ein bod yn clywed gan grŵp o bobl a chymunedau mor amrywiol â phosibl.

**Gweledigaeth:** NMC sy'n ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd ac yn eu grymuso. Bydd ymddiriedaeth ynom a byddwn yn ymatebol, gan adeiladu dealltwriaeth o'r hyn rydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud, gan ddatblygu perthnasoedd cryf a phwrpasol, ac yn galluogi pobl i ffurfio'r hyn rydym yn ei wneud.

Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi adolygu sut rydym yn gallu sefydlu cydgynhyrchu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i mewn i'n gwaith yn fwy cyson. Arweiniodd hyn at ddatblygu egwyddorion cydgynhyrchu y byddwn yn eu sefydlu ar draws ein datblygiad polisi a safonau. Fel rhan o hyn rydym yn sefydlu grŵp strategol cyhoeddus newydd i helpu cyfarwyddo'n gwaith yn y maes hwn.

## Ymrwymiad 8: Datblygu ymagwedd fwy systematig ac wedi'i thargedu at ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws pedair gwlad y DU

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu ymagwedd gyson at ein hymgysylltu â rhanddeiliaid yn y cenhedloedd datganoledig.

Pan gyflwynodd y pandemig rwystrau i ymgysylltu, fe wnaethom symud o wyneb i wyneb at ymgysylltu digidol. Fe wnaethom adeiladu ar newidiadau a weithredwyd yn 2019-2020, gan gynnwys sefydlu rolau cyfarwyddwyr arweiniol i bob gwlad, a gwnaethom gynnydd arwyddocaol mewn adeiladu perthnasoedd â phartneriaid rheoleiddiol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Fe wnaethom weithio'n gydweithredol â phartneriaid yn y cenhedloedd datganoledig yn ein hymgysylltu seneddol, gan gynnwys ar nifer o faterion polisi canolbwyntiedig.

Mae'r ymgysylltu agos hwn wedi cryfhau perthnasoedd, gwella rhannu gwybodaeth a chynorthwyo pob cam o wneud penderfyniadau gan yr NMC mewn ymateb i'r pandemig.



Arolwg perfformiad

Thema strategol 5

**Dirnadaeth a dylanwad helaethach:** Dysgu o ddata ac ymchwil i wella'r hyn rydym yn ei wneud a gweithio ar y cyd i rannu dirnadaethau yn gyfrifol i helpu gwella'r system iechyd a gofal ehangach

### **Ymrwymiad 9:** Gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ac eraill ar raglen sylweddol o ddiwygio i ffurfio gwelliannau i'n fframwaith deddfwriaethol ledled y DU

Yn 2020–2021, fe wnaethom ymgysylltu â'r DHSC, rheoleiddwyr, a phartneriaid eraill i ffurfio datblygiad cynigion y DHSC at ddiwygio rheolaethol. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill i ddatblygu rheolau model cyson. Rydym wedi sefydlu grŵp cynghori arbenigol, sy'n cynnwys grwpiau cleifion a phartneriaid proffesiynol, i ffurfio ein hymagwedd. Mae amserlen ac ymagwedd y DHSC at ddiwygio wedi esblygu yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'n cynlluniau yn rhagdybio mai Ebrill 2023 yw'r cynharaf y byddai unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.

### **Ymrwymiad 10:** Dechrau gwella'r ffordd rydym yn defnyddio a chyhoeddi data a dirnadaeth i ychwanegu gwerth i'n rhanddeiliaid a helpu llunio'r sector

## Dirnadaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn 2020–2021 fe wnaethom barhau i gasglu a rhannu ein data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) i ddarparu dirnadaeth am y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Rydym yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o bobl ar ein cofrestr, a phawb o'r rheini rydym yn gweithio gyda hwy, ac yn dal yn ymrwymedig i ddeall a gwella'u profiadau gyda ni.



Yn Hydref 2020 fe wnaethom rannu'n blaenoriaethau EDI wedi'u diweddaru, sy'n cynnwys gwella'n sylfaen dystiolaeth EDI ac estyn ein dirnadaeth. Mae hyn yn rhan o'n fframwaith EDI, adnewyddiedig sy'n ffurfio'n cynllun darparu i gynorthwyo'n hamcanion strategol.

Mae ein casglu data EDI wedi'n galluogi i ymgymryd ag ymchwil i brofiadau pobl gwahanol a chanlyniadau pan fyddant yn rhyngweithio â'n prosesau rheoleiddiol. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn ein tablau data EDI ar ein gwefan. Yn Hydref 2020 fe wnaethom rannu'r adroddiad cyntaf yn ein prosiect ymchwil *Ambitious for change* Edrychodd hyn ar effaith ein prosesau rheoleiddiol ar weithwyr proffesiynol â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Fe wnaethom ganfod bod pobl weithiau'n gallu derbyn canlyniadau gwahanol o'n prosesau yn seiliedig ar bwy ydynt. Mae hyn yn cynnwys ein haddysg, cofrestru tramor, ailddilysu, a phrosesau addasrwydd i ymarfer.

**Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym wedi adnabod meysydd allweddol ar gyfer gwaith dilynol fel rhan o gam dau yn dechrau ym Mai 2021, gan gynnwys:**

- ymchwil ansoddol i ddeall y rhesymau am wahaniaethau yn ein cyfraddau ailddilysu ac atgyfeiriadau at addasrwydd i ymarfer
- adolygiad annibynnol o brosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer i weld sut rydym yn gallu gwella cysondeb a thegwch
- adnabod a gweithio gyda chyflogwyr lle gall grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol fod wedi'u gorgynrychioli yn eu hatgyfeiriadau
- gwella'r hyn rydym yn ei wybod am yr amrywiaeth o bobl ar ein cofrestr.



Arolwg perfformiad

Rydym hefyd wedi bod yn defnyddio'n data a gwybodaeth i rannu dirnadaeth am effaith Covid-19 ar grwpiau gwahanol. Yn Ebrill 2020 rydym wedi cynhyrchu asesiad effaith cydraddoldeb (EQIA) ar draws y sefydliad o brif benderfyniadau'n berthynol i'r pandemig sy'n cael effaith ar nyrsys a bydwragedd proffesiynol, gan gynnwys cofrestru dros dro, ein safonau argyfwng, newidiadau i addasrwydd i ymarfer, ailddilysu a'n cyfathrebu a'n hymgysylltu. Mae'r EQIA yn aros o dan adolygiad parhaus ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Rydym wedi ei ddefnyddio i rannu ein data a dirnadaeth â phartneriaid ar draws y sector, yn ogystal â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer eu casglu tystiolaeth.

Yn Rhagfyr 2020 fe wnaethom ysgrifennu at hanner miliwn o nyrsys a bydwragedd i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth genedlaethol UK REACH, sy'n cael ei ymgymryd gan bartneriaeth o ymchwilwyr a chlinigwyr blaenllaw â sefydliadau cenedlaethol fel yr NMC, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Colegau Brenhinol a chymdeithasau gweithwyr gofal iechyd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r astudiaeth yn ymchwilio i os, sut a phryd mae ethnigrwydd yn effeithio ar ganlyniadau clinigol Covid-19 i bobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn parhau i rannu'n data a defnyddio'n swydd i geisio cymorth gwell i nyrsys a bydwragedd proffesiynol Du, a lleiafrifol ethnig.

Mae'n gwaith EDI wedi canolbwyntio ar sawl prif faes yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae un ffocws wedi bod ar anabledd – gydag adborth diweddar gan y Fforwm Anabledd Busnes ar ein harchwiliad Safon Anabledd yn dangos cynnydd trawiadol (65 y cant) o'n sgôr blaenorol (48 y cant) yn 2019. Fe wnaethom gamau ymlaen mewn meysydd fel ein hymagwedd at addasiadau a chyfathrebu, ac rydym yn canolbwyntio ar feysydd sy'n gofyn am ragor o welliant.

Rydym hefyd wedi adnabod llinynnau ar gyfer ein gwaith sy'n sefydlu'r egwyddorion o ymgyrch Gofyn Gwrando Gwneud GIG Lloegr i gwsmeriaid ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, gwneud cynnydd ar gasglu adborth yn well a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac ar gael mewn amryw o fformatau. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i amlygu profiadau gweithwyr proffesiynol anabl, yng ngoleuni'r niferoedd isel yn dweud wrthym am eu hanabledd (dim ond pedwar y cant o weithwyr proffesiynol, o gymharu â 18 y cant o'r boblgaeth gyffredinol sy'n gweithio). Er enghraifft, fe wnaethom gyfweld myfyriwr o nyrs ar niwroamrywiaeth ar gyfer ein llythyrau newyddion i amlygu amrywiaeth ymhlith ein proffesiynau.





Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn datblygu ein polisi ar y ffordd rydym yn dal a chadw gwybodaeth am rywedd cwsmeriaid ar ein systemau. Rydym wedi bod yn datblygu'n polisi mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol traws ac anneuaidd, sy'n fwy tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol gan unrhyw ddatgeliadau amhriodol ynglŷn â rhywedd. Rydym wedi ymrwymo i ddileu'r casglu arferol o ddynodwyr rhywedd mewn unrhyw faes lle nad yw'n angenrheidiol, tra'n cadw ein monitro data amrywiaeth dienw, ac yn parhau i ddiweddaru'n systemau cyn lansio'r polisi.

Rydym ar ben ein digon fod ein prif Weithredwr a Chofrestrydd a Chyfarwyddwr gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol wedi ennill Gwobr Pencampwr Hŷn Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020 yn y Gwobrau Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant blynyddol (enei) am eu gwaith ar herio gwahaniaethu a dathlu amrywiaeth. Rydym yn uchelgeisiol am yr hyn y gallwn barhau i'w gyflawni fel rheoleiddiwr gofal iechyd blaenllaw dros y flwyddyn nesaf.

## Datblygu rhaglen ddirnadaeth

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddechrau cwmpasu rhaglen Ddirnadaeth newydd fydd yn cynorthwyo ein huchelgeisiau i ddefnyddio'n dirnadaeth ac i ddylanwadu'n well. O ganlyniad i'r pandemig, fe wnaethom ailamseru'n cynlluniau. Rydym yn bwriadu yn awr i ddod â'r rhaglen a sefydlwyd i ben ac i ymgymryd ag adolygiad gallu yn 2021-2022 ac rydym yn gweithio tuag at gyhoeddi adroddiad blynyddol dechreuol ar gyflwr ein proffesiynau yn 2022–2023.

**Sefydliad addas ar gyfer y dyfodol**: Mae gan ein nodau strategol oblygiadau arwyddocaol i sut rydym yn gweithredu fel sefydliad. Byddwn yn cydosod ein galluoedd diwylliannol ac isadeiledd i'n nodau strategol newydd.

**Ymrwymiad 11:** Sicrhau bod gennym y galluoedd, prosesau, ac adnoddau cywir i gyflawni'n huchelgeisiau ar gyfer y cyfnod strategol o'n blaenau

## Cynllun sefydliadol

Cafodd cam cyntaf ein cynllun sefydliadol ei gwblhau yn Ebrill 2020, gyda rhoi strwythur chwe chyfarwyddiaeth newydd ar waith i gynorthwyo darparu'n strategaeth.

Cafodd y cynllun newydd ei fwriadu i hwyluso ffyrdd newydd o weithio i ddarparu'n strategaeth; i leihau gweithio mewn silo ac annog ymagwedd 'un NMC'; i symud swyddogaethau corfforaethol allan o gyfarwyddiaethau gweithredol; ac i'n cynorthwyo i fod yn fwy effeithiol yn ein gwaith, yn fewnol ac yn allanol.

Mae Covid-19 wedi effeithio ar amserlenni ar gyfer y cam nesaf o'r gwaith hwn wedi cael ei effeithio gan Covid-19. Fodd bynnag, rydym wedi gweithredu canlyniadau adolygiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i dargedu ac wedi cytuno ar gamau nesaf yn dilyn adolygiadau mewn chwech maes blaenoriaeth arall.

## Gwerthoedd ac ymddygiadau newydd

Yn dilyn lansiad ein gwerthoedd ac ymddygiadau newydd yn Ebrill 2020, fe wnaethom gychwyn rhaglen o weithgaredd i sicrhau bod y rhain wedi'u sefydlu a'u cymhwyso'n gyson ar draws y sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno e-ddysgu i bob cydweithiwr o Awst 2020 a chyfes o ddigwyddiadau rhithiol i reolwyr. Cychwynnodd ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth wedi'i hailgynllunio yn Nhachwedd 2020 gan ganolbwyntio ar sefydlu'r gwerthoedd ac ymddygiadau ar draws pum modiwl rheoli perfformiad.

## Datblygu sefydliad a phobl

Yn 2020–2021 parhaodd ein trosiant cyffredinol o gyflogeion i ostwng, gan syrthio i 5.6 y cant ar 31 Mawrth 2021 (yn erbyn targed o 15 y cant) o gymharu â 13.5 y cant ar 31 Mawrth 2020. Roedd trosiant o ddechreuwyr newydd yn gadael o fewn chwe mis o ymuno â'r NMC yn 6.8 y cant ar 31 Mawrth 2021 (yn erbyn targed o 15 y cant) o gymharu â 12.7 y cant ar 31 Mawrth 2020. Roedd sicrwydd swydd ac ariannol yn ystod-19 yn brif yrrwr dros gadw yn ystod 2020–2021, ynghyd â'n gwerthoedd ac ymddygiadau, hyblygrwydd swydd, cymorth i lesiant a'n pecyn buddion a gwobr. Ynghyd â sefydliadau eraill, rydym yn disgwyl gweld trosiant yn cynyddu yn 2021–2022 wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio.

Mae ein habsenoldeb salwch hefyd wedi gostwng yn 2020-2021, gan syrthio o 2.7 y cant yn 2019-2020 i 1.9 y cant yn 2020-2021. Helpodd cadw pellter cymdeithasol a gweithio o gartref yrru lefelau absenoldeb I lawr ac rydym yn disgwyl absenoldeb i gynyddu wrth i gyfyngiadau lacio.

Yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2021 mae cyfrif pennau wedi tyfu o 17.7 y cant (164). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gweithwyr asiantaeth a chontractwyr. Mae tri phrif reswm am y twf, rolau ychwanegol i gynorthwyo'r ôl-groniad o achosion mewn Rheoleiddio Proffesiynol, cymorth i'r rhaglen MOTS a rolau newydd wedi'u cytuno fel rhan o'n strwythur sefydliad newydd i ddarparu'n strategaeth gorfforaethol.

Yn Chwefror 2021, mynychodd 844 o gydweithwyr *Together for better*, ein cynhadledd rithiol i gyflogeion. Rhoddodd y digwyddiad y cyfle i gydweithwyr ddod at ei gilydd i fyfyrio ar beth rydym wedi'i ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, ac i hyrwyddo cydraddoldeb, dathlu amrywiaeth a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sgwrs ag un o'r cyhoedd a siaradodd am y nyrsys a ofalodd am ei gŵr mewn Uned Therapi Ddwys (ITU) yn nhon gyntaf y pandemig, a thrafodaeth banel â myfyrwyr a nyrsys a bydwragedd proffesiynol ar ein cofrestr am eu gwaith.

Arolwg perfformiad

## Ymrwymiad Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES)

Yn 2019 gwnaethom ymrwymiad i ymuno â Safon Cydraddoldeb Hil Gweithlu'r GIG (WRES) ac yn 2020, gwnaethom gyflwyno data i NMC yn unol â'n haddewid. Fe wnaethom ymrwymo i wneud hynny i'n galluogi i feincnodi ein perfformiad yn fwy effeithiol ac i dargedu meysydd i'w gwella.

Er ein bod yn falch i rannu o'r 89 y cant o gydweithwyr a ddatgelodd eu hethnigrwydd i ni llynedd, bod 39 y cant wedi datgan eu bod o gefndiroedd Du,  ac ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, mae data'r WRES yn dangos bod cynrychiolaeth wael o'r fath gydweithwyr mewn rolau uwch. Y canfyddiad mwyaf trawiadol yw o'r 37.9 y cant o gydweithwyr a gymerodd ran yn ein harolwg staff, mae 17.9 y cant o gydweithwyr o gefndiroedd Du, ac ethnig leiafrifol yn credu bod yr NMC yn darparu cyfleoedd cyfartal i ddatbygu gyrfa neu ddyrchafiad o gymharu â 98.4 y cant o staff gwyn.

Mae'r dangynrychiolaeth o gydweithwyr Du, ac ethnig leiafrifol mewn rolau uwch yn cael ei arddangos ymhellach gan fwlch tâl ethnigrwydd yr NMC. Mae'n dangos ar gyfartaledd bod 23.7 y cant (2020: 28.7) o wahaniaeth rhwng tâl yr awr cydweithwyr o gefndiroedd Du, ac ethnig leiafrifol a chydweithwyr gwyn. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn adran Adroddiad Cydnabyddiaeth yr adroddiad hwn.

Mae'r materion sy'n cael eu codi gan ddata'r WRES o bryder mawr ac rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu, yn gyflym, gweithredoedd sy'n ystyrlon yn ogystal â chynaliadwy. **Mae'r prif weithredoedd a chanlyniadau rydym wedi rhoi ar waith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi eu hamlinellu isod.**

- Fe wnaethom lansio cynllun mentora cynhwysol, o'r enw Rising Together, wedi'i anelu at fynd i'r afael â'r diffyg cynnydd i gydweithwyr Du,  ac ethnig leiafrifol i rolau uwch, cadw talent, adeiladu'n hymagwedd arweinyddiaeth gynhwysol, a mynd i'r afael â thuedd anymwybodol.
- Fe wnaethom gwblhau adolygiad o'n harweinyddiaeth fewnol a'n darpariaeth o adnoddau ar gyfer EDI ac rydym wedi ffurfio tîm â gwell adnoddau. Bydd y tîm ar waith yn llawn erbyn diwedd Ebill 2021 ac yn cael ei arwain gan rôl pennaeth EDI newydd.





- Rydym wedi penodi ymgynghorydd cydraddoldeb hil i weithio ochr yn ochr â'n huwch arwewinyddion i helpu cynyddu eu gwybodaeth diwylliannol er mwyn iddynt allu arwain o'r brig, dangos esiampl a hyrwyddo cydraddoldeb hil a helpu i gynllunio ymyriadau ychwanegol.

Mae'r gweithredoedd hyn yn gwneud gwahaniaeth eisoes, er ein bod yn cydnabod, y bydd angen rhagor o amser arnynt i sefydlu ymhellach ac i ennill dealltwriaeth lawnach o'r effaith maen nhw wedi ei chael.

Rydym yn falch i rannu bod dangosyddion cynnar yn dangos bod chwarter o'r rhai gafodd eu mentora sydd wedi cymryd rhan yn Rising Together wedi symud ymlaen yn barod i rolau uwch.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud i sicrhau y byddwn yn cael canlyniadau cynaliadwy i'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio a'n gweithlu mewnol cyfan.

## Iaith Gymraeg

Yn Hydref 2020, fe wnaethom rannu'n Hadroddiad Monitro Blynyddol ar Gynllun yr Iaith Gymraeg â Chomisiynydd y Gymraeg, ac ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau iaith Gymraeg arfaethedig i reoleiddwyr gofal iechyd. Roedd ein hymateb yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol cynhwysfawr. Fe wnaethom ymgysylltu'n agos â rheoleiddwyr eraill ac, mewn cydweithrediad â hwy, fe wnaethom groesawu cyfeiriad y safonau newydd. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrth Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion ac amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig.

## Rhyddid gwybodaeth a cheisiadau gwybodaeth eraill

Rydym wedi ymrwymo i fod mor agored a thryloyw â phosibl tra'n glynu at ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data. Mae hyn yn cynnwys hawl pobl i gyrchu eu gwybodaeth bersonol, a'r hawl i herio'r ffordd rydym yn defnyddio a phrosesu eu data personol.

Rydym hefyd yn ymateb i geisiadau datgelu trydydd parti gan sefydliadau fel yr heddlu a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Disclosure Scotland. Rydym yn gallu rhannu gwybodaeth bersonol â hwy os oes sail cyfreithiol dros ddatgelu.

| Rhyddid gwybodaeth |
|---|
| Derbyniwyd 353 (2019–2020: 344) Ymatebwyd i 88 y cant (2019–20: 86 y cant) o fewn 20 diwrnod gwaith statudol |

| GDPR |
|---|
| Derbyniwyd 205 (2019–2020: 166) Ymatebwyd i 88 y cant (2019–2020: 81 y cant) o fewn un mis calendr statudol |

| Trydydd parti |
|---|
| Derbyniwyd 867 (2019–20: 829) Ymatebwyd i 94 y cant (2019–2020: 94 y cant) o fewn un mis calendr statudol |

| Cyfanswm nifer o geisiadau am wybodaeth yr ymatebwyd iddynt yn brydlon eleni |
|---|
| 1,301 allan o 1,425 (2019–2020: 1,211 allan o 1,339) 91 y cant (2019–2020: 90 y cant) |

Os yw rhywun yn anhapus â sut mae ei gais am wybodaeth wedi cael ei drafod, mae ganddo'r hawl i ofyn am adolygiad mewnol. Fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 34 o geisiadau am adolygiadau mewnol yn ystod 2020–2021 (2019–2020: 16), sy'n isel o ran cyfran, dim ond 2.4 y cant o achosion.





O'r bobl oedd yn dal yn anfodlon yn dilyn canlyniad eu hadolygiad mewnol ac a'n hatgyfeiriodd ni at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), roedd tri achos yn unig y dewisodd yr ICO i ymchwilio iddynt y tu hwnt i ymholiadau dechreuol. Ym mhob un o'r tri achos fe wnaethom gyflawni datrysiad heb weithredu'n ffurfiol.

## Dysgu o gwynion am ein gwaith

Mae cwynion yn bwysig i ni. Mae pob pryder sy'n cael ei godi gan rywun sy'n defnyddio'n gwasanaethau yn darparu cyfle pwysig i ni wella.

Yn 2020–2021, fe wnaethom dderbyn 1,227 o gwynion ffurfiol (2019–2020: 888). Fe wnaethom ymateb i 1,134 (92 y cant) o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith (2019–2020: 94 y cant o fewn 20 diwrnod gwaith).

O'r cyfanswm o 1,227 o gwynion, roedd 236 ynglŷn â'n hymtateb i'r pandemig Covid-19. Mae hyn wedi cyfrannu at y cynnydd cyffredinol mewn cwynion yn ystod y flwyddyn ariannol 2020–2021.

Rydym yn anelu at drafod unrhyw gwynion am y gwasanaeth rydym wedi'i ddarparu mewn modd teg ac amserol, gan drin y rhai sy'n codi cwynion â pharch a gwrando ar eu pryderon.

Yn dilyn ein hymateb, roedd 29 o bobl yn dal yn anhapus (2019–2020: 19). Fe wnaethom felly adolygu ein hymdriniaeth o'u cwyn ac ymateb i'r rhain mewn cyfartaledd o 20 diwrnod gwaith (2019–2020: 20 diwrnod gwaith).

Rydym wedi adnabod 414 o bwyntiau dysgu yn 2020–2021 (2019–2020: 203) ac wedi defnyddio'r dysgu hwn i wella'n gwasanaethau. Mae dysgu allweddol o gwynion yn cael ei rannu i sicrhau bod gweithredu yn digwydd ar adborth. **Er enghraifft:**

> **Amseroldeb** Mae atgyfeirwyr addasrwydd i ymarfer wedi cynghori nad ydynt yn cael eu diweddaru o hyd ag oediadau yn dilyn ailddyrannu achosion. Mae cydweithwyr Rheoleiddio Proffesiynol yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion darparu adnoddau.

**Materion technegol** Mae rhai ymgeiswyr wedi profi oediadau wrth ymuno â'n cofrestr o ganlyniad i faterion technegol gyda lanlwytho dogfennau neu symud ymlaen â'r cais. Rydym wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

**Addasiadau** Mae rhai cwsmeriaid wedi cynghori nad ydym wedi gweithredu ar geisiadau am addasiadau rhesymol felly rydym wedi atgoffa cydweithwyr i ddiweddaru cofnodion gydag unrhyw addasiadau.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i wella'r ffordd rydym yn trafod cwynion; gan sicrhau ein bod yn deall yn llawn beth sydd wedi achosi'r gŵyn a datrys materion cyn gynted ag y gallwn.

## Technoleg

A'n swyddfeydd wedi cau am y rhan fwyaf o 2020–2021, mae'r rhan fwyaf o'n gwaith wedi cael ei wneud o gartref. Fe wnaethom symud gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'n holl gyfarfodydd mewnol ar gynadledda fideo, yn ogystal â symud ein Canolfan Gyswllt i weithio o bell. Fe wnaethom gynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhithiol, gan gynnwys digwyddiadau cyn ymgynghori ar gyfer safonau ôl-gofrestru a gafodd eu mynychu gan fwy na 2,000 o bobl.

Mae gweithio o gartref wedi cyflymu'n symudiad i weithio dibapur, sydd wedi cael budd amgylcheddol ac ariannol – rydym wedi defnyddio tua 88,000 kilo yn llai o bapur A4 paper ac wedi arbed tua £75,000 – a budd diogelwch data hefyd. Mae'r risg o golledion data yn llai gyda phrosesau dibapur, sydd wedi cyfrannu at ein digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn syrthio o 98 yn 2019–2020 i 57 yn 2020–2021.

Fe wnaethom lansio'n cofrestr argyfwng Covid-19 ar 27 Mawrth 2020, wedi cynllunio'r broses ac adeiladu'r gofrestr ar ein platfform Microsoft Dynamics 365 newydd mewn tair wythnos yn unig. Dros weddill y flwyddyn, fe wnaethom ddefnyddio'n harbenigedd technegol i ddatblygu, monitro ac adrodd ar y gofrestr dros dro.





## Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg

Mae ein rhaglen i foderneiddio'n systemau TG yn parhau. Mae'r rhan fwyaf o'n prosesau cofrestru oedd ar ein hen system "WISER" yn awr wedi cael eu symud ar Dynamics 365. Rydym wedi gweld gwelliannau i'r cwsmer, gyda gweithwyr proffesiynol yn awr yn gallu mynd yn ôl i mewn i'r gofrestr mewn 60 munud. Rydym hefyd wedi gwneud ein prosesau talu yn gyflymach a mwy hyblyg ac yn fwy hwylus i'r defnyddiwr. Er bod llithro wedi bod yn yr amserlen a gytunwyd gan y Cyngor yn y cynllun corfforaethol ar gyfer 2020–2021, bydd y prosesau cofrestru sy'n weddill sydd ar WISER yn cael eu symud ar Microsoft Dynamics 365 yn ystod 2021–2022.

**Fe wnaethom gytuno ar weledigaeth newydd ar gyfer y rhaglen:** "Cam mawr ymlaen yn ein technoleg ddigidol i'w gwneud hi'n haws i bobl gysylltu â ni ac i gydweithwyr NMC wneud eu swyddi. Bydd hyn yn creu'r sylfeini i drawsffurfio profiad y rheini sy'n rhyngweithio â ni ac yn ein helpu i ddarparu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a llesiant pawb."

## Llety swyddfa

Er i'n swyddfeydd fod ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, fe wnaethom baratoi amgylchedd Covid-ddiogel i ateb canllawiau Llywodraeth, gan alluogi ailddechrau gwrandawiadau corfforol ledled y pedair gwlad o Fedi 2020, a pharatoi ar gyfer ailagor cyffredinol ein swyddfeydd yn unol â map ffordd Llywodraeth y DU allan o'r cyfnod clo yn Lloegr a'r mapiau ffordd cyfatebol yng ngweinyddiaethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Newidiodd Covid-19 y ffordd rydym yn gweithio yn ystod 2020–2021 ac rydym yn disgwyl effaith barhaol. Fe wnaethom ddiweddaru ein cynllun llety i gynnwys disgwyliad o weithio cynyddol o gartref dros y tymor hir, gydag angen llai o ofod, a mwy o bwyslais ar y swyddfa fel lle ar gyfer cydweithio ac ymgysylltu.

Mae gennym ddau brosiect llety ar y gweill trwy'r hyn y byddwn yn datblygu ein hymagwedd ac yn gwireddu'r buddion o'r ffyrdd newydd o weithio: ein swyddfeydd ac ystafelloedd gwrandawiadau newydd yng Nghaeredin, ac adnewyddu 23 Portland Place. Mae'r brydles ar ein swyddfeydd blaenorol yng Nghaeredin yn dod i ben yn Ebrill 2021. Rydym wedi sicrhau gofod newydd sy'n cael ei addasu yn awr ac mae disgwyl iddo agor ym Medi 2021. Mae'n hen bryd i adnewyddu 23 Portland Place ac mae'r rhan fwyaf o'r peirianwaith a gawasanaethau mecanyddol a thrydanol yn cyrraedd diwedd eu hoes economaidd ac ymarferol. Bydd y prosiect yn symud i'r cam dylunio a chynllunio yn y flwyddyn sydd i ddod, gyda disgwyl i adeiladu ddechrau yn 2023–2024, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'n strategaeth ar gyfer 2020–2025 yn cynnwys ymrwymiad at gyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol, a chynaliadwyedd ein hystâd. Mae sut yr ydym yn gweithredu o fewn yr amgylchedd ehangach yn rhan hanfodol o hynny. Rydym yn lleihau ein heffaith amgylcheddol ac yn cefnogi cynaliadwyedd mewn nifer o ffyrdd ymarferol. Er enghraifft, mae unrhyw adeilad newydd yn cael ei asesu ar gyfer cynaliadwyedd, ac mae gan ein swyddfeydd newydd yng Nghaeredin raddiad BREAAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) o Dda Iawn, cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus ardderchog a 80 o raciau beiciau. Rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ein polisïau caffael a buddsoddi, ac fel y nodir yn ein hadolygiad ariannol, rydym wedi diwygio'n polisi buddosddi i gyfyngu buddsoddiad mewn echdynnu tanwydd ffosil.

Mae Covid-19 wedi cael effaith gadarnaol ar gynaliadwyedd ein gweithrediadau trwy gyflymu ein symudiad at weithio dibapur, fel y disgrifiwyd yn gynharach, ac wrth ein cymell i gyflwyno gwrandawiadau rhithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'n teithio yn gysylltiedig â gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer, a budd amgylcheddol gwrandawiadau rhithiol yn hytrach na gwrandawiadau yn y cnawd yw fod teithio'n cael ei osgoi. Mae'r tabl isod yn dangos ein hallyriadau $CO_2$ o deithio a llety gwesty dros y tair blynedd diwethaf, sy'n dangos y gostyngiadau mewn allyriadau $CO_2$ y mae gwrandawiadau rhithiol wedi eu galluogi.





Fodd bynnag, rydym wedi ailddechrau rhai gwrandawiadau yn y cnawd, a thra'n bod yn disgwyl gweld rhywfaint o ostyngiad parhaol nid ydym yn disgwyl i allyriadau teithio a $CO_2$ aros ar y lefel isel iawn a welwyd yn 2020–2021.

| $CO_2$* | 2018–2019 | 2019–2020 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| **Hediadau** | 424 | 415 | 8 |
| **Rheilffordd** | 128 | 128 | 2 |
| **Gwestyau** | 331 | 275 | 8 |
| **Cyfanswm** | 883 | 818 | 18 |

* Mae unedau $CO_2$ yn cael eu mynegi mewn cilogramau (Kg) o $CO_2e$ ($CO_2e$ = Cyfatebol i Garbon Deuocsid. Mae $CO_2e$ yn uned safonedig o fesur sy'n caniatáu i allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill gael eu mynegi yn nhermau $CO_2$ yn seiliedig ar eu potensial cynhesu byd-eang cymharol).

# Cynllun strategol 2021–2022

## Arolwg o'n hymrwymiadau ar gyfer 2021–2022

**Mae'n hymrwymiadau corfforaethol yn ein cynorthwyo i ddarparu ein pwrpas craidd**

Ar gyfer 2021  2022 byddwn yn gwneud cynnydd ar ein strategaeth 2020  2025, ac yn cryfhau ein rôl graidd i reoleiddio, cynorthwyo, a dylanwadu. Fel y disgrifiwyd yn ein hadolygiad perfformiad, tarfwyd yn arwyddocaol ar ein cynlluniau ar gyfer 2020  2021 gan Covid 19, felly bydd ein hymrwymiadau ar gyfer 2021  2022 yn cynnwys gwaith a gafodd ei gynllunio'n wreiddiol ar gyfer llynedd, ac roedd rhaid iddo gael ei ailflaenoriaethu.



### Arloesi a Gwella

**Ymrwymiad 1:** Lleihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau cynaliadwy i'r ffordd rydym yn rheoleiddio

Byddwn yn ymrwymo adnoddau ychwanegol i'n rhaglen adfer addasrwydd i ymarfer newydd er mwyn i ni leihau llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn arwyddocaol a darparu gwelliannau ar draws ein prosesau i'r dyfodol.

**Ymrwymiad 2:** Darparu ein prawf cymhwyster newydd ar gyfer ymgeiswyr tramor

Byddwn yn lansio ein prawf cymhwyster newydd i ymgeiswyr tramor, sy'n adlewyrchu ein safonau newydd ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth.

### Cymorth rhagweithiol i weithwyr proffesiynol

**Ymrwymiad 3:** Darparu set newydd o safonau ôl-gofrestru uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ymarfer nyrsio yn y gymuned

Llynedd fe wnaethom siarad â rhanddeiliaid ynglŷn a beth sy'n bwysig ar gyfer y safonau hyfedredd ôl-goftrestru newydd. Eleni byddwn yn symud ymlaen ag ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y safonau drafft newydd yn ystod 2021 gyda nod o gyhoeddi'r safonau newydd yn 2022.

**Ymrwymiad 4:** Defnyddio tystiolaeth ac ymchwil, penderfynu a ddylem gynnig newidiadau i'n safonau rhaglen ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE yn 2020, nid yw Cyfarwyddeb yr UE 'ar adnabod cymwysterau proffesiynol ein gilydd' yn gymwys mwyach, felly byddwn yn adolygu tystiolaeth i benderfynu a ddylem gynnig newidiadau i'r isafswm safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol, a bydwragedd.

## Mwy gweladwy a mwy gwybodus

Byddwn yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ein partneriaid a'r cyhoedd, gan ddefnyddio cymysgedd o sianelau dwy ffordd. Yn bwysig, byddwn yn adolygu a datblygu ein presenoldeb ar draws pedair cenedl y DU, gydag ymagwedd fwy systematig ac wedi'i thargedu at ymgysylltu a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn galluogi darparu'n strategaeth yn rhanbarthol ac yn ddatganoledig. Wedi'n harwain gan adolygiad 2020 o'r gwasanaeth cyswllt cyflogwr, byddwn hefyd yn datblygu ymagwedd newydd at ein gwasanaeth ymestyn yn barod i'w weithredu yn 2022–2023.

## Grymuso ac ymgysylltu

### Ymrwymiad 5: Adeiladu ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol

Rydym am gynorthwyo gweithwyr proffesiynol, myfyrwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddeall beth rydym yn ei wneud, beth nad ydym yn ei wneud, a lle rydym yn mynd, er mwyn i ni allu cydweithio'n well â hwy ar y pethau sydd o bwys iddynt.

## Dirnadaeth a dylanwad helaethach

### Ymrwymiad 6: Darparu rhaglen sylweddol o ddiwygio rheoleiddiol i ffurfio gwelliannau i'n fframwaith deddfwriaethol

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a rheoleiddwyr eraill i ffurfio gwelliannau i'n fframwaith deddfwriaethol. Byddwn yn datblygu'n polisi er mwyn i ni allu dylanwadu ar gynnwys y ddeddfwriaeth a bod yn barod i ymgynghori ar ein rheolau arfaethedig yn 2022 (amserlenni yn amodol ar amserlen ehangach DHSC).

### Ymrwymiad 7: Gwella ein data a dirnadaethau

Rydym am ddatblygu'n dysgu o ddata, dirnadaethau, ac ymchwil i wella beth rydym yn ei wneud yn awr ac yn y dyfodol. Eleni byddwn yn gosod y sylfeini i wella'n data a dirnadethau, a byddwn yn adeiladu perthnasoedd er mwyn i ni allu cydweithio i rannu'n dirnadaethau er budd y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.



## Sefydliad addas i'r dyfodol

### Ymrwymiad 8: Darparu'r cam nesaf o'n cynllun dyluniad sefydliadol a phobl i'n cynorthwyo i ddarparu ein strategaeth

Rydym am sicrhau ein bod yn drefnus mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol i ddarparu'n strategaeth gorfforaethol. Gyda phobl a'n profiad o gydweithwyr wrth galon y gwaith hwn, byddwn yn datblygu'n cynlluniau i fanteisio ar botensial unigol a pherfformiad sefydliadol, a gwella'n gallu sefydliadol, strwythur, a phrosesau. Byddwn yn dod yn gyflogwr mwy cynhwysol lle bydd ein holl gydweithwyr yn gallu datblygu, symud ymlaen a chyfrannu at eu potensial llawn.

### Ymrwymiad 9: Gwella'n TG i ddarparu isadeiledd TG diogel, sicr, a dibynadwy sy'n cynorthwyo'n ffyrdd newydd o weithio

Byddwn yn parhau â'n rhaglen i foderneiddio'r systemau sy'n cynorthwyo'n gwaith rheoleiddiol, fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid, ac yn ein caniatáu i storio a defnyddio'n data i ddarparu dirnadaethau. Byddwn hefyd yn parhau â'n buddsoddiad i wella'n gwasanaethau technegol a'n hisadeiliedd er mwyn bod gan ein cydweithwyr yr offerynnau sydd eu hangen arnynt i weithio'n effeithlon yn awr yn ogystal ag yn y dyfodol.

### Ymrwymiad 10: Darparu gofodau gwaith addas i'r pwrpas ar gyfer ein cydweithwyr yn 23 Portland Place ac yng Nghaeredin

Byddwn yn parhau i ddarparu ein cynlluniau llety, fydd yn darparu amgylcheddau gwaith modern sy'n cynorthwyo cydweithredu, ffyrdd newydd o weithio, a chymryd i ystyriaeth y gwersi rydym wedi'u dysgu o lwyddiant gweithio gartref yn ystod y pandemig coronafeirws.

# Adolygiad ariannol





## Incwm a gwariant

Fel yr amlinellwyd yn ein datganiad o weithgareddau ariannol, cyfanswm ein hincwm am 2020–2021 oedd £92.0 miliwn (2019–2020: £89.8 miliwn) a chyfanswm gwariant oedd £81.6 miliwn (2019–2020: £82.3 miliwn). Arweiniodd hyn at ragoriaeth incwm dros wariant o £10.4 miliwn (2019–2020: £7.5 miliwn) cyn yr ennill ar ailbrisio'n buddsoddiadau a'r ennil actiwraidd ar y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig. Ar ôl yr enillion hynny, cynyddodd cyfanswm ein cronfeydd dros y flwyddyn o £11.7 miliwn (2019–2020: £9.2 miliwn).

Roeddem wedi cynllunio ar gyfer diffyg bach yn 2020–2021. Mae'r gwarged net oherwydd gwariant is ar draws ein busnes craidd yn ogystal â rhai o'n prosiectau o gymharu â'r gyllideb. Mae effaith y pandemig Covid-19 wedi bod yn yrrwr allweddol gan leihau'r gweithgaredd addasrwydd i ymarfer yn hanner gyntaf y flwyddyn.

Roedd incwm o ffioedd gweithwyr cofrestredig yn £90.8 miliwn, yn unol â'n cyllideb ac yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol (2019-2020: £88.5 miliwn). Tyfodd y nifer o nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt ar ein cofrestr o 2.1 y cant, i 731,918. Nid yw cofrestr dros dro Covid-19 yn cyfrannu at ein hincwm oherwydd nad yw pobl ar y gofrestr dros dro yn talu ffi. Mae'n llinell "incwm arall" yn cynnwys £0.7 miliwn o'r DHSC, yn ad-dalu'r costau i ni o sefydlu a chynnal y gofrestr dros dro.

Roedd cyfanswm ein gwariant o £81.6 miliwn £10.4 miliwn (11 y cant) yn is na'r hyn roeddem wedi cyllidebu ar ei gyfer a gostyngodd o £0.7 miliwn o gymharu â 2019–2020.

Mae nodyn 5 yn amlinellu ein costau wedi'u dyrannu'n llawn ar gyfer pob gweithgaredd elusennol yn unol â'r gofyn gan SORP. Mae hyn yn gwahanu costau uniongyrchol pob gweithgaredd ochr yn ochr â'r costau cymorth cysylltiedig sydd wedi cael eu dyrannu gan ddefnyddio cyfrif pen neu ddefnydd gorbenion. Mae'r sylwebaeth sy'n dilyn yn seiliedig ar y golofn cost uniongyrchol, cyn dyrannu costau cymorth.

Roedd costau uniongyrchol addasrwydd i ymarfer yn £36.9 miliwn, i lawr o £37.9 miliwn yn 2019–2020, gostyngiad o ddau y cant. Fel y disgrifiwyd yn adran adolygiad perfformiad yr adroddiad hwn, yn ein hymateb i'r pandemig Covid-19, fe wnaethom oedi y rhan fwyaf o'n gwaith achos addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau corfforol ym Mawrth 2020.

Er i ni barhau i redeg gwrandawiadau yn rhithiol ac ailddechrau ymchwiliadau yng Ngorffennaf 2020 a gwrandawiadau corfforol ym Medi 2020, o ganlyniad i Covid-19, gwnaethom 208 o benderfyniadau panel yn 2020–2021, I lawr o 452 y flwyddyn gynt, a chynyddodd cyfanswm ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer i 6,357. Mae'r gostyngiad yn ein costau addasrwydd i ymarfer felly oherwydd gwariant wedi'i ohirio yn hytrach nac arbedion parhaol, ac rydym wedi cyllidebu ar gyfer diffygion yn 2021–2022 a 2022–2023 wrth i ni weithio i leihau llwyth yr achosion eto.

Roedd y costau uniongyrchol o gynnal y gofrestr yn £5.6 miliwn yn 2020–2021 (2019–2020: £6.4 miliwn). Mae'r cwymp mewn costau o gymharu a'r flwyddyn flaenorol oherwydd rhai gweithgareddau gohiriedig yn sgîl y pandemig Covid-19. Mae cwblhau'r Rhaglen Dramor, oedd wedi ychwanegu at y costau yn 2019-2020, yn ffactor sy'n cyfrannu hefyd.

Roedd costau cymorth (yn cynnwys Cyfleusterau, Cyllid, Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfatrebu) yn £31.5 miliwn (2019–2020: £30.3miliwn).

## Pensiynau

Rydym yn gwerithredu dau gynllun pensiwn i gyflogeion: cynllun â buddion diffiniedig, a gafodd ei gau i aelodau newydd yn Nhachwedd 2013, a chynllun cyfraniadau diffiniedig, mae'r holl gyflogeion newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig ynddo. Ym Mawrth 2021, cytunodd y Cyngor i gau'r cynllun â buddion diffiniedig i groniad buddion i'r dyfodol i ddod i rym o 1 Gorffennaf 2021.

Y diffyg net ar ein cynllun pensiwn â buddion diffiniedig a ddangosir yn ein mantolen yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun a gwerth rhwymedigaeth y pensiwn, sef gwerth buddion y pensiwn â gostyngiad ar hyn o bryd wedi'u hennill gan aelodau'r cynllun. Rydym yn gwneud taliadau i'r cynllun o dan gynllun adfer sy'n anelu at ddileu'r diffyg erbyn Mawrth 2026. Yn ystod y flwyddyn, cafodd cynllun adfer wedi'i ddiweddaru ei gytuno ag ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, rydym yn awr yn talu £1.8 miliwn y flwyddyn o'i fewn, a lwmp swm untro o £6.3 miliwn wedi'i dalu yn Hydref 2020. Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae asedau'r cynllun yn cael eu hailbrisio i werth marchnad, ac mae actiwariaid y cynllun yn diweddaru eu hamcangyfrif o werth y rhwymedigaeth. Mae amcangyfrif y ddyled yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau gan gynnwys cyfraddau marwolaeth disgwyliedig, chwyddiant ac enillion ar fondiau corfforaethol dros nifer o flynyddoedd i'r dyfodol.



Yn ystod y flwyddyn, cododd gwerth marchnad asedau'r cynllun â buddion diffiniedig o £20.1 miliwn yn fwy na'r ennill disgwyliedig ar asedau ar y raddfa dwf tymor hir ragdybiedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r adlam mewn marchnadoedd ecwiti o'r gostyngiadau llym yn Chwefror a Mawrth 2020 ar ddechrau'r pandemig Covid-19, ac yn fwy na gwrthdroi'r cwymp o £13.8 miliwn yng ngwerth asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd rhwymedigaeth y pensiwn o £19.9 miliwn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y raddfa ddisgownt ragdybiedig, yn unol â gostyngiadau mewn enillion bond, a chynnydd yn y cyfraddau chwyddiant rhagdybiedig. Yr effaith net yw ennill o £0.2 miliwn, a ddangosir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol fel 'Enillion actiwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion diffiniedig' (2019-2020: ennill o £1.7 miliwn).

## Buddsoddiadau

Mae nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt yn talu eu ffi cofrestru naill ai'n flynyddol neu'n chwarterol ymlaen llaw. Ynghyd â'n arian rhydd wrth gefn, mae hyn yn golygu ein bod yn cadw balansau banc arwyddocaol. Yn ystod 2020–2021 roedd y rhan fwyaf o gronfeydd dros ben yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuo yn dwyn llog wedi'u gwasgaru ar draws pump o fanciau stryd fawr y DU. Y llog a enillwyd ar yr adneuon banc hyn yn ystod y flwyddyn oedd £0.4 miliwn (2019–2020: £1.0 miliwn). Roedd y cwymp o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y cafodd cyfraddau llog eu gostwng ymhellach ym Mawrth 2020 mewn ymateb i Covid-19, ac oherwydd inni symud £30 miliwn i fuddsoddiadau marchnad stoc yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifir isod.

Yn ystod 2020-2021 fe wnaethom symud i weithredu cynllun buddsoddi'r Cyngor, a nododd cronfa o £30 miliwn i fuddsoddi mewn marchnadoedd stoc ar gyfer y tymor hir, ac yn gosod cyfradd ennill targed ar gyfer y gronfa dymor hir o dri y cant uwchben cyfradd chwyddiant y Mynegai Pris Defnyddwyr (CPI), net o gostau rheoli buddsoddi. Fe wnaethom benodi Sarasin & Partners yn rheolwyr buddsoddi i'r gronfa honno, ac ers Gorffennaf 2020, rydym wedi buddsoddi £30 miliwn, a gadwyd mewn adneuon arian yn flaenorol, mewn ecwitïau, cronfeydd a bondiau amrywiol. Fe wnaethom symud ymlaen yn ofalus, o ystyried yr ansefydlogrwydd mewn marchnadoedd ariannol, gan ddarparu cyfrannau o £10 miliwn i'n rheolwyr buddsoddi yng Ngorffennaf 2020, Hydref 2020 a Ionawr 2021.



Adolygiad ariannol

Roedd incwm difidend a llog o'r portffolio, sy'n cael ei ailfuddsoddi, yn £0.2 miliwn yn 2020-2021, gydag enillion ar fuddsoddiadau yn £1.1 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn dangos costau rheoli buddsoddi o £0.04 miliwn. Y gyfradd ennill net flynyddol ar ein portfolio buddsoddi ar ôl costau rheoli buddsoddi yw 8.5 y cant. Cyfanswm gwerth y gronfa fuddsoddi ar ddiwedd y flwyddyn yw £31.3 miliwn.

Cafodd y polisi buddsoddi y gwnaethom ei weithredu yn ystod 2020–2021 ei gymeradwyo gan y Cyngor ym Mai 2019. Ers hynny mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi wedi'i ddiweddaru yn ei gyfarfod Mai 2021. Yn benodol, adlewyrchodd hyn estyniad ar ein polisi moesegol i gyfyngu buddsoddiad mewn echdynnu tanwydd ffosil. Mae'n polisi buddsoddi presennol, ynghyd â dadansoddiad o'n daliadau buddsoddi ar ddiwedd y flwyddyn, i'w canfod ar ein gwefan.



## Arian wrth gefn

Ein polisi arian wrth gefn yw cynnal arian rhydd wrth gefn o fewn ystod targed. Arian rhydd wrth gefn yw cronfeydd sydd ar gael yn rhydd i'w gwario, felly nid ydynt yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau diriaethol sefydlog na symiau wedi dynodi ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol. Fe wnaethom hefyd osod lefel isafswm ar gyfer y balans arian a buddsoddiadau rhagolwg cyfansymiol yng nghwrs y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'r Cyngor yn adolygu'r rhychwant targed o arian rhydd wrth gefn a'r balans isafswm arian a buddsoddiadau yn flynyddol o leiaf

Mae lefel darged isafswm o arian rhydd wrth gefn wedi'i gosod i sicrhau ein cynaliadwyedd, gan gymryd sicrwydd ein llif incwm i ystyriaeth, ein balansau arian a buddsoddiadau, ac asesiad o'r effaith ariannol bosibl o risgiau a wynebir gan yr NMC. Mae'r lefel darged uchafswm o arian rhydd wrth gefn wedi'i gosod i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu cymhwyso'n effeithiol, gan gydbwyso buddiannau'r bobl ar ein cofrestr sy'n ein cyllido trwy'r ffïoedd maen nhw'n eu talu, a'r cyhoedd sy'n cael budd o'n gwaith.

Ym Mawrth 2021 adolygodd y Cyngor y safbwynt diweddaraf ynglŷn â'r polisi arian wrth gefn a chytunodd y dylai'r ystod targed o arian rhydd wrth gefn aros yn sero i £25 miliwn, a dylai'r balans isafswm cyfanswm arian a buddsoddiadau aros yn £20 miliwn.

Roedd cyfanswm arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn £69.3 miliwn (2020: £57.5 miliwn), ac arian rhydd wrth gefn yn £41.5 miliwn (2020: £31 miliwn). Fel y nodwyd uchod, rydym wedi cyllidebu ar gyfer diffygion yn 2021-2022 a 2022-2023 wrth i ni weithio i leihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer. Hefyd, mae'n cynlluniau gweithredu strategaeth yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol yn ein hisadeiledd. Felly rydym yn disgwyl y bydd ein harian rhydd wrth gefn yn gostwng tuag at y pen is o'r rhychwant targed erbyn diwedd cyfnod y strategaeth.

**Syr David Warren**
Cadeirydd
9 Gorffennaf 2021

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
9 Gorffennaf 2021

Adolygiad ariannol

# Adroddiad cydnabyddiaeth

## Ein pobl yw ein hased fwyaf gwerthfawr, rydym yn gallu cyflawni'r hyn a wnawn trwyddynt a chyda hwy

Mae gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyfrifoldeb dros sicrhau bod systemau priodol mewn grym ar gyfer cydnabod a chynllunio olyniaeth yn yr NMC. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif feysydd ffocws ar gyfer y Pwyllgor ac mae'n cynnwys cyfrif o lwfansau a threuliau a dalwyd i aelodau'r Cyngor, cydnabyddiaeth wedi'i wneud i uwch reolwyr a thâl cyflogeion. Wrth gyrraedd penderfyniadau ar gydnabyddiaeth, mae'r pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys meincnodi sector yn ogystal ag amodau cymdeithasol ac economaidd. Mae cydnabyddiaeth deg yn cael ei chefnogi a'i galluogi gan brosesau asesu perfformiad effeithiol ac mae'r adroddiad hefyd yn cwmpasu'n hymagwedd at hyn i'r Cyngor yn ogystal ag i gydweithwyr. Roedd meysydd eraill o flaenoriaeth ffocws i'r Cyngor yn y flwyddyn yn cynnwys adolygu'n hadroddiadau bwlch cyflog a datblygiad polisïau mwy effeithiol oedd yn mynegi'n dyletswydd gofal at gydweithwyr. Mae agweddau ariannol yr adroddiad hwn wedi'u harchwilio gan yr archwilwyr allanol, Haysmacintyre, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

## Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethol yr NMC ac mae ganddo'r awdurdod eithaf i wneud penderfyniadau fel y disgrifir yn y datganiad llywodraethiant blynyddol. Mae aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr yr NMC.

O dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu'r lwfansau i'w talu i aelodau'r Cyngor. Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn lwfans blynyddol wedi'i seilio ar y gofyn i aelodau dreulio cyfartaledd o dri diwrnod y mis ar fusnes NMC. Yn ymarferol, mae aelodau'r Cyngor yn ymrwymo llawer mwy o amser na hyn.

Er mwyn rheoli gwrthdrawiadau buddiannau, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer Panel Annibynnol yn cynnwys arbenigwyr allanol i asesu'r lefel briodol o lwfansau. Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd naill ai'n derbyn neu'n gostwng y lefel o lwfans a argymhellir gan y Panel ond na fydd yn ei gynyddu. Cafodd lwfansau aelodau'r cyngor eu cynyddu ddiwethaf o £13,250 i £14,724 fel yr argymhellwyd gan y Panel Annibynnol ar 1 Ebrill 2017. Nid oes cynnydd wedi bod ers hynny. Mae'r lwfans blynyddol i Gadeirydd y Cyngor yn aros yn £78,000 am ymrwymiad o dri diwrnod yr wythnos neu £52,000 am ymrwymiad o ddau ddiwrnod yr wythnos.

Mae aelodau partner, hynny yw, aelodau o bwyllgorau sydd ddim yn aelodau o'r Cyngor, yn derbyn lwfans dyddiol o £286 am amser a dreulir ar fusnes NMC ac ad-daliad am gostau teithio rhesymol. Cafodd lwfans dyddiol aelod partner ei gynyddu ddiwethaf o £260 i £286 o 1 Ebrill 2017.

Yng Ngorffennaf 2020, sefydlodd y Cyngor gynllun Aelod Cyswllt a chafodd y ddau Aelod Cyswllt eu penodi o 1 Ionawr 2021 am gyfnod o ddwy flynedd. Mae aelodau cyswllt yn derbyn lwfans o £10,296 yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol o £286 ar gyfer ymrwymiad amser o dri diwrnod y mis.

Yn unol â'r trefniadau a ddisgrifir uchod, cyfarfu Panel Annibynnol yn Chwefror 2020 i ymgymryd ag adolygiad 'cyffyrddiad ysgafn' o lwfansau aelodau'r Cyngor a Phartneriaid. Roedd canfyddiadau ac argymhellion y Panel i fod i gael eu hystyried ym Mawrth 2020 ond penderfynodd y Cyngor nad oedd yn dymuno dwyn ystyriaeth o

argymhellion y Panel ymlaen ar yr adeg honno oherwydd ffactorau amrywiol, gan gynnwys amgylchiadau digynsail y pandemig Covid-19. Mae'r Cyngor wedi cytuno y dylid ymgymryd ag adolygiad annibynnol llawn yn 2021-2022.

Roedd lwfansau a dalwyd i aelodau'r Cyngor ac Aelodau Cyswwlt yn 2020–2021 yn dod i £239,258 (2019–2020: £239,964). Fel yr esbonnir yn y troednodyn i dabl 1 isod, mae cyfanswm 2020-2021 yn cynnwys lwfansau a dalwyd i aelodau newydd o'r Cyngor ac Aelodau Cyswllt cyn cychwyn eu tymhorau ffurfiol mewn swydd, ac i un aelod o'r Cyngor ar ôl i'w dymor ffurfiol ddod i ben. Ni chafodd taliadau cytundebol ychwanegol eu gwneud i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2020–2021.

Mae taliadau lwfans i aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt ac Aelodau Partner yn cael eu gwneud trwy'r gyflogres â didyniadau ar gyfer treth incwm ac yswiriant Cenedlaethol. Mae treuliau a gynhyrchir yn uniongyrchol ym mherfformiad dyletswyddau yn unol â pholisi Teithio, Llety a Threuliau Cyngor yr NMC.

Mae treuliau yn cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth ac maen nhw'n cael eu cynhyrchu pan fydd aelodau'n cyflawni'u dyletswyddau. Lle bydd unrhyw gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Llundain, mae treuliau yn cael eu hystyried yn fudd trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Cenedlaethol sy'n codi trwy gytundeb setliad PAYE â HMRC. Cenedlaethol sy'n codi trwy gytundeb setliad PAYE â HMRC.

Cafodd pob cyfarfod a digwyddiad eu cynnal yn rhithiol yn 2020–2021 oherwydd y pandemig Covid-19; ni chafodd treuliau eu cynhyrchu felly ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau'r Cyngor. Cafodd y treuliau a restrwyd ar gyfer 2020-2021 eu cynhyrchu yn 2019–2020 ond ni chawsant eu had-dalu hyd 2020-2021. Mae'r holl dreuliau a gynhyrchwyd gan aelodau wedi'u cynnwys yn nhabl 1.



## Dulliau a ddefnyddiwyd i asesu perfformiad aelodau

Mae gan y Cyngor bolisi a phroses gytunedig ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun yn ogystal â'i aelodau. Mae adolygiad perfformiad Cadeirydd y Cyngor yn cael ei ymgymryd gan yr Is-gadeiryddion. Mae'r adolygiad yn cymryd ymagwedd strwythuredig ac wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor. Mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio i gytuno ar amcanion a nodi anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol y Cyngor wedi'i harwain gan y Cadeirydd. Digwyddodd adolygiadau perfformiad blynyddol o bell yn 2020–2021.

## Amrywiaeth ein haelodau Cyngor, aelodau Cyswwlt a Phartner

Mae data amrywiaeth, ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ein haelodau Cyngor, aelodau Cyswllt a Phartner yn cael eu dangos isod. Roedd cyfanswm o 11 aelod Cyngor (1 swydd wag), 2 Aelod Cyswllt a 7 aelod Partner (31 Mawrth 2020: 12 Aelod o'r Cyngor, 7 aelod partner).

**Rhyw**

**14 Benywaidd | 6 Gwrywaidd**
(2019–2020: 11 Benywaidd, 8 Gwrywaidd)

**Ethnigrwydd**

**16 Prydeinig Gwyn | 2 Du Affricanaidd**
**1 Du Caribïaidd | 1 Gwyn Prydeinig/Gwyddelig**
(2019–2020: 17 Gwyn Prydeinig, 1 Gwyn Prydeinig/Gwyddelig, 1 Du Caribïaidd)

**Anabledd**

**18 Dim anabledd | 1 wedi datgan anabledd | 1 dewis peidio ateb**
(2019–2020: 16 Dim anabledd, 2 Ie, 1 Dewis peidio ateb)



Adroddiad cydnabyddiaeth

## Tabl 1: Lwfansau a threuliau'r Cyngor

| | 2020–2021 | | | | 2019–2020 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lwfans (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf) | Cyfanswm cydanbyddiaeth (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau eraill (i'r £100 agosaf) | Lwfans (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf) | Cyfanswm cydanbyddiaeth (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliai eraill (i'r £100 agosaf) |
| Philip Graf CBE – Cadeirydd (hyd 31 Rhagfyr 2020) | 55–60 | 0 | 55–60 | 0 | 75–80 | 2,500 | 80–85 | 0 |
| Yr Athro Karen Cox (Is-gadeirydd (Gweithredol) Cadeirydd o 5 Hydref 2020) | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 10–15 | 2,100 | 15–20 | 600 |
| Syr Hugh Bayley | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 10–15 | 1,700 | 15–20 | 0 |
| Justine Craig (aelod dynodedig o'r Cyngor) | 0–5 | 0 | 0–5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Maura Devlin MBE (hyd 30 Medi 2020) | 5–10 | 200 | 5–10 | 0 | 10–15 | 13,700 | 25–30 | 400 |
| Claire Johnston | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 10–15 | 1,800 | 15–20 | 0 |
| Eileen McEneaney MBE (o 1 Hydref 2020) | 5–10 | 0 | 5–10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Robert Parry | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 10–15 | 4,900 | 15–20 | 200 |
| Marta Phillips OBE | 10–15 | 0 | 10–15 | 100 | 10–15 | 1,400 | 15–20 | 0.0 |
| Derek Pretty | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 10–15 | 4,200 | 15–20 | 800 |
| Stephen Thornton CBE (hyd 30 Medi 2020) | 5–10 | 0 | 5–10 | 0 | 10–15 | 4,500 | 15–20 | 1,000 |
| Lorna Tinsley (hyd 30 Medi 2020) | 10–15 | 0 | 10–15 | 200 | 10–15 | 3,000 | 15–20 | 300 |
| Anna Walker CB (o 1 Hydref 2020) | 5–10 | 0 | 5–10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | 2020–2021 | | | | 2019–2020 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lwfans (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf) | Cyfanswm cydanbyddiaeth (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau eraill (i'r £100 agosaf) | Lwfans (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf) | Cyfanswm cydanbyddiaeth (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliai eraill (i'r £100 agosaf) |
| Ruth Walker MBE | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 10–15 | 5,200 | 15–23 | 400 |
| Sue Whelan Tracy (o 1 Hydref 2020) | 10–15 | 0 | 10–15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dr Lynne Wigens OBE (o 1 Hydref 2020) | 5–10 | 0 | 5–10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dr Anne Wright CBE (hyd 30 Medi 2020) | 5–10 | 0 | 5–10 | 0 | 10–15 | 1,000 | 15–20 | 0 |
| **Aelodau cyswllt** | | | | | | | | |
| Tracey MacCormack (o 1 Ionawr 2021) | 0–5 | 0 | 0–5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dr Gloria Rowland MBE (o 1 Ionawr 2021) | 0–5 | 0 | 0–5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **239.3** | **200** | **239.5** | **300** | **240.0** | **46,000** | **286.0** | **3,700** |

Yn 2020-2021, cafodd aelodau ac Aelodau Cyswllt newydd y Cyngor eu cydnabod am amser a dreuliwyd yn cymryd rhan mewn cyflwyniad a gweithgareddau NMC eraill cyn i'w tymhorau ffurfiol mewn swydd gychwyn. Cafodd un cyn-aelod o'r Cyngor ei gydnabod am amser a dreuliwyd yn gwasanaethu ar banel dewis ar gyfer recrwitio'r Cyngor ar ôl i dymor ei benodiad ddod i ben. Mae'r taliadau hyn wedi cael eu cynnwys yng nghyfansymiau'r lwfansau ar gyfer yr unigolion hynny. Cafodd taliadau eu gwneud gan ddefnyddio cyfraddau dyddiol cyfatebol o £409 i aelodau'r Cyngor a £286 i Aelodau Cyswllt. Cafodd Justine Craig, aelod penodedig y Cyngor (yr Alban) ei chydnabod am £1,943 am amser a dreuliwyd ar gyflwyniad a gweithgareddau NMC eraill.

## Cydnabyddiaeth ac asesiad perfformiad y tîm rheoli uwch

Mae'r tîm rheoli uwch (a elwir yn Fwrdd Gweithredol) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (Prif Weithredwr) a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Yn ystod 2020–2021 roedd yr holl gyfarwyddwyr yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Nid oes dim Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr o'r NMC. Mae manylion cydnabyddiaeth yn cael eu datgelu'n llawn ar gyfer yr unigolion hynny yn nhablau 2 a 3.

Y Prif Weithredwr yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan ac sy'n atebol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethiant blynyddol.

## Asesiad perfformiad y Pwyllgor Gwaith

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o berffomiad y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd ar berfformiad y Prif Weithredwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr ar berfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

## Cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gwaith

Mae cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gwaith yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn flynyddol yn unol â fframwaith tâl newydd y Pwyllgor Gwaith a gymeradwywyd yn 2016 a'i ddiweddaru yn 2020 i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol newydd a rolau Cyfarwyddwr Gweithredol o fewn hyn.

Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gydnabyddiaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2020–2021 yn Chwefror 2020. Daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i'r casgliad ar gyfer 2020–2021 y dylai'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yr un dyfarniad costau byw a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflogeion eraill (dau y cant). Cytunodd y Pwyllgor â chais y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i beidio â derbyn y codiad cost byw.

Cafodd Andrea Sutcliffe ei phenodi'n Brif Weithredwr a Chofrestrydd yr NMC ar 14 Ionawr 2019. Roedd ei phecyn cydnabyddiaeth ar gyfer 2020–2021 yn cynnwys cyflog sylfaenol o £175,000. Mae Andrea yn aelod o gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig a'r cyfanswm o gyfraniadau'r cyflogwr a dalwyd yn 2020-2021 oedd £14,000 gan greu ffigur cyfanswm cydnabyddiaeth o £189,000. Yn 2019–2020, roedd ei chyflog yn £175,000 â buddion mewn nwyddau o £163 a budd pensiwn o £14,000 gan greu ffigur cyfanswm sengl cydnabyddiaeth o £189,163.

Mae cydnabyddiaeth tîm y Pwyllgor Gwaith wedi'i amlinellu yn nhabl 2. Cafodd tîm y Pwyllgor Gwaith eu talu am gyfanswm (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol dros dro) o £1.302 miliwn yn 2020–2021 (2019–2020 £1.268 miliwn). Mae'r dadansoddiad o hyn yn cael ei ddarparu yn nhabl 2.

Pan fydd cyfarfodydd Cyngor yn Llundain, mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn mynychau prydau bwyd gyda'r nos gyda'r Cyngor ac mae'r prydau hynny'n cael eu hystyried yn fudd trethadwy mewn nwydd. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi trwy gytundeb setliad PAYE â TChEM, ac mae gwerth y budd yn cael ei ddangos yn gros gan gynnwys y dreth incwm sy'n ddyledus. Yn ystod 2020–2021, cafodd yr holl gyfarfodydd Cyngor eu cynnal yn rhithiol, felly nid oedd prydau bwyd gyda'r nos a dim buddion trethadwy mewn nwyddau. Ni dderbyniodd tîm y Pwyllgor Gwaith unrhyw fuddion trethadwy eraill.

Fel y gofynnir gan lawlyfr adrodd Trysorlys EM, mae tabl 3 yn darparu rhagor o fanylion am y buddion pensiwn ar gyfer yr aelod presennol o'r Pwyllgor Gwaith sy'n aelod o'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig.

Nid yw'r NMC yn gweithredu unrhyw drefniadau tâl neu fonws perthynol i berfformiad. Ni dderbyniodd neb o'r Pwyllgor Gwaith felly unrhyw fonysau perfformiad.

Mae contract cyflogaeth Andrea Sutcliffe yn gofyn am rybudd o chwe mis i gael ei roi gan y naill barti neu'r llall i derfynu'r contract. I Gyfarwyddwyr Gweithredol y cyfnod yw tri mis.

Ystyriodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gydnabyddiaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021-2022 yn Chwefror 2021. Cafodd ystyriaeth y Pwyllgor ei ffurfio gan dystiolaeth meincnodi allanol. Cymeradwyodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer diwygiad bach i fframwaith cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gwaith i gynnwys ystod marchnad.

Cymeradwyodd y pwyllgor godiad cost byw un y cant ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol mewn grym o 1 Ebrill 2021, yn unol â'r codiad a gymeradwywyd gan y Cyngor i gyflogeion eraill.

Cytunodd y Pwyllgor i gais gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i beido â derbyn codiad cyflog ar gyfer 2021-2022 ond mae'n disgwyl y bydd y Cadeirydd newydd yn dymuno cadw hyn o dan adolygiad ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Adroddiad cydnabyddiaeth

## Tabl 2: Cydnabyddiaeth tîm y Bwrdd Gweithredol

| | 2020–2021 | | | | | 2019–2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog (bandiau o £5,000) £'000 | Buddion mewn nwyddau £'000 | Buddion Pensiwn (i'r £'000 argosaf) | Cyfanswm ydnabyd–diaeth (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau (i'r £100 agosaf) | Cyflog (bandiau o £5,000) £'000 | Buddion mewn nwyddau £'000 | Buddion pensiwn (i'r £'000 argosaf) | Cyfanswm ydnabyd–diaeth (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliaun (i'r £'000 argosaf) |
| Andrea Sutcliffe<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd | 170–175 | 0 | 14,000 | 185–190 | 200 | 170–175 | 200 | 14,000 | 185–190 | 5,400 |
| Emma Broadbent[1]<br>Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu 2019–2020; Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol 2020–2021 | 145–150 | 0 | 18,000 | 160–165 | 0 | 130–135 | 100 | 15,000 | 145–150 | 1,800 |
| Sarah Daniels[2]<br>Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol. Aelod o'r Bwrdd Gweithredol hyd 19 Hydref 2020 | 165–170 | 0 | 12,000 | 175–180 | 0 | 125–130 | 100 | 15,000 | 140–145 | 700 |
| Andrew Gillies<br>ICyfarwyydwr Adnoddau Dros Dro hydl 1 Awst 2019; Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau a Gwasanaethau Technoleg o 1 Awst 2019 | 130–135 | 0 | 16,000 | 145–150 | 400 | 120–125 | 1,500 | 15,000 | 135–140 | 1,500 |
| Candace Imison<br>Cyfarwyddwr Datblygu Strategaeth o 8 Ebrill 2019 i 30 Ebrill 2020, 3 diwrnod yr wythnos | 5–10 | 0 | 1,000 | 5–10 | 0 | 70–75<br>FTE*<br>115–120 | 100 | 8,000 | 80–85 | 1,800 |
| Matthew McClelland[3]<br>Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer 2019-2020; Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Dirnadaeth 2020-2021 | 135–140 | 0 | 54,000 | 190–195 | 0 | 135–140 | 100 | 39,000 | 175–180 | 0 |
| Ngozika Francesca Okosi<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol o 19 Hydref 2020 | 60–65<br>FYE**<br>130–135 | 0 | 3,000 | 60–65 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Richard Sheldon<br>Cyfarwyddwr Technoleg ac Arloesedd Busnes Dros Dro Hyd 2 Medi 2019 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55–60<br>FYE<br>115–120 | 0 | 4,000 | 55–60 | 100 |
| Tom Scott[1]<br>Cyfarwyddwr Gweiredol Rheoleiddio proffesiynol Dros Dro o 8 Chwefror 2021 | 15–20<br>FYE<br>130–135 | 0 | 2,000 | 20–25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Geraldine Walters<br>Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi 2019-2020; Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol 2020–2021 | 160–165 | 0 | 13,000 | 175–180 | 100 | 155–160 | 200 | 13,000 | 170–175 | 3,900 |
| Edward Welsh<br>Cyfarwyddwr Materion Allanol 2019-2020; Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2020–2021 | 145–150 | 0 | 18,000 | 160–165 | 200 | 140–145 | 100 | 17,000 | 160–165 | 2,700 |
| **Cyfansymiau** | **1,152** | **0** | **150,000** | **1,302** | **900** | **1,126.8** | **1,000** | **140,000** | **1,268.3** | **21,700** |

[1]Roedd Emma Broadbent ar absenoldeb oherwydd salwch o 11 Ionawr 2021. Cafodd Tom Scott ei gyflogi fel Cyfarwyddwr gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol dros dro i gymryd lle absenoldeb Emma Broadbent.

[2] Roedd Sarah Daniels yn aelod o'r tîm Gweithredol hyd 19 Hydref 2020. Cafodd ei swydd fel Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ei dileu o ganlyniad i strwythur newydd cyfarwyddiaeth yr NMC, a gadawodd hi'r NMC ar 22 Ionawr 2021. Mae ei chyflog o £165-170k a ddatgelir yn nhabl 2 yn cynnwys cyflog o£100-£105k am y cyfnod i 22 Ionawr 2021 (blwyddyn lawn yn cyfateb i £125-130k) a'i phecyn ymadael o £60-65k. Mae ei phecyn ymadael hefyd yn cael ei ddatgelu yn nhabl 5.

[3]Mae Matthew McClelland yn aelod o'r cynllun â buddion diffiniedig, ac mae manylion o werth ei fuddion pensiwn yn 2020-2021 yn cael eu dangos yn nhabl 3. Mae ei fuddion pensiwn a ddangosir uchod wedi cael eu cyfrifo fel y cynnydd gwirioneddol yn ei bensiwn yn y flwyddyn wedi'i luosi gan 20 llai gwerth cyfraniadau'r cyflogeion a gafodd eu gwneud. Mae'r cyfarwyddwyr presennol eraill yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig, gwerth eu buddion pensiwn yw cyfraniadau'r cyflogwr a gafodd eu gwneud gan yr NMC i mewn i'w cronfeydd pensiwn.

[4] Cyfansymiau'n cael eu talgrynu.

| **Tabl 3:** **Gwybodaeth am bensiwn a buddion diffiniedig y tîm gweithredol** | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) £'000 | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Maw 2020 (bandiau o £5,000) £'000 | Gwerth trosglwyddo'n cyfateb i arian ar 1 Ebr 2020 £'000 | Gwerth trosglwyddo'n cyfateb i arian ar 31 Maw 2021 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo'n cyfateb i arian £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Matthew McClelland** Cyfarwyddwr Gweithredol Addasrwydd i Ymarfer 2019–2020; Cyfarwyddwri Strategaeth a Dirnadaeth 2020–2021 | 0–2.5 | 15–20 | 467 | 543 | 66 |

## Penodiadau a phecynnau ymadael oddi ar y gyflogres

Yn unol â gofynion Trysorlys EM, mae'n rhaid i wybodaeth gael ei chyhoeddi ar benodiadau a chyflogau uchel a/neu benodiadau uwch oddi ar y gyflogres ar ddiwedd y flwyddyn, a'r nifer a'r gost i becynnau ymadael a gytunwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a'r flwyddyn flaenorol. Nid oes neb o'r Cyngor na'r tîm Gweithredol yn cael eu cyflogi oddi ar y gyflogres. Mae'r holl benodiadau oddi ar y gyflogres yn cael eu hasesu gan ddefnyddio cyfrifwr statws cyflogaeth y llywodraeth i adnabod y dull cywir o benodi..



## Tabl 4: Penodiadau oddi ar y gyflogres

| **Penodiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2021, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n parhau am fwy na chwe mis** | |
|---|---|
| Nifer o benodiadau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2021 | 3 |
| Ohonynt: | |
| Nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd | 1 |
| Nifer sydd wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd | 2 |
| Nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd | 0 |
| Nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd | 0 |
| **Ar gyfer pob penodiad newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rheini a gyrhaeddodd hyd o chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrh 2021, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n parhau am fwy na chwe mis** | |
| Nifer o benodiadau newydd, neu'r rheini a gyrhaeddod hyd o chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 | 1 |
| Ohonynt: | |
| Nifer wedi'u hasesu o fewn IR35 | 1 |
| Nifer wedi'u hasesu y tu allan i IR35 | 0 |
| | |
| Nifer a benodwyd yn uniongyrchol ac sydd ar y gyflogres | 0 |
| Nifer o benodiadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 1 |
| Nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb | 0 |

## Tabl 5: Pecynnau ymadael

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Band cost y pecyn ymadael | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm nifer o becynnau ymadael fesul band cost | Nifer o ymadawiadau lle mae taliadau arbennig wedi cael eu gwneud |
| Llai na £10,000 | – | 4 | 4 | – |
| £10,001 – £25,000 | 1 | – | 1 | – |
| £25,001 – £50,000 | – | – | – | – |
| £50,001 – £100,000 | 1 | – | 1 | – |
| **Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael** | **2** | **4** | **6** | **–** |
| **Cyfamswm cost £** | **85,590** | **4,461** | **90,051** | **–** |

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Band cost y pecyn ymadael | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm nifer o becynnau ymadael fesul band cost | Nifer o ymadawiadau lle mae taliadau arbennig wedi cael eu gwneud |
| Llai na £10,000 | – | 8 | 8 | – |
| £10,001 – £25,000 | 1 | 1 | 2 | – |
| £25,001 – £50,000 | – | 1 | 1 | – |
| **Cyfanswm nifer o becynnau ymadael** | **1** | **10** | **11** | **–** |
| **Cyfanswm cost £** | **14,915** | **87,071** | **101,986** | **–** |



# Cydnabyddiaeth ac asesiad perfformiad cyflogeion eraill

Mae gan yr holl gyflogeion gyfnod prawf ar gychwyn cyflogaeth a chyfnod rhybudd o un i dri mis gan ddibynnu ar eu graddfa.

Mae cydnabyddiaeth yr holl gyflogeion yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried ystod o wybodaeth gan gynnwys trosiant cyflogeion.gweithgaredd recriwtio a thueddiadau cadw, gan feincnodi data a fforddiadwyedd cyffredinol. Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd cyfradd safonol mewn cyflog i'r holl gyflogeion o 2 y cant mewn grym o 1 Ebrill 2020.

Yn 2019, cymeradwyodd y Cyngor fuddsoddiad tair blynedd mewn graddio a chyflogau, gan gynnwys strwythur raddio newydd wedi'i symleiddio. Roedd tystiolaeth o feincnodi a graddfeydd uchel o drosiant wedi cadarnhau bod ein cyfraddau cyflog wedi syrthio y tu ôl i sefydliadau cymharol. Nod y buddsoddiad oedd i symud cydweithwyr tuag at bwynt canol eu graddfa o fewn tair blynedd, wedi'i bwyso drymaf at y graddfeydd cyflogau is. Ar gyfer 2020-2021 fe wnaethom weithredu ail gam o godiadau cyflog i symud cydweithwyr yn agosach at ganol eu bandiau cyflog, mewn grym o 1 Ebrill 2020.

Ar gyfer 2021-2022, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd cyfradd safonol mewn cyflog i'r holl gyflogeion cymwys o un y cant mewn grym o 1 Ebrill 2021. Mae'r cynnydd o 1 y cant hefyd wedi cael ei gymhwyso i werthoedd isfaswm ac uchafswm pob un o'r graddfeydd cyflog staff a gyflwynwyd yn Hydref 2019. Cymerodd graddfa'r cynnydd ystyriaeth o'r gyfradd chwyddiant bresennol, disgwyliadau ynghylch graddfa chwyddiant y dyfodol, yn ogystal â meincnodi yn erbyn amodau marchnad yn y sector preifat yn ogystal â chyhoeddus.

Fe wnaethom hefyd weithredu trydydd cam a therfynol o godiadau cyflog i symud cydweithwyr tuag at ganol eu bandiau cyflog, gan ganolbwyntio eto ar y graddfeydd cyflog is, hefyd mewn grym o 1 Ebrill 2021.

Gweithredodd ein proses adolygu perfformiad a a datblygiad megis mewn blynyddoedd blaenorol gydag amcanion blynyddol yn cael eu gosod ar gyfer y flwyddyn i ddod ym Mai a'u hadolygu yn Hydref a Thachwedd. Nid yw'r broses hon wedi'i chysylltu â chyflog.

# Trefniadau pensiwn

Ein prif gynllun pensiwn yw cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Lefel isafswm y cyfraniad yw bod cyflogeion yn cyfrannu un y cant o'u cyflog a'r NMC yn cyfrannu wyth y cant (2019–2020: wyth y cant). Mae'r NMC yn talu'n gyfartal â chyfraniadau ychwanegol gan y cyflogai hyd at uchafswm o 12 % o gyfraniadau cyflogwr. O 1 Ebrill 2021 bydd hyn yn cael ei gynyddu i uchafswm o 14% o gyfraniadau cyflogwr. Rydym hefyd yn cyflwyno'r cyfle

i gyflogeion gyfrannu at y cynllun penswin cyfraniadau diffiniedig trwy aberthu cyflog o 1 Ebrill 2021. Ar 31 Mawrth 2021, roedd 833 o gyflogeion (84.3 y cant) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig (31 Mawrth 2020: 719, 84.5 y cant).

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn Tachwedd 2013 yn gallu ymuno â chynllun pensiwn â buddion diffiniedig. Cafodd y cynllun ei gau i gyflogeion yn ymuno â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013. Mae aelodau o'r cynllun â buddion diffiniedig yn gwneud cyfraniad o chwech y cant o gyflog. Cyfraniad y cyflogwr yn ystod 2020-2021 oedd 37.9 y cant (2019–2020: 39.3 y cant), fel y gosodwyd gan Actiwari'r Cynllun. Ar 31 Mawrth 2021, roedd 89 o gyflogeion (naw y cant) yn aelodau o'r cynllun â buddion diffiniedig (31 Mawrth 2020: 94, 11.0 y cant).

Ar 23 Mawrth 2021, yn dilyn ymgynghoriad, cytunodd y Cyngor i gau'r cynllun pensiwn a buddion diffiniedig i groniadau yn y dyfodol mewn grym o 1 Gorffennaf 2021. Gwnaeth y Cyngor y penderfyniad i gyflawni amcanion harmoneiddio buddion i'r holl gydweithwyr, gan ostwng y risg ariannol i'r NMC a gallu ailgyfeirio costau at wariant arall.

Mae rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth a phensiynau wedi'i chynnwys yn nodiadau 9 a 17 i'r cyfrifon.

## Strwythur graddio a gwahaniaethau tâl NMC

### Tabl 6: Cyflogeion fesul graddfa a rhyw ar 31 Mawrth 2021

| | Gwrywaidd | | Benywaidd | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel Tâl** | Canran y cydweithwyr | Nifer y cydweithwyr | Canran y cydweithwyr | Nifer y cydweithwyr |
| 1–4 | 14.6% | 144 | 32.7% | 323 |
| 5–7 | 15.1% | 149 | 25.2% | 249 |
| 8–11 | 4.0% | 40 | 7.6% | 75 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol | 0.4% | 4 | 0.3% | 3 |
| Prif Swyddog Gweithredol | 0.0% | 0 | 0.1% | 1 |
| **Cyfanswm y cyflogeion** | **34.1%** | **337** | **65.9%** | **651** |



### Tabl 7: Cyflogeion fesul graddfa ac ethnigrwydd ar 31 Mawrth 2021

| | | Gwyn | DU Ethnig Leiafrifol | | | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel Tâl** | Canran y cydweithwyr | Nifer y cydweithwyr | Canran y cydweithwyr | Nifer y cydweithwyr | Canran y cydweithwyr | Nifer y cydweithwyr |
| 1–4 | 18.0% | 178 | 24.7% | 244 | 4.6% | 45 |
| 5–7 | 22.6% | 223 | 12.3% | 122 | 5.4% | 53 |
| 8–11 | 8.3% | 82 | 2.2% | 22 | 1.1% | 11 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol | 0.6% | 6 | 0.1% | 1 | 0.0% | 0 |
| Prif Swyddog Gweithredol | 0.1% | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 |
| **Cyfanswm y cyflogeion** | **49.6%** | **490** | **39.4%** | **389** | **11.0%** | **109** |

Y cyflogai parhaol sy'n cael ei thalu uchaf yn yr NMC ar 31 Mawrth 2021 yw Andrea Sutcliffe, Prif Weithredwr a Chofrestrydd, ac rydym wedi defnyddio'i chyflog fel y cymharwr wrth gyfrifo'r gwahaniaeth i'r gydnabyddiaeth ganolrifol i gyflogeion NMC. Roedd cydnabyddiaeth Andrea Sutcliffe 4.61 gwaith cydnabyddiaeth canolrifol cyflogeion NMC, oedd yn £38,000. Yn 2019-2020, roedd cydnabyddiaeth Andrea Sutcliffe 4.86 gwaith cydnabyddiaeth canolrifol cyflogeion NMC, oedd yn £35,983. Mae cydnabyddiaeth yn y cyfrifiad hwn yn seiliedig ar gydnabyddiaeth blynyddol, cyfatebol i lawn amser yr holl staff (heb gynnwys staff contractwyr ac asiantaeth) ar y dyddiad adrodd. Nid yw'n cynnwys gwyliau blynyddol â thâl, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau'n cyfateb i arian.

## Bwlch tâl y rhywiau

Roedd ein bwlch tâl canolrifol ar gyfer 2021 yn 8.3 y cant (2020: naw y cant) a'r bwlch tâl cymedrig oedd 4.9 y cant. (2020: 3.4 y cant).

Mae'r newid negyddol yn ein bwlch tâl cymedrig oherwydd cynnydd o 3 y cant mewn cyflogeion benywaidd yn gweithio mewn graddfeydd tâl is ganol. Mae'r bwlch tâl canolrifol wedi cael ei effeithio'n gadarnhaol, gan ostwng o 0.7 y cant. Mae'r gostyngiad hwn wedi cael ei yrru gan y cynnydd ar ein strategaeth wobrwyo.

Er gwaetha'r cynnydd bach yn y bwlch tâl cymedrig, mae ein bylchau tâl yn dal yn llai yn arwyddocaol na'r cyfartaleddau cenedlaethol (cymedrig NMC: 4.9 y cant, cymedrig cenedlaethol: 16.6 y cant; cymedrig NMC: 8.3, cymedrig cenedlaethol: 16.5 y cant). Byddwn yn gweithio'n weithredol i leihau ein bwlch wrth i ni weithredu'n Cynllun Pobl.

Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni yn ein pumed adroddiad Tâl Rhywiau.

## Bwlch tâl ethnigrwydd

Rydym yn adrodd ar ein bwlch tâl ethnigrwydd am yr ail dro yn 2021.

Ein bwlch tâl cymedrig ar gyfer 2021 oedd 23.7 y cant (2020: 28.7 y cant) a'r bwlch tâl canolrifol oedd 27.1 y cant. (2020: 27.1 y cant).

Ein dadansoddiad yw nad yw'r bwlch tâl hwn oherwydd tâl anghyfartal am rolau tebyg. Yn gyffredinol mae 39 y cant o gyflogeion yn yr NMC o gefndiroedd Du ac ethnig leiafrifol. Mae'n bylchau tâl yn cael eu hachosi gan y ffaith fod llawer o gydweithwyr o gefndiroedd Du ac ethnig leiafrifol mewn graddfeydd is yn y sefydliad ac wedi'u tangynrychioli mewn rolau uwch. Fodd bynnag, fe wnaethom gynyddu cynrychiolaeth Ddu ac ethnig leiafrifol yn ein graddfeydd tâl chwartel uwch o dri y cant yn 2020–2021.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chynrychiolaeth cyflogeion Du ac ethnig leiafrifol mewn rolau uwch yn y sefydliad. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n ystyrlon ac rydym wedi cymryd rhai camau pwysig yn seiliedig ar beth rydym wedi'i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein blaenoriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, recriwtio adnodd ychwanegol i'n swyddogaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer cydraddoldeb hil wedi'i sefydlu ar draws holl fesydd gwaith yr NMC. Mae gennym gynllun gweithredu penodol yn cael ei ddatblygu i wella canlyniadau, gan ddefnyddio Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithle y GIG (WRES) ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r arolwg WRES fel meincnod parhaol. Rydym wedi lansio cynllun mentora cynhwysol ar gyfer cydweithwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol, adolygu ein hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gynnwys 'profiadau wedi'u byw' ac wedi dechrau mynd i'r afael â materion hil a chydraddoldeb trwy'n rhaglen datblygu arweinyddiaeth.



## Bwlch tâl anabledd

Rydym yn adrodd ar ein bwlch tâl anabledd am yr ail dro yn 2021.

Ein bwlch tâl canolrifol ar gyfer 2021 oedd -9.8 y cant (2020: -10.5 y cant) a'r bwlch cymedrig oedd -3.4 y cant. (2020: -2.6 y cant). Mae'n hadroddiad bwlch tâl anabledd yn dangos bod cyflogeion sydd wedi datgan anabledd yn cael eu talu mwy ar gyfartaledd na chyflogeion sydd heb anableddau datganedig. Mae cynrychiolaeth o gydweithwyr anabl trwy'r rhan fwyaf o'n lefelau tâl.

Fodd bynnag, dim ond 5.4 y cant o gydweithwyr sydd wedi datgan anabledd. Mae Swyddfa'r Ystadegau Gwladol yn datgan yn 2018, bod 18.9 y cant o boblogaeth y DU oedd yn gweithio yn anabl. Mae tanadrodd felly'n debygol o fod yn broblem. Yn 2020-2021, rydym wedi cynorthwyo ac annog cyflogeion i ddatgelu anableddau ac o ganlyniad rydym wedi gweld y ganran o gydweithwyr yn datgelu yn cynyddu o 1.6 y cant. Yn 2021-2022 byddwn yn gweithio ymhellach gyda Workaround, ein rhwydwaith cyflogeion ar gyfer cyflogeion ag anableddau, i sicrhau bod pobl yn hyderus i ddatgelu'u hanableddau ac i wella'n prosesau a galluoedd i gynorthwyo cydweithwyr anabl yn well.

## Salwch a throsiant cyflogeion

Mae salwch a throsiant cyflogeion yn cael ei adrodd yn yr adran "ein pobl a'n sefydliad" o'r adolygiad perfformiad. Er ein bod yn falch i nodi bod y ddau ddangosydd wedi gwella'n arwyddocaol dros y flwyddyn – yn enwedig trosiant sydd wedi syrthio i 5.6 y cant o 13.5 y cant – rydym yn cydnabod bod sicrwydd swydd ac ariannol yn brif yrrwr dros gadw yn ogystal a ffactorau eraill. Wrth i gyfyngiadau lacio ymhellach yn 2021-2022, yn gyffredin â sefydliadau eraill, rydym yn disgwyl gweld cynnydd mewn trosiant.

**Syr David Warren**
Cadeirydd
9 Gorffennaf 2021

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
9 Gorffennaf 2021

# Datganiad o gyfrifoldebau'r

## cyngor ac o'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ynglŷn â chyfrifon



Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gofyn bod cyfrifon blynyddol yn cael eu paratoi a'u harchwilio. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cadw Cyfrifon) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â'r penderfyniad a dderbyniwyd o'r Cyfrin Gyngor sy'n gofyn bod y cyfrifon yn cael eu paratoi'n unol ag Ymarfer Cymeradwy cadw Cyfrifon ac Adrodd datganiad yr Elusennau (SORP) a ddiwygiwyd yn 2015 a bod y cyfrifon yn cydymffurfio hefyd â'r ddeddf gymwysadwy a Safonau Cyfrifeg a gyhoeddir (Atodiad 1).

Mae'r ddeddf sy'n gymwysadwy i elusennau wedi'u cofrestru yn Lloegr a Chymru a'r Alban yn gofyn i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr elusen ac o'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn mae'n ofynnol iddynt:

- gadw at y penderfyniad cyfrifon cymwysadwy a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cadw cyfrifon addas ac yna'u cymhwyso'n gyson
- cadw at y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol i ragdybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan a yw safonau cadw cyfrifon cymwysadwy wedi cael eu dilyn, a
- datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol cywir, sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf yr Elusennau 2011, y Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, y Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a'r gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a darganfod twyll a materion afreolaidd eraill.


Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd fel Swyddog Cadw Cyfrifon ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cadw Cyfrifon mae hi'n gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau'r Cyngor o dan adran 52 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (fel y'i diwygiwyd). Wrth wneud hynny, gofynnir iddi ystyried yr egwyddorion a amlinellir ym Mhennod 3 ynglŷn â chyfrifoldebau Swyddogion Cadw Cyfrifon a chyfarwyddyd ehangach yn Rheoli Arian Cyhoeddus (Trysorlys EM, 2013, gydag atodiadau wedi'u hadolygu Mawrth 2018).

Cyn belled ag y gwyddom, nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol y mae archwilwyr NMC yn anymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi gorfod eu cymryd i wneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad ac i sefydlu bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cadw Cyfrifon yn cadarnhau bod yr adroddiad a chyfrifon blynyddol ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladawy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu ei fod yn deg, cytbwys a dealladawy.

## Prif man busnes

Mae'r NMC yn gweithio ledled Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Ei brif man busnes yw:

**23 Portland Place**
**London W1B 1PZ**






Datganiad o gyfrifoldebau'r

## Cynghorwyr

### Archwiliwr Allanol Annibynnol

**Haysmacintyre LLP Chartered Accountants**, 10 Queen Street Place London EC4R 1AG

### Archwiliwr Statudol

**Comptroller and Auditor General, National Audit Office**, 157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP

### Bancwyr

**HSBC Bank Plc**, Space One, Floor 2, 1 Beadon Road, London W6 0EA

### Rheolwyr Buddsoddi

**Sarasin & Partners LLP**, Juxon House, 100 St Paul's Churchyard, London EC4M 8BU

### Archwiliwr Mewnol

**RSM Risk Assurance Services LLP**, 25 Farringdon Street, London EC4A 4AB

### Cyfreithwyr

**Capsticks Solicitors LLP**, 1 St Georges Road, London SW19 4DR

**Mills & Reeve LLP**, 24 King William Street, London EC4R 9AT

**Addleshaw Goddard LLP**, 60 Chiswell Street, London EC1Y 4AG


**Trowers & Hamlins LLP**, 3 Bunhill Row, London EC1Y 8YZ

# Datganiad llywodraethiant blynyddol



Rydym yn gorff statudol annibynnol. Mae'n pwerau a chyfrifoldebau yn cael eu hamlinellu mewn deddfwriaeth[1]. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig[2]. Ein hamcan elusennol yw amddiffyn a diogelu iechyd a llesiant y cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn dilyn cyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau a Swyddfa'r Rheoleiddiwr Elusennau Albanaidd (OSCR) wrth wneud penderfyniadau a thrwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn esbonio sut mae'n gwaith yn arddangos budd cyhoeddus.




[1]SI 2002/253 Y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn)
[2]Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362)

## Y Cyngor

Y Cyngor yw'n corff llywodraethol ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gydgyfrifol am sicrhau bod yr NMC yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda ac yn darparu budd cyhoeddus.

Cylch gorchwyl y Cyngor yw (a) gosod ein cyfeiriadau strategol ac amcanion corfforaethol, yn unol â'n pwrpas craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i reoli perfformiad a risg; a (c) cynnal cywirdeb mewn, ac atebolrwydd cyhoeddus am, weithredu'n swyddogaethau a'r defnydd o gronfeydd. Mae'n Cynllun Dirprwyo yn amlinellu pa faterion y gellir eu penderfynu gan y Cyngor yn unig.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod ac mae'n rhaid i hanner ohonynt fod yn weithwyr  proffesiynol a hanner yn aelodau lleyg . Aelodau lleyg yw'r rheini sydd erioed wedi bod yn nyrs, bydwraig na nyrs gyswllt gofrestredig. Fel rheoleiddiwr ledled y DU, mae'n rhaid i aelodaeth y Cyngor gynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu weithio ym mhob un o Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r cadeirydd ac aelodau'r Cyngor yn cael eu penodi gan y Cyfrin Gyngor, yn dilyn prosesau dewis agored a chystadleuol. Mae'r Cyfrin Gyngor yn derbyn sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ar gadernid ein proses benodi neu ailbenodi.

Fe wnaethom gwblhau proses ddewis yn 2019–2020 am bedwar o aelodau newydd i'r Cyngor. Roedd disgwyl i'r aelodau newydd ddechrau ar eu swyddi'n wreiddiol ar 1 Mai 2020 i gymryd lle pedwar aelod o'r Cyngor roedd eu tymhorau i fod i ddod i ben ar 30 Ebrill 2020. Oherwydd y pandemig Covid-19, gohiriodd y Cyfrin Gyngor benodiad, ar ein hargymhelliad, yr aelodau Cyngor newydd i ddod i rym ar 1 Hydref. **Mae'r aelodau hyn yn cael eu rhestru isod:**

- Eileen McEneaney (gweithiwr cofrestredig)
- Dr Lynne Wigens (gweithiwr cofrestredig)
- Anna Walker (lleyg)
- Sue Whelan Tracy (lleyg)

[3] SI 2012/2745 Gorchymyn Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygiad) 2012

I ddarparu cysondeb yn ystod y cyfnod interim, estynnodd y Cyfrin Gyngor dymhorau aelodau'r Cyngor oedd i fod i adael y Cyngor ar ddiwedd Ebrill 2020 i Fedi 2020.

**Yn unol â'r penderfyniad hwn, gadawodd yr aelodau canlynol y Cyngor ar 30 Medi 2020:**

- Maura Devlin (gweithiwr cofrestredig)
- Lorna Tinsley (gweithiwr cofrestredig)
- Stephen Thornton (lleyg)
- Dr Anne Wright (lleyg)

**Cafodd yr aelodau canlynol o'r Cyngor eu hailbenodi am ail dymor o 1 Mai 2020::**

- Ruth Walker (gweithiwr cofrestredig)
- Sir Hugh Bayley (lleyg)
- Derek Pretty (lleyg)
- Marta Phillips (lleyg)

Fe wnaethom gyflawni proses ddewis yn 2020 am aelod newydd o'r Cyngor i'r Alban. Penododd y Cyfrin Gyngor Justine Craig i gychwyn ar ei swydd ar 1 Mai 2021, gan olynu'r aelod o'r Cyngor i'r Alban, Robert Parry, y daeth ei dymor  i ben ar 30 Ebrill 2021.

Testun tristwch oedd i Gadeirydd y Cyngor, Philip Graf, gael ei daro'n ddifrifol wael ym Medi 2020. Yn unol â gofynion deddfwriaethol a Rheolau Sefydlog (paragraff 3.3.2), enwebodd y Cyngor Karen Cox fel Is-gadeirydd, i wasanaethau fel Cadeirydd Dros Dro yn ei absenoldeb. Ymddiswyddodd y Cadeirydd ar on 31 Rhagfyr 2020 oherwydd salwch difrifol parhaol. Adolygodd y Cyngor y trefniadau mewn grym ar 1 Rhagfyr 2020 a chytunodd y byddai Karen Cox yn parhau fel Cadeirydd Dros Dro hyd y gellid penodi Cadeirydd newydd. Mae'r Cadeirydd Dros Dro wedi tynnu ar gymorth y Cyngor cyfan mewn cyflawni'i dyletswyddau, yn enwedig gan yr Is-gadeiryddion, Derek Pretty a Robert Parry. Trefnodd y Cyngor broses ddewis am Gadeirydd newydd i'r Cyngor. Penododd y Cyfrin Gyngor Syr David Warren KCMG i gychwyn ei swydd o 21 Mehefin 2021.

Datganiad llywodraethiant blynyddol

## Cynllun Aelod Cyswllt y Cyngor

Yng Ngorffennaf 2020, sefydlodd y Cyngor gynllun Aelod Cyswllt (Rheolau Sefydlog, paragraff 3.7). O dan y cynllun, mae'r Cyngor yn gallu penodi Aelodau Cyswllt yn ôl yr angen i gynorthwyo gwaith y Cyngor, naill ai fel cyfle datblygiadol neu i ddod ag arbenigedd neu brofiad penodol i waith y Cyngor, fel y penderfynir gan y Cadeirydd. Mae Aelodau Cyswllt yn cymryd rhan ym mhob agwedd o waith y Cyngor mewn ffordd debyg i aelodau a benodir i'r Cyngor, ond nid ydynt yn pleidleisio ar bendefyniadau'r Cyngor.

Penderfynodd y Cyngor i gyflwyno'r cynllun mewn ymateb i heriau a brofwyd yn flaenorol mewn adnabod ymgeiswyr oedd yn addas i'w cymeradwyo i'w penodi ar draws amrywiaeth sylfaen ein gweithwyr cofrestredig. Yn aml roedd hyn oherwydd, er yn weithwyr proffesiynol eithriadol, roedd ymgeiswyr yn brin o fod yn agored i lefel Bwrdd, neu heb gael y cyfle i ddatblygu'r sgiliau strategol oedd eu hangen i wasanaethau ar gorff Teyrnas Unedig gyfan, fel y Cyngor. Roedd eisiau chwarae ein rhan arnom mewn datlygu sylfaen y talent trwy adnabod y rheini â potensial i ddod yn aelodau Bwrdd iechyd a gofal neu'r Cyngor yn y dyfodol.

Yn dilyn proses agored, gystadleuol, cafodd y ddau Aelod Cyswllt cyntaf eu penodi o 1 Ionawr 2021 am gyfnod o ddwy flynedd (y tymor mwyaf a ganiateir o dan Reolau Sefydlog):

- Dr Gloria Rowland MBE (gweithiwr cofrestredig)
- Tracey MacCormack (gweithiwr cofrestredig)



## Presenoldeb aelodau'r Cyngor ac Aelodau Cyswllt 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Mae presenoldeb aelodaeth y Cyngor ac Aelodaeth Gyswllt yn ystod 2020–2021 wedi'i amlinellu isod:

| Aelod | Nifer o sesiynau a fynychwyd* | Nifer o sesiynau cymwys i'w mynychu* | % o sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Philip Graf CBE (Cadeirydd) (i 31 Rhagfyr 2020) | 8 | 8 | 100% |
| Syr Hugh Bayley | 15 | 15 | 100% |
| Yr Athro Karen Cox (Is-gadeirydd o 5 Hydref 2020) | 15 | 15 | 100% |
| Claire Johnston | 15 | 15 | 100% |
| Robert Parry | 15 | 15 | 100% |
| Derek Pretty | 15 | 15 | 100% |
| Marta Phillips OBE | 12.5 | 15 | 83% |
| Ruth Walker MBE | 15 | 15 | 100% |
| Maura Devlin MBE (i 30 Medi 2020) | 7 | 8 | 87% |
| Stephen Thornton CBE (i 30 Medi 2020) | 6 | 8 | 75% |
| Lorna Tinsley (i 30 Medi 2020) | 8 | 8 | 100% |
| Dr Anne Wright CBE (i 30 Medi 2020) | 8 | 8 | 100% |
| Eileen McEneaney MBE (penodwyd 1 Hydref 2020) | 7 | 7 | 100% |
| Dr Lynne Wigens OBE (penodwyd 1 Hydref 2020) | 7 | 7 | 100% |
| Anna Walker CB (penodwyd 1 Hydref 2020) | 7 | 7 | 100% |
| Sue Whelan Tracy (penodwyd 1 Hydref 2020) | 5 | 7 | 71% |
| **Aelod Cyswllt** | | | |
| Dr Gloria Rowland MBE (penodwyd 1 Ionawr 2021) | 5 | 5 | 100% |
| Tracey MacCormack (penodwyd 1 Ionawr 2021) | 5 | 5 | 100% |

*Mae'n cynnwys cyfarfodydd Agored a Chyfrinachol

Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd Agored, y mae'r cyhoedd yn gallu'u mynychu yn ogystal â chyfarfodydd preifat Cyfrinachol. Mae'r Cyngor yn ceisio cynnal cymaint o fusnes â phosibl yn y cyfarfodydd Agored: mae busnes sy'n gallu cael ei gynnal mewn cyfarfodydd Cyfrinachol yn cael ei ragnodi gan y Rheolau Sefydlog (paragraff 5.2.5).

Oherwydd y pandemig Covid-19, ers Mawrth 2020 mae seminarau a chyfarfodydd y Cyngor wedi cael eu cynnal yn rhithiol, fel y caniateir ar eu cyfer o fewn Rheolau Sefydlog. Mae'r holl gyfarfodydd Agored wedi cael eu cynnal mewn ffordd a sicrhaodd y gallai'r cyhoedd barhau i fod yn bresennol a chael y cyfle i godi cwestiynau. Ymgymerwyd â'r holl newidiadau gan ystyried cyfarwyddyd Covid-19 y Comisiwn Elusennau.

Ym Mawrth 2020, i'n galluogi i ymateb yn gymesur i'r argyfwng Covid-19, cymeradwyodd y Cyngor Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Gweithdrefnau Brys) (Diwygiad) 2020 ac wedyn yng Ngorffennaf 2020 cymeradwyodd Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Coronafeirws) (Diwygiad) (Rhif 2) 2020. Mae'r ymateb a alluogwyd gan y Rheolau hyn wedi'i fanylu yn adran Adolygiad Perfformiad yr adroddiad.

Gan gydnabod y gallai difrifoldeb ac effaith y pandemig Covid-19 ofyn am benderfyniadau i gael eu cymryd yn gyflym, ym Mawrth 2020 cytunodd y Cyngor ar drefniadau gwneud penderfyniadau cyflym, â threfniadau diogelu priodol. Awdurdododd y Cyngor y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, â chytundeb y Cadeirydd, i ychwanegu unrhyw grwpiau ychwanegol o bobl addas i'r gofrestr dros dro ac i weithredu yn ôl yr angen fel arall i roi'r mesurau brys a gytunwyd gan y Cyngor ar waith. Cytunodd y Cyngor, lle bynnag y bo'n bosibl, y dylai'r Cadeirydd ymgynghori ag aelodau Cyngor ymlaen llaw cyn dangos cytundeb i gynnig gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Yn yr holl amgylchiadau, byddai'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn rhoi gwybod i aelodau'r Cyngor am bob penderfyniad brys o fewn 24 awr o gael eu gwneud.

Yn 2020–2021 cafodd nifer o benderfyniadau brys eu cymeradwyo gan y Cadeirydd neu'r Cadeirydd Dros Dro yn unol â'r trefniadau a amlinellir uchod. Ym mhob achos ond tri, ymgynghorwyd ag aelodau'r Cyngor ymlaen llaw a chynhaliwyd sesiynau trafod trwy fideogynhadledd. Roedd tair enghraifft lle, oherwydd natur frys y mater, nad ymgynghorwyd â'r Cyngor ymlaen llaw ond cafodd wybod wedyn o fewn 24 awr o'r penderfyniad yn cael ei wneud. Cafodd holl weithredoedd y Cadeirydd neu Is-gadeirydd eu cyhoeddi ym mhapurau'r Cyngor Agored.



Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau'r Cyngor hefyd yn mynychu seminarau misol, yn cynnal fideogynadleddau ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys mynychu gweithdai ymgynghori a digwyddiadau â'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, gweithwyr proffesiynol a chydweithwyr NMC. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i sicrhau bod gan aelodau'r Cyngor y ddirnadaeth sydd ei hangen arnynt i ddal y Bwrdd Gweithredol yn atebol a gwneud penderfyniadau gwybodus. Yn 2020-2021, o ystyried y pandemig, cafodd y digwyddiadau a gweithgareddau hyn eu cynnal yn rhithiol.

## Effeithiolrwydd llywodraethiant

Rydym wedi ymrwymo i safonau uchel o lywodraethiant. Mae'n hymarfer yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Da Llywodraethiant Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau y mae'n gymwys. Rydym hefyd yn ymdrechu i ateb yr egwyddorion ac ymarfer a gymeradwyir yn y Cod Llywodraethiant Elusennau ac Egwyddorion Moesegol Elusennau NCVO. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn cyflwyniad llawn ar gael eu penodi ac yn ymgymryd ag arfarniadau unigol yn flynyddol. Mae'r rhain yn ffurfio datblygiad unigol a chasgliadol y dyfodol, yn ogystal ag ystyriaeth o ailbenodiadau. Mae sesiynau cyflwyno ac arfarniadau oll wedi cael eu cynnal yn rhithiol yn ystod 2020–2021.

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o'i effeithiolrwydd ei hun. Yn unol â llywodraethiant da, mae adolygiad allanol annibynnol yn digwydd yn rheolaidd, gyda'r adolygiad diwethaf yn digwydd yn 2019. Canfu'r adolygiad fod ein hymagwedd at lywodraethiant yn gadarn a manwl, gyda nifer o agweddau llywodraethiant da yn amlwg. Cafodd rhai awgrymiadau ymarferol a logistaidd eu gwneud i gryfhau trefniadau presennol ac maen nhw wedi cael eu gweithredu, gan gynnwys trwy rai mân ddiwygiadau i Reolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, megis diwygiadau i reoliadau ariannol a lefelau awdurdodi.

Yn hydref 2020, cynhaliodd y Cyngor a thîm y Bwrdd Gweithredol ddiwrnod datblygu rhithiol i archwilio a chryfhau ffyrdd o weithio.

Mae newidiadau i'n ffyrdd o weithio oherwydd Covid-19 wedi helpu i adnabod ffyrdd ychwanegol y gallwn ddatblygu ffyrdd mwy heini, hyblyg ac ymatebol o weithio. Er enghraifft, mae ymgymryd â chyfarfodydd yn rhithiol yn ystod 2020-2021 wedi dod â buddion, y bwriadwn eu sefydlu yn ein prosesau wrth i gyfyngiadau lacio. Yn benodol, rydym yn awyddus i sicrhau bod ein cyfarfodydd Agored yn parhau i fod mor hygyrch â phosibl i'r cyhoedd ledled y Deyrnas Unedig.

## Pwyllgorau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Bwrdd a Phwyllgor Buddsoddi o hyd. Ym Mai 2020, sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Llety i arolygu'n Cynllun Llety.

Mae penodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio, Cydnabyddiaeth, Buddsoddi a Llety yn cael ei lywodraethu gan Reolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, ynghyd â set o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Mae aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r cylch gorchwyl, aelodaeth a chofnod presenoldeb ar gyfer pob pwyllgor wedi'i amlinellu isod. Gwnaeth pwyllgorau nifer o benderfyniadau hefyd trwy ohebiaeth y tu allan i'r cyfarfodydd a nodir isod.

## Pwyllgor Archwilio

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yw cynorthwyo'r Cyngor a rheolwyr trwy adolygu trylwyredd a dibynadwyedd sicrwydd ar lywodraethiant, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Mae prif weithgareddau'r pwyllgor yn 2020–2021 yn cael eu crynhoi yn ddiweddarach yn y datganiad hwn.

**Roedd aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:**



Datganiad llywodraethiant blynyddol

| Aelod | Nifer o sesiynau a fynychwyd | Nifer o sesiynau cymwys i'w mynychu | % o sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| **Marta Phillips OBE (Cadeirydd)** | 4 | 4 | 100% |
| **Robert Parry** | 3 | 4 | 75% |
| **Derek Pretty** | 4 | 4 | 100% |
| **Eileen McEneaney MBE (penodwyd 1 Hydref 2020)** | 2 | 2 | 100% |
| **Sue Whelan Tracy (penodwyd 10 Mehefin 2020)*** | 2 | 3 | 66% |

* mynychodd fel aelod ex officio (yn rhinwedd ei swydd fel darpar aelod o'r Cyngor) o 10 Mehefin i 30 Medi 2020, ac o 1 Hydref 2020 fel aelod o'r Cyngor.

## Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio olynu. Yn 2020-2021, roedd prif weithgareddau'n cynnwys craffu ar broses recriwtio'r Cadeirydd; ystyried cynigion ynglŷn â'r Cynllun Pensiwn â Buddion Diffiniedig a threfniadau dyletswydd gofal at gyflogeion; a'r adolygiad tâl staff a Bwrdd Gweithredol blynyddol.

**Mae aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 yn cael eu dangos isod:**

| Aelod | Nifer o sesiynau a fynychwyd | Nifer o sesiynau cymwys i'w mynychu | % o sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| **Yr Athro Karen Cox (Cadeirydd hyd 30 Medi 2020)** | 3 | 3 | 100% |
| **Syr Hugh Bayley** | 6 | 6 | 100% |
| **Maura Devlin MBE (i 30 Medi 2020)** | 3 | 3 | 100% |
| **Ruth Walker MBE (Cadeirydd o 1 October 2020)** | 5 | 6 | 83% |
| **Dr Lynne Wigens OBE (penodwyd 1 Hydref 2020)** | 2 | 3 | 66% |
| **Anna Walker CB (penodwyd 1 Hydref 2020)** | 3 | 3 | 100% |



## Pwyllgor Buddsoddi

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Buddsoddi yw arolygu gweithredu strategaeth fuddsoddi'r Cyngor a monitro portfolio buddsoddi'r Cyngor. Yn 2020-2021, roedd prif weithgareddau'n cynnwys adolygu'r dimensiwn moesegol o'n polisi buddsoddi a sicrhau bod risgiau buddsoddi oherwydd Covid-19 yn cael eu lliniaru'n effeithiol.

**Roedd aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:**

| Aelod | Nifer o sesiynau a fynychwyd | Nifer o sesiynau cymwys i'w mynychu | % o sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| **Derek Pretty (Cadeirydd)** | 3 | 3 | 100% |
| **Thomasina Findlay** | 3 | 3 | 100% |
| **Nick McLeod-Clarke** | 3 | 3 | 100% |
| **Stephen Thornton CBE (i 30 Medi 2020)** | 1 | 1 | 100% |
| **Claire Johnston** | 3 | 3 | 100% |
| **Sue Whelan Tracy (penodwyd 1 Hydref 2020)** | 2 | 2 | 100% |

## Pwyllgor Llety

Cafodd y Pwyllgor Llety ei sefydlu gan y Cyngor ym Mai 2020 i arolygu gweithredu cynllun llety'r Cyngor o fewn y parametrau ariannol ac eraill a osodwyd gan y Cyngor.

Yn 2020–2021, roedd prif weithgareddau'n cynnwys adolygu ac argymell y Cynllun Llety sefydliadol i'r Cyngor; craffu ar achosion busnes a chymryd adeilad swyddfa newydd ar brydles yng Nghaeredin ac adnewyddu'n prif adeilad yn Llundain.

**Roedd aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb am y cyfnod 20 Mai 2020 i 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:**

| Aelod | Nifer o sesiynau a fynychwyd | Nifer o sesiynau cymwys i'w mynychu | % o sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Philip Graf CBE (i 31 Rhagfyr 2020) (Cadeirydd) | 2 | 2 | 100% |
| Derek Pretty (Cadeirydd o 1 Ionawr 2021) | 3 | 3 | 100% |
| Robert Parry | 3 | 3 | 100% |
| Anna Walker CB* | 3 | 3 | 100% |
| Dr Lynne Wigens OBE (penodwyd 1 Hydref 2020) | 1 | 1 | 100% |

* Mynychodd fel aelod ex officio (yn rhinwedd ei swydd fel darpar aelod o'r Cygnor) hyd 30 Medi 2020, ac o 1 Hydref 2020 fel aelod o'r Cyngor.

## Bwrdd penodiadau

Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau o'r tu allan i'r Cyngor (partner) yn llwyr, wedi'u penodi yn dilyn prosesau recrwitio agored cystadleuol. Cafodd Angie Loveless a Clare Salters eu hailbenodi i wasanaethu am ail dymor o 1 Mawrth 2021. Mae Jane Slatter wedi cael ei hailbenodi i wasanaethau ail dymor fel cadeirydd y Bwrdd Penodiadau o 6 Awst 2021. Mae Robert Allen wedi caeil ei ailbenodii wasanaethu am ail dymor o 1 Hydref 2021.

Cylch gorchwyl y Bwrdd Penodiadau yw cynorthwyo'r Cyngor mewn cysylltiad ag ymarfer unrhyw swyddogaeth ynglŷn â phenodi aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol i'r Pwyllgorau Ymarfer (y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer). Cafodd cylch gorchwyl y Bwrdd ei estyn gan y Cyngor ym Mai 2020 i gynnwys aelodau Panel Apêl Cofrestru.





Yn unol â'r pŵer a roddir gan y rheolau brys a sefydlwyd ym Mawrth 2020, derbyniodd y Cyngor argymhellion y Bwrdd i estyn ail dymor penodiad carfan o aelodau Panel. Roedd hyn yn un o ddau benderfyniad a ymgymerwyd gan y Bwrdd trwy ohebiaeth.

Roedd prif weithgareddau eraill yn 2020-2021 yn cynnwys penodi ac ailbenodi aelodau Panel; cymeradwyo'r rhaglen hyfforddi aelodau Panel ar gyfer 2021-2022; adolygiad o amrywiaeth aelodau Panel a pharatoi ar gyfer proses ddewis ar gyfer aelodau Panel newydd i redeg o Fawrth 2021.

Mae aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 wedi'i amlinellu isod.

| Aelod | Nifer o sesiynau a fynychwyd | Nifer o sesiynau cymwys i'w mynychu | % o sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Jane Slatter (Cadeirydd) | 3 | 3 | 100% |
| Robert Allan | 3 | 3 | 100% |
| Angie Loveless | 3 | 3 | 100% |
| Frederick Psyk | 3 | 3 | 100% |
| Clare Salters | 3 | 3 | 100% |

## Rôl y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn cael ei benodi gan, ac yn atebol i'r Cyngor. Rôl y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain a rheoli materion rheoleiddiol, proffesiynol, busnes a materion ariannol yr NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

Fel y Swyddog Cadw Cyfrifon, mae gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gyfrifoldeb personol dros faterion ynghylch cywirdeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif cywir o faterion ariannol; osgoi gwastraff a gorwario; a'r defnydd effeithiol o adnoddau.

Y Bwrdd Gweithredol yw'r prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau rheoli. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a phob cyfarwyddwr. Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn mynychu. Mae'r bwrdd yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac yn darparu sicrwydd i'r Cyngor trwy: ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes a chyllidebau; sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, cyllid a phobl; ac adnabod a rheoli risg.

Fe wnaethom sefydlu strwythur Gorchymyn Aur ac Arian i ymateb yn gyflym i heriau'r pandemig Covid-19, gyda'r ddau grŵp yn cyfarfod yn ddyddiol i ddechrau ac yna'n wythnosol, yn ôl y gofyn. Roedd yr ymagwedd hon yn effeithiol iawn wrth reoli'r sefyllfa oedd yn newid yn gyflym. Gan ddysgu o'r ymagwedd hon, adolygodd a diwygiodd y Bwrdd Gweithredol ei gylch gorchwyl a symudodd at gyfarfodydd wythnosol o Ionawr 2021.

## Arolygiaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn arolygu ac yn adrodd i'r senedd ar ein gwaith, yn ogystal â rheoleiddwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill.

Ar ddiwedd Mawrth 2021 cyhoeddodd y PSA ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2019–2020. Mae'r PSA wedi adolygu'r Safonau Rheoleiddio Da a ddefnyddir i asesu perfformiad rheoleiddwyr yn flynyddol, gan gynnwys cyflwyno set newydd o Safonau Cyffredinol. Hwn oedd yr adolygiad perfformiad cyntaf a ddefnyddiodd y set newydd o Safonau.

Canfu'r PSA ein bod wedi ateb 17 o'r 18 Safon Rheoleiddio Da. Roedd y Safon na wnaethom ei ateb mewn perthynas ag Addasrwydd i Ymarfer:

- Mae proses y rheoleiddiwr ar gyfer archwilio ac ymchwilio i achosion yn deg, cymesur, yn delio ag achosion mor gyflym â sy'n gyson â datrysiad teg o'r achos ac yn sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau i gyrraedd penderfyniad teg sy'n diogelu'r cyhoedd ar bob cam o'r broses (Safon 15).





Ni wnaethom ateb Safon 15, ynglŷn â symud achosion addasrwydd i ymarfer yn eu blaenau. Mae hyn oherwydd ein bod yn cymryd mwy o amser i symud achosion trwy'n proses addasrwydd i ymarfer ac i gyrraedd casgliadau terfynol ar achosion. Cwestiynodd y PSA hefyd ein hymagwedd at wneud rhai dyfarniadau terfynol ar achosion mewn cyfarfod yn hytrach na gwrandawiad cyhoeddus.

Mae'r canlyniad hwn yn cynrychioli gwelliant o'r canlyniad o'n hadolygiad perfformiad yn 2018–2019, a ganfu nad oeddwm yn ateb dau o'r Safonau Rheoleiddio Da mewn perthynas ag Addasrwydd i Ymarfer, gan gynnwys yr un uchod.

Fe wnaeth y PSA gydnabod y gwelliannau rydym wedi'u gwneud ers adolygiad perfformiad llynedd, a chynhwysodd rai myfyrdodau cadarnhaol ar ein cofrestr dros dro a'r cyflymder y cafodd ei sefydlu ynddo. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddysgu o adolygiadau'r PSA o'n perfformiad.

## Monitro perfformiad ac ansawdd data

Rydym wedi cydosod ein cynllun corfforaethol a chyllideb i'n Strategaeth 2020–2025. Mae'r Cyngor yn monitro'n cynnydd yn erbyn ein cynllun corfforaethol a chyllideb trwy adroddiadau perfformiad chwarterol a gyflwynir mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu diweddariadau yn erbyn ein sylwadau corfforaethol, prif ddangosyddion perfformiad (KPIs), ein cyllideb a buddsoddiadau, a bod yn agored i risg gorfforaethol. Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Gweithredol, mae'r Cyngor yn penderfynu pa wybodaeth perfformiad a data sydd eisiau ei adolygu arno fel y gall wneud penderfyniadau effeithiol am ein perfformiad a bod yn agored i risg. Mae'r Cyngor yn ystyried ansawdd a chynnwys adrodd am berfformiad yn rheolaidd.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system gadarn o reoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'n system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli, yn hytrach na dileu, risg a darparu sicrwydd

rhesymol o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn darparu sicrwydd i'r Cyngor am weithrediad y system o reolaeth fewnol a rheoli risg. Mae'r Cyngor yn ystyried risg gorfforaethol yn chwarterol mewn cyfarfodydd Agored.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau system effeithiol o reoli risg a rheolaeth fewnol ac, ynghyd â'r cyfarwyddwyr, am sicrhau bod y system hon yn cael ei gweithredu ar draws y sefydliad. Maen nhw'n gyfrifol, gyda'r cyfarwyddwyr, am adnabod a mesur y risgiau, gan roi mesurau lliniaru priodol a monitro ac adrodd cynnydd ar waith. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu risgiau corfforaethol yn fisol.

Adolygodd a chymeradwyodd y Cyngor fframwaith rheoli risg wedi'i ddiweddaru yn Ionawr 2021 ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. Cafodd y fframwaith ei ddiweddaru fel rhan o'n gwaith gwella risg (y gwnaethom ei ddechrau yn 2019) i ailddatgan prif rolau a chyfrifoldebau, i egluro'n gweithdrefn rheoli risg, ac i gadarnhau ein gweithdrefn adrodd i fyny. Mae'r fframwaith yn darparu'r sylfeini ar gyfer ein rhaglen addysg risg i gydweithwyr a ddechreuodd yn 2020, ac sy'n parhau i gael ei ddatblygu a'i weithredu.

Yn 2021–2022 byddwn yn cynllunio fframwaith o sicrwydd risg, sy'n dwyn dirnadaethau ynghyd o'n holl ffynonellau sicrwydd.

## Sicrwydd

**Mae'n system o reolaeth fewnol yn cynnwys:**

- Rhaglen eang o hyfforddiant, cyflwyno, arfarniadau a hyfforddi i sicrhau bod gan ein cydweithwyr y sgiliau, gwerthoedd a phrofiad cywir ar gyfer eu rolau.
- Monitro ac adrodd eang i olrhain ein perfformiad, bod yn agored i risg, ansawdd, data, a rhagolygon cyllideb.
- Cynlluniau manwl o ddirprwyo ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Mecanweithiau rheoli mewnol fel polisïau wedi'u dogfennu a gweithdrefnau gweithredu safonol, cytundebau lefel gwasanaeth, mynediad cyfyngedig ar systemau, dyletswyddau wedi'u gwahanu, gwybodaeth am reoli, gwirio ansawdd yn rheolaidd, adrodd am ddigwyddiadau, a chynllunio parhad busnes.



- Prosesau wedi'u sefydlu ar gyfer dysgu fel cwynion cwsmeriaid adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, archwiliadau mewnol ac allanol, adolygiadau sicrwydd ansawdd, a logiau dysgu.
- Mecanweithiau cynllunio fel cynlluniau busnes, achosion busnes rhaglen a phrosiect, amcanion personol, a chynlluniau gwella.

**Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol amr:**

- Sicrhau bod y cynllun gwaith archwilio mewnol blynyddol a gwaith sicrwydd ansawdd mewnol arall yn cydredeg ac wedi'i ganolbwyntio ar feysydd o wendid rheoli mewnol posibl.
- Golygu perfformiad ein portffolio newid strategol ochr yn ochr â'n cofrestr risg gorfforaethol bob mis.
- Ymgymryd ag asesiad blynyddol o effeithiolrwydd rheoli risg a threfniadau rheoli mewnol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.

Rydym yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ein hamgylchedd rheoli mewnol a rheoli risg. Daeth adolygiad 2020-2021 i'r casgliad fod gennym sicrwydd rhesymol fod ein hamgylchedd rheoli mewnol yn gweithredu'n ddigonol ar lefel gorfforaethol a chyfarwyddiaeth.

Mae angen rhagor o waith i gryfhau a safoni'n hymagwedd ar draws pob cyfarwyddiaeth yn seiliedig ar ein fframwaith rheoli risg wedi'I ddiweddaru. Yn 2021–2022, bydd cyfarwyddiaethau'n cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau rheoli risg, yn ogystal â safoni eu mesurau risg a rheolaeth fewnol.

## Prif faterion a risgiau

### Pandemig Covid-19

Pan gymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth ar gyfer 2020–2025 a'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2021, cydnabu y byddai'r pandemig Covid-19 yn cael effaith ar y cyflymder y byddem yn gallu dwyn ein huchelgeisiau ymlaen ynddo ac yn gofyn i ni ailflaenoriaethu rhai gweithgareddau. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2019-2020 ac effaith y pandemig Covid-19 yn cael ei adnabod fel prif fater ar gyfer 2020–2021. Yn 2020–2021 fe wnaethom ailflaenoriaethu'n gwaith i ymateb i'r argyfwng gyda'r canlyniad i ni oedi neu ailamserlennu nifer o'n hymrwymiadau corfforaethol ar gyfer 2020–2021. Fe wnaethom hefyd ailgynllunio amseru prif weithgareddau o fewn ein rhaglen pum mlynedd.

Yn ganolog i'n penderfynu roedd yr angen i sicrhau y gallem reoleiddio'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn ddiogel ac yn deg wrth iddynt ymarfer mewn amgylchiadau eithriadol, er yn cynnal ein galluedd i ddarparu gwasanaethau yn rhithiol ac i ddiogelu cydweithwyr NMC. Fel y manylir yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad, fe wnaethom ddefnyddio'r pwerau brys a roddwyd i ni i roi nifer o fesurau ar waith i gynorthwyo galluedd y gweithlu sector iechyd a gofal.

Fe wnaethom weithredu'n cynlluniau parhad busnes mewnol i weithredu'n amrywiol i leihau tarfu gan gynnwys sefydlu strwythur Aur ac Arian; cynorthwyo'r holl gydweithwyr i weithio o gartref a galluogi'n canolfan gyswllt i weithredu'n rhithiol; ac ymgysylltu a chyfathrebiadau cryf mewnol ac allanol i ddarparu cyngor clir a chryno.

Bydd yr effaith ar ein strategaeth yn parhau i gael ei rheoli i mewn i 2021–2022, gan sicrhau y bydd ein penderfyniadau a gweithredoedd yn aros yn gyson ag anghenion y sector wrth iddo adfer o'r pandemig.

Megis ar gyfer pob sefydliad, cyflwynodd Covid-19 risg sylweddol i lesiant cydweithwyr. Fe wnaethom gymryd nifer o weithredoedd i sicrhau ein bod yn cefnogi llesiant, fel darparu adeiladau Covid-ddiogel i'r rheini a'i chafodd hi'n anodd i weithio o gartref; partneru â Thrive i ddarparu mynediad i ap cefnogi iechyd meddwl; a hyrwyddo'n Rhaglen Cymorth Cyflogeion i gydweithwyr.

Yn erbyn cefnlen y pandemig Covid-19 rheolodd y sefydliad ddwy brif risg yn ystod 2020–2021:

**Llwyth achosion addasrwydd i ymarfer**

**Disodli systemau TG wedi mynd allan o ddyddiad**

Cafodd y ddwy risg hyn eu rhag-weld yn ein Hadroddiad Blynyddol 2019–2020 a helpodd y gweithredoedd lliniaru a gafodd eu hadnabod i leihau effaith y risgiau hyn.



Datganiad llywodraethiant blynyddol

### Llwyth achosion addasrwydd i ymarfer

Roedd llwyth ein hachosion addasrwydd i ymarfer wedi bod yn cynyddu cyn y pandemig. Roedd hyn yn rhannol oherwydd effaith ffyrdd newydd wedi'u canoli ar yr unigolyn o weithio yn codi o'n hymagwedd newydd, strategol at addasrwydd i ymarfer oedd yn cymryd rhagor o amser, ac yn rhannol oherwydd swyddi gwag mewn timau allweddol, fel sgrinio ac ymchwiliadau. Er bod mesurau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, cyn i'r buddion ddechrau cael effaith, gwaethygodd dyfodiad y pandemig y sefyllfa.

Fe wnaethom flaenoriaethu achosion addasrwydd i ymarfer risg uchel ac oedi ymchwiliadau ar achosion addasrwydd i ymarfer eraill yn ystod ton gyntaf y pandemig. Er i ni ailgydio yn yr holl waith achosion yng Ngorffennaf 2020 a gwrandawiadau yn y cnawd ym Medi 2020, parhaodd yr ôl-groniad i dyfu.

Rydym yn cydnabod bod mynd i'r afael ag ôl-groniad achosion addasrwydd i ymarfer yn hanfodol os ydym i gyflawni'n dyletswyddau rheoleiddiol â hyder y cyhoedd, y rheini ar ein cofrestr a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Rydym yn deall yr effaith mae oediadau yn hynt achosion addasrwydd i ymarfer wedi cael ar iechyd a llesiant pawb yn ymwneud â hwy ac rydym yn benderfynol o leihau'r rhain cyn belled â phosibl tra'n cadw ansawdd ein penderfyniadau.

Fe wnaethom ddatblygu rhaglen adfer a gwella addasrwydd i ymarfer tuag at ddiwedd 2020 i leihau'r ôl-groniad ac i wneud y gorau o'n prosesau addasrwydd i ymarfer. Fe wnaethom ddechrau gweithredu'r rhaglen yn gynnar yn 2021.

### Lliniaru yn 2021–2022

Byddwn yn parhau i weithredu'n rhaglen adfer addasrwydd i ymarfer a monitro cynnydd yn agos; bydd yn aros yn brif flaenoriaeth yn ystod 2021–2022 ac mae'n un o ymrwymiadau'n cynllun corfforaethol.

Oherwydd ansicrwydd ynghylch y lefel o adnoddau sydd ei hangen i ddod â'r llwyth achosion yn ôl I lawr i lefelau optimwm, bydd cyllideb wedi'i diweddaru ar gyfer 2021–2022 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo ym Medi 2021, pan fydd graddau'r risg yn eglurach.

### Sefydlogrwydd ein hisadeiledd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae effeithiolrwydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn alluogwr creiddiol i ddarparu'n strategaeth a darparu gwasanaethau effeithiol i'n rhanddeiliaid. Ers Awst 2018, rydym wedi bod yn ymgymryd â rhaglen foderneiddio i sicrhau bod ein technoleg yn effeithiol ac yn addas i'r pwrpas.

Yn 2019–2020 a 2020–2021, effeithiodd gorwariannau ar gyllideb ac oediadau o fewn ein rhaglen foderneiddio ar ein gallu i ddarparu'r rhaglen hon.

Yn 2020 fe wnaethom gomisiynu adolygiad allanol i adnabod lle gallem wella'n rheolaeth o'r rhaglen. Rydym yn mynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad allanol ar gyfer gwella, gan gynnwys cynllunio'r cam nesaf yn ofalus, egluro cwmpas, cynyddu rheolaethau rheoli cost a chryfhau'n trefniadau llywodraethiant.

Cafodd cynllunio ar gyfer cam nesaf y rhaglen ei gwblhau a chymeradwyodd y Cyngor yr achos busnes yn Ionawr 2021. Rydym yn parhau i weithredu a sefydlu'r gwelliannau a argymhellwyd gan yr adolygiad allanol.

### Lliniaru yn 2021–2022

Mae'n dibyniaeth barhaol ar hen systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi dyddio yn dal yn brif risg yn 2021–2022, y byddwn yn ei lliniaru trwy weithredu'n rhaglen foderneiddio ymhellach.

Ym Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau technoleg gwybodaeth i gynorthwyo'r gwaith hwn fel rhan o'r cynllun corfforaethol a chyllideb ar gyfer 2021–2022.

Bydd y Cyngor yn parhau i dderbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y rhaglen yn 2021–2022, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, amserlen gyffredinol a chyflawni cerrig milltir allweddol.



Datganiad llywodraethiant blynyddol

### Risgiau eraill

Yn ogystal â'r meysydd risg hyn, adnabu ein Hadroddiad Blynyddol 2019-2020 ddiwygio rheoleiddiol hefyd ac ymadawiad y DU â'r UE fel meysydd ffocws rheoli risg ar gyfer 2020-2021. Er bod y rhain yn dal yn feysydd ffocws pwysig, nid ydynt wedi bod mor arwyddocaol â'r meysydd eraill a gafodd eu hadnabod, yn rhannol oherwydd effaith ein gweithredoedd lliniaru ac, ar gyfer diwygio rheoleiddiol, yn rhannol oherwydd fframiau amser y llywodraeth ar gyfer y gwaith hwn yn dod yn eglurach yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion ar ein gweithgaredd ynghylch y meysydd hyn i'w canfod yn adran adolygu Perfformiad yr adroddiad.

## Datgeliadau budd cyhoeddus (chwythu chwiban)

Mae'n polisi Chwythu Chwiban yn annog cydweithwyr ac eraill sy'n gweithio i, neu gyda ni, i siarad os ydynt yn gweld rhywbeth o'i le. Rydym yn adolygu'r polisi yn rheolaidd ac wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r polisi wrth ei hyrwyddo trwy friffiadau rheolwyr a chyfathrebiadau mewnol eraill.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad ar chwythu chwiban ym mhob cyfarfod. Nid oedd achlysuron pan ddefnyddiodd pobl y polisi Chwythu Chwiban i godi pryderon yn 2020–2021 (2019–2020: pump).

O'r pum pryder a godwyd yn ystod 2019–2020, deliwyd â'r cwbl a'u cau erbyn Tachwedd 2020, a dygwyd gweithredoedd yn codi (o dri o'r pryderon) ymlaen fel rhan o ddarnau ehangach o waith.

Roedd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn ystod 2019–2020 yn gymysgedd o gwynion mewnol, materion cwyno posibl a phryderon ehangach am Adnoddau Dynol/materion perthynol i bobl. Mae un, ynglŷn â chymhwyso anghyson posibl gofynion ar gyfer mynediad i'r gofrestr, yn cael ei ddatrys trwy welliant i'n cyfarwyddydd a gwybodaeth.

Fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad o'n polisi Chwythu Chwiban, gan ystyried adborth a dderbyniwyd o sesiynau hyfforddi blaenorol. Cafodd y polisi wedi'i ddiweddaru ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio yn Nhachwedd 2020 a'i rannu â staff trwy gyfathrebiadau mewnol. Fe wnaethom redeg dosbarth meistr i staff allweddol sy'n ymwneud â chwythu chwiban ym Mawrth 2021.

## Diogelu ac amddiffyn pobl

Mae'n polisi Diogelu ac Amddiffyn Pobl rhag Niwed yn canolbwyntio ar rôl cydweithwyr mewn adnabod a rheoli pryderon allanol y gallant ddod yn ymwybodol ohonynt ac, yn fewnol, ar amddiffyn cydweithwyr rhag camdriniaeth ac aflonyddu. Mae gennym gyfarwyddyd ategol a gweithdrefn weithredu safonol i gyflogeion eu dilyn. Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar weithredu'r polisi i'r Cyngor.

Fe wnaethom gyflwyno rhagor o gyfathrebiadau codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad yn Nhachwedd 2020 i annog dealltwriaeth o'n proses diogelu. Fel rhan o hyn, cafodd cydweithwyr eu hannog i ddarllen y polisi, cyfarwyddyd a gweithdrefn weithredu safonol newydd ac i ymgymryd â'r e-ddysgu. Rydym hefyd wedi gwella'n cofnodi o bryderon diogelu a derbyniodd ein harweinydd diogelu adroddiad misol yn ystod y flwyddyn, sy'n broses newydd.

Roedd nifer trawiadol o uwch o bryderon diogelu a gafodd eu hadnabod eleni: fe wnaethom gofnodi 52 eleni o gymharu â 14 yn 2019-2020. Roedd tua 71 y cant o'r 52 o bryderon ynghylch pobl yn cymryd rhan yn ein proses Addasrwydd i Ymarfer. Mae'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn creu llawer o ryngweithio rhwng ein cyflogeion a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr,y cyhoedd a chyflogwyr sydd yn ei dro yn cyflwyno llawer o sefyllfaoedd lle gallem adnabod pryderon diogelu.

Fe wnaethom weithredu'n briodol i fynd i'r afael â'r 52 pryder. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn cynnwys darparu cymorth priodol i'r unigolyn, tra mewn achosion eraill roeddem yn fodlon fod gan yr unigolyn gymorth yn ei le eisoes a gwnaethom eu cyfeirio at elusen briodol neu benderfynu nad oedd angen gweithredu ychwanegol gennym ni. Mewn 20 o'r 52 achos, fe wnaethom atgyfeiriad i gorff allanol fel yr heddlu neu awdurdod diogelu lleol fel y gallent wneud ymyriad mwy priodol. Fe wnaethom farnu bod un achos yn ddigon difrifol i'w adrodd i'r Comisiwn Elusennau, yn unol â'n rhwymedigaethau fel elusen gofrestredig. Ni ofynnodd am unrhyw weithredu ychwanegol oddi wrthym ac roedd ganddynt hyder ein bod yn trafod y mater yn briodol.

Fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad mewnol gwersi a ddysgwyd ar y pryder a adroddwyd i'r Comisiwn Elusennau. Adnabu'r dysgu yr angen am hyfforddiant a chyfarwyddyd ychwanegol i gynorthwyo timau achos mewn gwneud penderfyniadau am ddiogelu, cysylltu â'r heddlu ac mewn rhannu gwybodaeth diogelu yn sensitif. Mae'r dysgu hwn yn cael ei ymgorffori i mewn i'n cynllun gweithredu diogelu corfforaethol.

Yn Awst 2020,fe wnaethom gynhyrchu protocol newydd 'Risg hunanladdiad a hunan-niweidio' i gydweithwyr i'w dilyn mewn achosion lle yr ymddangosai unigolion i fod mewn perygl o hunan-niweidio. Cafodd y protocol ei deilwra i gydweithwyr a phrosesau Rheoleiddio Proffesiynol; cafodd rheolwyr eu cynorthwyo i drafod y protocol â'u timau. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth trwy gyfathrebiadau mewnol, a byddwn yn sicrhau bod y protocol yn cael ei sefydlu i'n prosesau.

Mae 615 o gyflogeion wedi ymgymryd â'n e-ddysgu diogelu (299 ar Fawrth 2020). Ni wnaethom redeg unrhyw hyfforddiant wyneb yn wyneb ychwanegol yn 2020–2021 gan fod ein ffocws wedi cael ei ddargyfeirio i ymateb i'r pandemig. Yn 2021–2022, byddwn yn rhedeg hyfforddiant ychwanegol ac yn annog pawb i gwblhau'r e-ddysgu. Rydym yn gwybod bod rhagor mae angen i ni ei wneud i wella'n proses diogelu. Fe wnaethom gychwyn adolygiad sicrwydd ansawdd yn chwarter pedwar 2020–2021 i asesu sut mae'n proses diogelu'n gweithio. Bydd hyn yn egluro ymhellach beth sy'n rhaid i ni ei wneud i wella, a bydd y canlyniadau hyn yn bwydo i mewn i'n cynllun diogelu corfforaethol ar gyfer 2021–2022.

Datganiad llywodraethiant blynyddol

## Llywodraethiant gwybodaeth a llthriadau mewn diogelwch amddiffynnol

Rydym yn parhau i gydosod diogelwch ein gwybodaeth â ISO 27001, y safon diogelwch gwybodaeth rhyngwladol. .

Mae digwyddiadau'n cael eu hadrodd, rheoli ac ymchwilir iddynt yn unol â'n proses Adrodd Digwyddiad Difrifol (SER) lle mae dysgu ac argymhellion i wella yn cael eu hadnabod.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r nifer o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn 2020–2021, gyda ffigurau 2019–2020 yn cael eu dangos at ddibenion cymharu. O'r 57 o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth a gofnodwyd yn 2020–2021, roedd 44 yn ddatgelu data heb ei awdurdodi (toriadau data). Rydym yn meddwl ei bod yn debygol fod y gostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd gostyngiad dros dro yn swm gwaith achosion addasrwydd i ymarfer ar ddechrau'r pandemig Covid-19 ac i'r newid i ffwrdd o weithio'n seiliedig ar bapur tra'n gweithio o gartref yn ystod y pandemig. Byddwn yn parhau i fonitro'r nifer a'r mathau o ddigwyddiadau wrth i'r sefydliad ddychwelyd i weithio yn ein swyddfeydd.

| | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|
| **Argyfyngus** | 0 | 0 |
| **Mawr** | 0 | 2 |
| **Canolig** | 26 | 31 |
| **Mân** | 31 | 65 |
| **Cyfanswm** | **57** | **98** |

Yn 2020–2021 fe wnaethom adrodd ar un toriad data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (2019–2020: dau). Nid yw'r ICO wedi gweithredu'n rheoleiddiol mewn perthynas â'r toriad.



## Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd

Ni chafodd enghreifftiau o dwyll gwirioneddol neu a amheuwyd eu darganfod yn 2020–2021 (2019–2020: dim). Mae hyfforddiant gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo yn orfodol i bob cyflogai newydd. Mae cydweithwyr yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi pob dwy flynedd.

Yn 2020–2021 fe wnaethom weithredu prosesau archwilio cefndir recriwtio ychwanegol ar gyfer rolau allweddol lle mae risgiau twyll, llwgrwobrwyo a llygredd o bosibl yn uwch, er enghraifft, o fewn y tîm cyllid.

Mae polisi rhoddion a lletygarwch ar waith i aelodau'r Cyngor, aelodau partner a chydweithwyr sy'n cynorthwyo ymarfer da yn y maes hwn. Mae negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon am bwysigrwydd glynu at y polisi. Mae cofrestr o bob rhodd a lletygarwch a dderbynnir neu a wrthodir yn cael ei chynnal.

## Caethwasiaeth fodern

Ni chafodd materion caethwasiaeth fodern eu hadnabod yn ystod y flwyddyn (2019–2020: dim).

Yn unol â gofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, fe wnaethom ddiweddaru a chyhoeddi'n Datganiad Caethwasiaeth Fodern ym Mai 2021.

Mae gan bob cydweithiwr fynediad at ein modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern sy'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ledled y sefydliad.

Rydym yn parhau i sefydlu'n polisi caffael, sef defnyddio cytundebau fframwaith cenedlaethol wedi'u sefydlu'n dda lle bynnag y bo'n bosibl. Mae cyflenwyr ar y fframweithiau hyn wedi bod yn destun gwiriadau diwydrwydd dyledus manwl. Yn  ogystal, mae gennym ein proses sicrwydd cyflenwyr ein hunain ar waith sy'n gofyn i'n cyflenwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch eu safbwynt ar gaethwasiaeth fodern ac sy'n cael ei asesu am risg yn briodol.

## Adrodd am ddigwyddiadau mewnol – Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol

Yn fewnol, rydym yn adrodd am unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau trwch blewyn lle mae pethau wedi mynd o'u lle. Mae'r rhain yn cael eu hymchwilio o dan ein proses adolygiadau digwyddiadau difrifol (SER) i adnabod dysgu a rhoi mesurau ar waith i atal ailddigwydd. Mae themâu a dysgu o SERau yn cael eu hadrodd i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn chwarterol.

Yn ystod 2020–2021, cafodd cyfanswm o 142 o ddigwyddiadau corfforaethol a digwyddiadau trwch blewyn eu hadrodd (2019–2020: 179). O dan ein proses adrodd digwyddiadau rydym yn gwahaniaethu rhwng Digwyddiadau Anffafriol (AIs) a Digwyddiadau Difrifol (SEau) ar sail difrifoldeb y digwyddiad. Mae digwyddiadau'n cael eu dosbarthu fel AIau pan fydd ganddynt effaith leiaf ar ein sefydliad a'n gwaith, er eu bod yn dal i ddarparu dysgu gwerthfawr i ni. Rydym yn dosbarthu fel SEau digwyddiadau sy'n cael effaith, wirioneddol neu â'r potensial, mwy difrifol ar ein sefydliad a'n gwaith. O'r 142 o ddigwyddiadau corfforaethol a adroddwyd yn 2020–2021, cafodd 52 eu dosbarthu'n SEau (2019–2020: 49), tra bod y 90 arall yn AIau (2019–2020: 130).

Rydym wedi parhau i wneud newidiadau a gwelliannau o ganlyniad i ddysgu o gwynion ac mae hyn wedi cynnwys cryfhau proses ac arolygu gan reolwyr. Rydym yn sefydlu newidiadau i'r broses SER i ddarparu ar gyfer rhannu dysgu ar draws y sefydliad.

## Adrodd am ddigwyddiad difrifol/ digwyddiad hysbysadwy

Mae materion sy'n gofyn am adrodd i'r Comisiwn Elusennau/OSCR yn cael eu hadnabod trwy nifer o lwybrau: gan gynnwys y polisi a phroses Adolygiad Digwyddiad Difrifol, a thrwy'r polisïau a phrosesau Chwythu Chwiban; Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd; a Diogelu. Yn unol â chyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau/OSCR, lle rydym yn adnabod mater mae caniatâd yn cael ei geisio gan y Cyngor, fel ymddiriedolwyr i adrodd i'r Comisiwn Elusennau/OSCR, neu os oes angen adrodd ar fwy o frys, mae caniatâd yn cael ei geisio gan y Cadeirydd neu Gadeirydd Dro a'r Cyngor yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl.



Fel y dangoswyd yn gynharach, fe wnaethom adrodd un digwyddiad difrifol yn codi o fater diogelu i'r Comisiwn Elusennau yn 2020–2021 (2019–2020: un). Roedd y Comisiwn yn fodlon fod y Cyngor yn ymdrin â'r mater yn briodol ac yn gyfrifol.

## Pwyllgor Archwilio

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynghori'r Cyngor ar gryfder y sicrwydd sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor wedi croesawu presenoldeb yr Archwilwyr Mewnol, yr Archwilwyr Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn ei gyfarfodydd, ac yn unol ag ymarfer da, wedi cynnal cyfarfodydd preifat â phob un ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn.

**Roedd materion yr ymdriniodd y Pwyllgor â hwy yn cynnwys:**

- sicrhau bod ein prosesau archwilio a risg wedi'u rheoli'n briodol, gan liniaru a chymryd effaith y pandemig Covid-19 i ystyriaeth.
- adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol, ac argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiadau hynny. Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiadau gan yr Archwilwyr Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd, ac ymatebion y Bwrdd Gweithredol i argymhellion a gafodd eu gwneud gan yr archwilwyr.
- adolygu polisïau cadw cyfrifon ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2021.
- adolygu rheoli risg a threfniadau sicrwydd, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y cynllun gwella rheoli risg, oedd yn cynnwys datblygu'n fframwaith rheoli risg a'n fframwaith sicrwydd risg.
- ymgymryd ag adolygiadau cynhwysfawr o'r risgiau, lliniariadau a ffynonellau sicrwydd mewn perthynas â gwaith craidd fel rhai'r Cwnsler Cyffredinol.
- adolygu digonolrwydd rheolaethau mewnol a sicrwydd perthynol. Roedd gan y Pwyllgor arolygiaeth agos o wytnwch busnes Technoleg Gwybodaeth a chynyddodd ei ffocws ar y rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg. O ystyried pwysigrwydd a graddfa'r prosiect hwn, cytunwyd y byddai arolygiaeth o'r gwaith hwn yn cael ei gadw gan y Cyngor o Chwefror 2021 ymlaen.

- adolygu gwaith yr ymgymerwyd ag ef ar fapio sicrwydd ein prosesau addasrwydd i ymarfer yn erbyn Safonau Rheoleiddio Da y PSA ac argymhellion *Lessons Learned Review y PSA*
- ystyried diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Ariannol i'w cymerdawyo gan y Cyngor.
- cymerdawyo'r cynllun gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2020–2021, adolygu canlyniadau adroddiad archwiliad mewnol ac arolygu gweithredu i symud cau argymhellion archwilio mewnol sy'n sefyll ymlaen.
- adolygu'r prosesau tendro ar gyfer archwilwyr mewnol ac allanol.
- adolygu digwyddiadau difrifol a thoriadau data, i sicrhau rhannu a gweithredu dysgu sefydliadol i atal ailddigwydd.
- adolygu gweithredoedd tendro unigol a cheiso sicrwydd bod prosesau caffael cywir yn cael eu dilyn gan y Bwrdd Gweithredol a bod modd cyfiawnhau unrhyw weithredoedd tendro unigol.
- monitro'r gweithrediad a'r defnydd o bolisïau mewnol Chwythu Chwiban a Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo, a Llygredd i gael sicrwydd fod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn cael eu hymchwilio'n drwyadl a bod unrhyw weithredu a dysgu yn cael eu dwyn ymlaen.

## Barn flynyddol archwiliad mewnol 2020–2021

Cafodd deg aseiniad archwilio mewnol, gan gynnwys y rheini y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol, eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio. Cafodd yr holl argymhellion archwiliad mewnol eu derbyn ac maen nhw naill ai wedi cael eu hateb neu'n cael eu gweithredu, â diweddariadau i'r Pwyllgor Archwilio. Sicrhaodd yr archwiliad mewnol weithredu argymhellion o'r archwiliadau. Ac eithrio chwech gweithred blaenoriaeth ganolig ac isel, mae'r holl argymhellion le mae gweithredu wedi bod yn ddisgwyliedig yn y cyfnod wedi cael eu gweithredu. Amlygodd y dilyniant o weithredoedd a argymhellwyd o flynyddoedd blaenorol gynnydd da hefyd mewn rhoi'r gweithredoedd cytunedig hyn ar waith.



Datganiad llywodraethiant blynyddol

## Barn Pennaeth Archwilio Mewnol yw:

> Mae gan y sefydliad **fframwaith** digonol ac effeithiol ar **gyfer** rheoli risg, *llywodraethiant* a rheolaeth fewnol

"Fodd bynnag, mae'n gwaith wedi adnabod gwelliannau ychwanegol i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn aros yn ddigonol ac effeithiol"

Prif heriau a amlygwyd i'r dyfodol oedd: datblygu parhaol yn y gyfarwyddiaeth Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol a gafodd ei sefydlu yn 2020–2021; ac effaith barhaol Covid-19 yn berthynol i ddyletswyddau rheoleiddiol, i gydweithwyr NMC ac i weithredoedd, fel yr ôl-groniad addasrwydd i ymarfer.

## Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd llywodraethiant a sicrwy

Fel Cadeirydd y Cyngor a Swyddog Cadw Cyfrifon, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd y llywodraethiant, rheoli risg a rheolaethau mewnol.

Wrth gyrraedd ein hasesiad, rydym wedi dibynnu ar dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys barn ac adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol; yr asesiad corfforaethol o ansawdd rheolaethau a sicrwydd ar waith mewn cyfarwyddiaethau ac adolygiad blynyddol effeithiolrwydd rheoli risg. Rydym hefyd wedi dibynnu ar Adroddiad Barn a Chanfyddiadau Archwiliad ein harchwilwyr allanol; ac Adroddiad Cwblhau Adroddiad a Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

At ei gilydd, rydym yn ystyried bod sicrwydd rhesymol fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer llywodraethiant a rheoli risg. Rydym yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â, a chryfhau ein rheolaethau mewn perthynas â'n prosesau Dysgu a Datblygu a Chadw, ac i gynnal lefel uchel o graffu ar aderiad ein llwyth achosion Addasrwydd i Ymarfer a symud y rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau technoleg yn ei blaen.

**Syr David Warren**
Cadeirydd
9 Gorffennaf 2021

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
9 Gorffennaf 2021

# Adroddiad yr archwiliwr

annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth





## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

**Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:**

- yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion yr elusen ar 31 Mawrth 2021 ac o symudiad net yr elusen mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; a
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 a Deddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006.

### Sail ar gyfer y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44 (1) (c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith oddi danynt. Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol

yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i berfformio, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r cynllun strategol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynghylch sicrwydd arnynt.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os ydym yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall. Os ydym, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.



### Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion dilynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd wrthych os, yn ein barn ni:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol yr elusen yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- na wneir datgeliadau penodol o dâl ymddiriedolwyr a bennir gan y gyfraith; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

### Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr (Cyngor) am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen, neu eu bod heb ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Adroddiad yr archwiliwr

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn sylweddol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu yn gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau yn ymwneud â gofynion rheoliadol y Comisiwn Elusennau a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac fe wnaethom ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Fe wnaethom hefyd ystyried y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol megis Deddf Elusennau 2011, a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (SORP).

Fe wnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd rheolwyr ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau), a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n gysylltiedig â phostio posibl o gofnodion amhriodol mewn cyfnodolion a thuedd reoli mewn rhai meysydd o amcangyfrifon y rheolwyr. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:

- Arolygu gohebiaeth â rheoleiddwyr ac awdurdodau treth;
- Trafodaethau gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoleiddio a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau rheolwyr sydd wedi'u cynllunio i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cyfnodolion, yn arbennig cofnodion mewn cyfnodolion sydd wedi'u postio â chyfuniadau cyfrifon anarferol, postiadau gan ddefnyddwyr anarferol neu gyda disgrifiadau anarferol; a
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wneir gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu beirniadol

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

### Defnydd o'n hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem nodi i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu nodi iddynt yn yr adroddiad Archwilydd ac nid at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw ymddiriedolwyr yr elusen fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

**Haysmacintyre LLP**
Archwilydd Statudol
12 Gorffennaf 2021

10 Queen Street Place
London
EC4R 1AG

Adrpddiad yr archwiliwr

# Tystysgrif ac Adroddiad

## y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd



### Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

**Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:**

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd oddi tano; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, Deddf Elusennau 2011 a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

### Barn am reoleidd-dra

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen,

## Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISA) (DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwiliwr er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau a restrir. Rwyf yn annibynnol ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau i fod yn fusnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ynghylch busnes gweithredol yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.





## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif i fel archwiliwr arnynt. Y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth i a gafwyd yn yr archwiliad neu a yw'n ymddangos fel arall fel camddatganiad o bwys. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Gwybodaeth Arall

### Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd wrth gynnal yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a wnaethpwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol;

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Ac ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'i gyd-destun a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi dan Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 roi adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- os yw'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon, mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.
- asesu gallu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fo'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd un ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.



## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol o ran a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a bernir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Mae fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth mewn perthynas â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n ymwneud â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.



Tystysgrif ac Adroddiad

- trafod ymysg y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, a phostio cofnodion anarferol mewn dyddlyfrau; a
- chael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a Chyfraith Gyflogaeth.

**Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:**

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- archwilio gohebiaeth â rheoleiddwyr ac awdurdodau treth;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth roi sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; ac
- wrth roi sylw i'n sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra, ystyried unrhyw daliadau arbennig a wnaed yn ystod y flwyddyn, unrhyw drefniadau oddi ar y gyflogres, adolygu papurau a chofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio ac adolygiad cymharol cyffredinol o'r flwyddyn gyfredol gyda'r flwyddyn flaenorol.



Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio elfennau o bwys, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol
14 Gorffennaf 2021

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP



Tystysgrif ac Adroddiad

# Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Dod i Ben 31 Mawrth 2021



## Datganiad gweithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Note | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o:** | | | |
| Weithgareddau elusennol: | | | |
| Ffïoedd | 2 | 90,778 | 88,450 |
| Buddsoddiadau ac incwm arall | 3 | 1,227 | 1,389 |
| **Cyfanswm** | | **92,005** | **89,839** |
| **Gwariant ar:** | | | |
| Codi arian | 4 | (40) | 0 |
| Gweithgareddau elusennol | 5 | (81,520) | (82,349) |
| **Cyfanswm** | | **(81,560)** | **(82,349)** |
| **Incwm net** | | **10,445** | **7,490** |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill:** | | | |
| Ennill Actiwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 18 | 176 | 1,705 |
| Ennill ar fuddsoddiadau | 13 | 1,125 | 0 |
| **Symudiad net mewn cyllid** | | **11,746** | **9,195** |
| **Cysoni cronfeydd:** | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygir ymlaen | | 57,527 | 48,332 |
| **Cyfanswm cronfeydd a ddygir ymlaen** | | **69,273** | **57,527** |

Mae'r holl gronfeydd yn anghyfyngedig yn y blynyddoedd ariannol presennol a blaenorol. Roedd yr holl weithgareddau a adlewyrchwyd yn y ddau gyfnod uchod yn deillio o weithrediadau parhaol. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig yn cael eu cynnwys yn y datganiad uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 148 i 174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyns.

## Mantolen ar 31 Mawrth 2021

| | Sylwch | Ar 31 Marwth 2021 £'000 | Ar 31 Marwth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog :** | | | |
| Asedau diriaethol | 11 | 27,730 | 26,541 |
| Buddsoddiadau | 13 | 31,281 | 0 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **59,011** | **26,541** |
| **Asedau presennol:** | | | |
| Dyledwyr | 14 | 4,022 | 2,744 |
| Buddsoddiadau | 13 | 54,244 | 63,915 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 13,668 | 33,067 |
| **Cyfanswm asedau presennol** | | **71,934** | **99,726** |
| **Dyledion:** | | | |
| Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn | 15 | (56,425) | (54,365) |
| **Cyfanswm dyledion presennol** | | **(56,425)** | **(54,365)** |
| **Asedau net presennol** | | **15,509** | **45,361** |
| **Cyfanswm asedau llai dyledion presennol** | | **74,520** | **71,902** |
| Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nac un flwyddyn | 16 | (135) | (299) |
| Darpariaethau ar gyfer dyledion | 17 | (1,957) | (2,454) |
| **Asedau net ac eithrio dyled pensiwn** | | **72,428** | **69,149** |
| Dyled cynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 18 | (3,155) | (11,622) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **69,273** | **57,527** |
| **Cronfeydd yr NMC** | | | |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | **69,273** | **57,527** |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **69,273** | **57,527** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 148 i 174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyns.

**Syr David Warren**
Cadeirydd
9 Gorffennaf 2021

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
9 Gorffennaf 2021



## Datganiad o lifau arian ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021

| | Note | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | | | |
| **Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu** | | | **5,194** | | **9,972** |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Llog o adneuon banc | 3 | 355 | | 953 | |
| Buddsoddi arian – buddsoddiadau asedau sefydlog | 13 | (30,000) | | 0 | |
| Buddsoddi arian – adneuo tymor hir | 13 | (7,926) | | (343) | |
| Prynu eiddo, peirianwaith a chyfarpar | 11 | (4,464) | | (8,731) | |
| **Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | | **(42,190)** | | **(8,121)** |
| **Newid mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian yn y cyfnod adrodd** | | | **(36,996)** | | **1,851** |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | | **76,546** | | **74,695** |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddiwedd y flwyddyn** | | | **39,550** | | **76,546** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 148 i 174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyns.

## Cysoni incwm net i lifau arian net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm net o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | 10,445 | 7,490 |
| Llog o adneuon banc | (355) | (953) |
| Difidendau a llog a enillwyd yn eich portffolio buddsoddi | (196) | 0 |
| Taliad rheoli buddsoddiad | 40 | 0 |
| Taliadau dibrisiant | 3,273 | 1,564 |
| Colled ar gael gwared â chyfarpar | 1 | 311 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | (1,278) | 1,591 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | 1,400 | 880 |
| Symudiadau mewn pensiwn | (8,291) | (911) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | **5,039** | **9,972** |

## Dadansoddiad o arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 13,668 | 33,067 |
| Buddsoddiadau tymor byr [1] | 25,882 | 43,479 |
| | **39,550** | **76,546** |

Yn unol â'r SORP Elusennau, FRS 102, mae adneuon ag aeddfedrwydd o dri mis neu lai ar 31 Mawrth 2021 wedi cael eu dosbarthu'n fuddsoddiadau tymor byr. Mae buddsoddiadau ag aeddfedrwydd o rhwng tri mis a deuddeng mis wedi cael eu disgrifio fel "adneuon tymor hir" yn Nodyn 13 a'u dosbarthu'n asedau cyfredol yn y fantolen.

Yn y cyfrifon hyn, mae arian yn y banc ac mewn llaw yn golygu cyfrifon banc a mynediad ar unwaith iddynt. Nid yw'r NMC yn dal unrhyw arian yn gorfforol.

Mae buddsoddiadau tymor byr yn cynnwys adneuon banc ag aeddfedrwydd o dri mis neu lai o ddyddiad y fantolen.

At ddiben y datganiad llif arian, mae arian yn y banc ac mewn llaw a buddsoddiadau tymor byr yn cael eu trin fel arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian.

At ddiben y fantolen, mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cynnwys adneuon ag aeddfedrwydd o 12 mis neu lai o ddyddiad y fantolen.

[1] Gweler nodyn 13 buddsoddiadau

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Sail y paratoi a pholisïau cyfrifeg

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102). Fel yr amlinellir yn ein Cyfarwyddiaeth Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor, sy'n cael ei atgynhyrchu yn Atodiad 1, rydym yn ystyried Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth hefyd (FReM), i'r graddau fod gofynion yr FReM yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion SORP yr Elusennau.

Rydym yn ateb y diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102.

Mae'r prif bolisïau cyfrifeg a fabwysiedir, dyfarniadau a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif ym mharatoad y cyfrifon fel a ganlyn:

### Busnes gweithredol

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar y sail busnes gweithredol.

Ein hamcan yw diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a nyrsys cyswllt yn Lloegr. Rydym yn cael ein cyllido gan y ffïoedd cofrestru sy'n cael eu talu gan nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt. Mae'r Cyngor wedi adolygu ein hamgylchiadau, ein cynlluniau gwaith, ein cyllidebau, rhagolygon llif arian a'n lefelau cronfeydd cyfredol wrth gefn a'r rhai a ragwelir, gan gynnwys effaith ariannol Covid-19. Er bod ein cyllideb ar gyfer 2021-2022 yn dangos diffyg o £9.3 miliwn a'n cyllideb fynegol ar gyfer 2022-2023 yn dangos diffyg o £7.5 miliwn, gan gynnwys y costau ychwanegol o adfer o Covid-19, rydym yn disgwyl i gadw'n pen uwchlaw'r dŵr yn 2023-2024. Mae ein hincwm yn aros yn gymharol sicr iawn, ac mae'n lefelau arian ac arian wrth gefn yn aros yn gryf. Roedd yr ymgynghoriad diweddar gan yr Adran dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar fodel y DU o reoleiddio dros weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn glir ar y rhagdybiaeth o ddyfodol parhaol ein swyddogaethau rheoleiddiol a'n sefyllfa ariannol a amlinellir uchod. O ystyried yr angen parhaol am ein swyddogaethau rheoleiddiol a'n sefyllfa ariannol uchod, mae'r Cyngor yn ystyried bod adnoddau ariannol yn parhau i fod ar gael i gyllido'n gweithgareddau am y dyfodol rhagweladwy ac nad oes ansicrwydd materol i barhau fel busnes gweithredol.

### Safon cyfrifeg

Rydym yn paratoi ein cyfrifon o dan y safon cost hanesyddol. Mae asedau a dyledion yn cael eu cydnabod i ddechrau ar gost hanesyddol neu werth trafodiad oni bai y datgenir fel arall ar y nodiadau polisi cyfrifeg perthnasol.

### Dyfarniadau cyfrifeg hanfodol ac amcangyfrifon a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Yng nghymhwysiad y polisïau cyfrifeg hyn, mae gofyn i ni wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagbybiaethau am werth cludo asedau a dyledion sydd ddim yn amlwg yn hawdd o ffynonellau eraill.

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau'r dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Gall canlyniadau gwironeddol fod yn wahanol yn y pen draw i'r amcangyfrifon hynny. Y meysydd arwyddocaol sy'n ddarostyngedig i amcangyfrif a dyfarnu yw:

- Dibrisiant

Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau diriaethol sefydlog yn seiliedig ar reolir'r dyfarniad a phrofiad.

- Pensiynau

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r dyledion yn y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig yw'r rheini fel yr amlinellir yn nodyn 18.

### Incwm

Mae pob incwm yn cael ei gydnabod cyn gynted â bod gan yr NMC hawl i'r incwm, mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a bydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy.

- Incwm o weithgareddau elusennol

Mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt dalu ffi cofrestru blynyddol i fod yn gofrestredig â'r NMC ac yn gallu ymarfer. Mae ffïoedd cofrestru yn cael eu talu naill ai'n flynyddol ymlaen llaw neu'n chwarterol ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod y ffïoedd fel incwm bob mis ar draws y flwyddyn y mae'r ffi cofrestru yn gymwys iddi. Y swm incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffïoedd rydym wedi'u derbyn ar ddyddiad pob mantolen sy'n berthynol i flwyddyn ariannol yn y dyfodol. Mae ffïoedd eraill yn cynnwys ffïoedd dilysu yn cael eu credydu i incwm ar ddyddiad derbyn.

- Incwm buddsoddi

Mae incwm buddsoddi yn cael ei nodi mewn cyfrifon pan gaiff ei dderbyn.

- Grantiau llywodraeth

Mae incwm grant yn cael ei gydnabod cyn gynted â bod gan yr NMC hawl i'r incwm, mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a bydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy.

### Gwariant

- Gweithgareddau elusennol

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl wariant perthynol i amcanion yr elusen sy'n cynnwys: hybu safonau a datblygu polisi, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer, a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Gweler nodyn 5.

- Costau cymorth

Costau cymorth yw costau ein swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys adeiladau, TG, cyllid ac adnoddau dynol. Maen nhw'n cael eu dosbarthu i'r swyddogaethau rheoleiddiol ar sail niferoedd y gweithwyr yn y swyddogaethau rheoleiddiol.

### Cyfrifeg cronfeydd

Mae'r holl gronfeydd yn anghyfyngedig ar hyn o bryd ac yn cael eu hadrodd felly yn y datganiadau ariannol. Maen nhw ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn y Cyngor i gefnogi amcanion cyffredinol yr NMC.

Pe byddem yn derbyn cronfeydd cyfyngedig byddai'r rhain yn cael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol wedi'u gosod gan roddwyr.

### Asedau ar brydles

Mae rhenti sy'n gymwysadwy i brydlesau gweithredol, lle o ran sylwedd mae'r holl fuddion a risgiau yn aros â'r prydleswr, yn cael eu gosod i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

### Buddion i gyflogeion

- Tâl gwyliau

Mae tâl gwyliau yn cael ei gydnabod fel traul yn y cyfnod mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn ynddo.

- Costau pensiwn

Mae buddion ymddeol yn cael eu darparu gan gynllun â buddion diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r ddau gynllun yn cael eu cyllido gan gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Mae taliadau'n cael eu gwneud i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân yn ariannol i'r NMC.

Mae taliadau i'r cynllun â buddion diffiniedig yn cael eu gwneud yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actwarïaid cymwys proffesiynol, ac mae costau'r pensiwn ar gyfer y cynllun â buddion diffiniedig yn cael eu cyfrifo ar sail gosod pris disgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod mae'r NMC yn cael budd o wasanaethau'r cyflogeion ynddo. Mae effaith amrywiadau o gostau rheolaidd yn cael ei gwasgaru dros gyfnod o amser a osodir gan ymddiriedolaeth y pensiwn.

Mae taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cael eu gwneud ar sail cyfraniadau canran osodedig gan yr NMC a chyflogeion, ac mae'r costau yn cael eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SoFA) fel y byddant yn cael eu creu.



### Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog diriaethol sy'n costio dros £5,000 yn cael eu troi'n gyfalaf. Mae dibrisiant yn cael ei ddarparu ar asedau sefydlog diriaethol i'w dibrisio i lawr i werth enwol o £1 dros eu bywydau amcangyfrifiedig mewn rhandaliadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeilad Prydles Hir - 23 Portland Place[2] | **50 mlynedd** |
| Gosod y swyddfa a'i hadnewyddu | **Cyfnod y brydles neu fywyd economaidd defnyddiol yr ased** |
| Dodrefn | **10 mlynedd** |
| Prosiectau TG | **3 – 5 mlynedd** |
| Cyfarpar | **3 – 5 mlynedd** |

Fe wnaethom ailbrisio 23 Portland Place yn ystod 2013–14 ac ar fabwysiadu FRS102 gyntaf fe wnaethom ddewis y prisiad hwn fel cost dybiedig yn y dyfodol.

Mae costau mewnol sy'n cael eu creu ar ddatblygu meddalwedd yn cael eu dileu yn y flwyddyn maen nhw'n cael eu creu ynddi.

### Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu troi'n gyfalaf yn y lle cyntaf ar gost ac yn cael eu cydnabod wedyn ar werth y farchnad ar ddyddiad y fantolen.

Mae enillion a cholledion ar fuddsoddiadau yn cael eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiannau a'u gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn, neu eu cost os cânt eu prynu yn ystod y flwyddyn, ac maen nhw'n cael eu gosod neu gredydu i ddatganiad gweithgareddau ariannol yn y flwyddyn mae'n nhw'n cael eu cwblhau.

Mae'r symudiad mewn gwerthoedd marchnad yn ystod y flwyddyn ar gyfer asedau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gredydu neu ei godi i ddatganiad y gweithgareddau ariannol yn seiliedig ar y gwerth marchnad ar ddiwedd y flwyddyn.

### Dyledwyr

Mae dyledwyr ac incwm cronedig yn cael eu cydnabod yn y swm sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhagdaliadau yn cael eu prisio ar y swm a ragdelir.

### Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian a buddsoddiadau tymor byr hylifol iawn ag aeddfedrwydd o dri mis neu lai o ddyddiad prynu neu agor adneuo cyfrif tebyg.

[2] Gweler Nodyn 11.1

**Credydwyr a darpariaethau**

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod lle mae gennym rwymedigaeth bresennol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti a gellir mesur y swm sy'n ddyledus i dalu am y rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod fel arfer ar eu swm talu ar ôl caniatáu am unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

**Offerynnau ariannol**

Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar werth trafodiad ac yn cael eu mesur wedyn ar gost amorteiddiedig. Mae asedau ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys balansau arian, buddsoddiadau, dyledwyr masnach ac eraill. Mae buddsoddiadau yn y farchnad stoc yn cael eu dal ar werth y farchnad.

## 2. Incwm ffïoedd

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffïoedd cofrestru | 86,901 | 83,572 |
| Ffïoedd eraill a dalwyd gan weithwyr cofrestredig | 3,877 | 4,878 |
| **Cyfanswm** | **90,778** | **88,450** |

## 3. Buddsoddiad ac incymau eraill

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llog a enillwyd o adneuon banc | 355 | 953 |
| Difidendau a llog a enillwyd yn ein portffolio buddsoddi sefydlog | 196 | 0 |
| Incwm arall | 676 | 436 |
| **Cyfanswm** | **1,227** | **1,389** |



Mae incwm arall yn cynnwys:

£0.676 miliwn o dan gontract â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith yr ymgymerwyd ag ef gan yr NMC i sefydlu cofrestr dros dro i gynorthwyo adnoddau nyrsio mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws (2019–2020: £dim).

£dim o dan gontract â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith yr ymgymerwyd ag ef gan yr NMC i ddod â nyrsys cyswllt ar y gofrestr (2019–2020: £0.308 miliwn).

## 4. Dadansoddiad o wariant ar godi arian

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tâl rheoli buddsoddiadau | **40** | 0 |

## 5. ADadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy'n uniongyrchol | | Costau cymorth | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau cyflogeion | Costau eraill | Costau cyflogeion | Costau eraill | Cyfanswm 2020–2021 |
| **Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | 1,774 | 538 | 579 | 619 | 3,510 |
| Addysg | 890 | 1,765 | 309 | 330 | 3,294 |
| Cynnal y Gofrestr | 5,479 | 103 | 2,838 | 3,032 | 11,452 |
| Addasrwydd i ymarfer | 26,441 | 10,438 | 9,748 | 12,682 | 59,309 |
| Cyfathrebiadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 2,010 | 588 | 656 | 701 | 3,955 |
| **Cyfanswm** | **36,594** | **13,432** | **14,130** | **17,364** | **81,520** |

| | Gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy'n uniongyrchol | | Costau cymorth | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau cyflogeion | Costau eraill | Costau cyflogeion | Costau eraill | Cyfanswm 2020–2021 |
| **Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | 1,671 | 93 | 426 | 483 | 2,673 |
| Addysg | 960 | 2,345 | 213 | 242 | 3,760 |
| Cynnal y Gofrestr | 5,925 | 515 | 2,518 | 2,857 | 11,815 |
| Addasrwydd i ymarfer | 22,448 | 15,475 | 8,431 | 13,766 | 60,120 |
| Cyfathrebiadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 1,902 | 742 | 626 | 711 | 3,981 |
| **Cyfanswm** | **32,906** | **19,170** | **12,214** | **18,059** | **82,349** |

## 6. Dadansoddiad o gostau cymorth

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | Addysg | Cynnal y gofrestr | Addasrwydd i ymarfer | Cyfathrebiadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd | Cyfanswm 2020–2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfleusterau | 111 | 59 | 544 | 4,134 | 126 | 4,974 |
| Cyllid a Chaffael | 134 | 71 | 654 | 2,245 | 151 | 3,255 |
| Adnoddau Dynol | 171 | 91 | 838 | 2,877 | 193 | 4,170 |
| Technoleg gwybodaeth | 422 | 225 | 2,068 | 7,105 | 478 | 10,298 |
| Llywodraethiant | 189 | 101 | 928 | 3,190 | 215 | 4,623 |
| Cyfreithiol | 47 | 25 | 230 | 789 | 53 | 1,144 |
| Dibrisiant | 134 | 72 | 657 | 2,258 | 152 | 3,273 |
| Addasiad Pensiwn | (10) | (5) | (49) | (168) | (11) | (243) |
| **Cyfanswm** | **1,198** | **639** | **5,870** | **22,430** | **1,357** | **31,494** |

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | Addysg | Cynnal y gofrestr | Addasrwydd i ymarfer | Cyfathrebiadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd | Cyfanswm 2019–2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfleusterau | 70 | 35 | 414 | 5,585 | 103 | 6,207 |
| Cyllid a Chaffael | 106 | 53 | 628 | 2,105 | 156 | 3,048 |
| Adnoddau Dynol | 148 | 74 | 874 | 2,927 | 217 | 4,240 |
| Technoleg gwybodaeth | 339 | 170 | 2,006 | 6,716 | 499 | 9,730 |
| Llywodraethiant | 143 | 71 | 844 | 2,825 | 210 | 4,093 |
| Cyfreithiol | 40 | 20 | 234 | 785 | 58 | 1,137 |
| Dibrisiant | 65 | 33 | 387 | 1,294 | 96 | 1,875 |
| Addasiad Pensiwn | (2) | (1) | (12) | (39) | (3) | (57) |
| **Cyfanswm** | **909** | **455** | **5,375** | **22,198** | **1,336** | **30,273** |

## 7. Costau llywodraethiant

Y dadansoddiad o gostau llywodraethiant (yn gynwysiedig o fewn costau cymorth) yw:

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Marwth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, yswiriant cenedlaethol, teithio ac ymgynnal aelodau'r Cyngor | 288 | 351 |
| Tâl i'r archwilwyr: Haysmacintyre | 24 | 30 |
| Tâl i'r archwilwyr: NAO | 7 | 7 |
| Ffi blynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 1,902 | 1,884 |
| Costau gweithredu (yn cynnwys cyflogau) | 2,402 | 1,821 |
| **Cyfanswm** | **4,623** | **4,093** |



## 8. Cyfanswm adnoddau wedi'i wario fesul categori cost

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 50,724 | 45,121 |
| Costau ynghylch addasrwydd i ymarfer | 9,794 | 14,342 |
| Datblygu a chynorthwu TG | 4,477 | 5,014 |
| Ffïoedd proffesiynol | 5,082 | 4,531 |
| Rhent yn daladwy ar brydlesau swyddfeydd | 1,979 | 2,441 |
| Costau eraill am adeiladau | 1,970 | 2,716 |
| Costau eraill ynglŷn â chyflogeion | 1,109 | 2,303 |
| Sicrwydd ansawdd addysg | 1,761 | 2,202 |
| Dibrisiant | 3,273 | 1,875 |
| Argraffu, postio ac offer swyddfa | 228 | 802 |
| Costau cyllid ac yswiriant[3] | 802 | 551 |
| Costau Cyngor a phwyllgor | 361 | 451 |
| **Cyfanswm** | **81,560** | **82,349** |

### Gwariant ar ymgynghoriaeth

Y diffiniad o ymgynghoriaeth yw darparu cyngor gwrthrychol i reolwyr ynglŷn â strategaeth, strwythur, rheolaeth neu weithrediadau sefydliad, wrth iddo gyflawni'i ddibenion ac amcanion. Bydd y fath gyngor yn cael ei ddarparu y tu allan i'r amgylchedd 'busnes fel arfer' lle nad yw'r sgiliau o fewn y sefydliad ar gael a bydd cyfyngiad ar amser. Gall ymgynghoriaeth gynnwys adnabod opsiynau ag argymhellion, neu gymorth â (ond nid wrth ddarparu) gweithredu'r datrysiadau. Ar y sail hwn mae costau ymgynghoriaeth wedi cael eu hadnabod megis isod. Mae'r costau hyn yn cael eu cynnwys yn y categori ffïoedd proffesiynol yn bennaf, a hefyd yn y categori datblygu a chynorthwyo TG.

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | | 902 |

[3] Mae'n cynnwys yswiriant indemniad ymddiriedolwyr

## 9. Gwybodaeth ynglŷn â chyflogeion

| | Gweithredo | Cyflogei eraill | Cyfanswm blwyddyn yn dodi ben 31 Mawrth 2021 | Cyfanswm blwyddyn yn dodi ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyflogau a chostau cysylltiedig** | | | | |
| Cyflogau | 1,152 | 37,438 | 38,590 | 33,932 |
| Costau nawdd cymdeithasol (cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol cyflogwr a Lefi Prentisiaeth) | 152 | 4,035 | 4,187 | 3,740 |
| Costau pensiwn â buddion diffiniedig – Cyflogeion presennol4 [4] | 54 | 2,225 | 2,279 | 1,711 |
| Costau pensiwn cyfraniadau diffiniedig – Cyflogeion presennol | 96 | 3,024 | 3,120 | 2,469 |
| Gweithwyr dros dro a chontract | 0 | 2,458 | 2,458 | 3,167 |
| Taliadau terfynu[5] | 0 | 90 | 90 | 102 |
| **Cyfanswm** | **1,454** | **49,270** | **50,724** | **45,121** |

[4] Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn cyflogeion yr NMC i'w chael yn Nodyn 18.

[5] Mae hyn cynnwys £dim taliadau cytundebol ychwanegol, taliadau diswyddo o £44,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £47,000 (2019–2020: taliadau cytundebol ychwanegol o £dim, taliadau diswyddo o £47,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £47,000).



**Gwybodaeth ynghylch cydnabyddiaeth i gyflogeion sy'n cael tâl uwch (gan gynnwys y Pwyllgor Gweithredol)**

Roedd 136 (2019–2020: 101) o gyflogeion (gan gynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer y cyfnod) y syrthiodd eu cydnabyddiaeth i'r bandiau canlynol:

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| **Bandiau cydnabyddiaeth (£)** | Nifer y cyflogeion | Nifer y cyflogeion |
| 60,001 - 70,000 | 52 | 46 |
| 70,001 - 80,000 | 51 | 25 |
| 80,001 - 90,000 | 19 | 19 |
| 90,001 - 100,000 | 3 | 2 |
| 100,001 - 110,000 | 3 | - |
| 110,001 - 120,000 | - | - |
| 120,001 - 130,000 | - | 4 |
| 130,001 - 140,000 | 3 | 2 |
| 140,001 - 150,000 | 2 | 1 |
| 150,001 - 160,000 | - | 1 |
| 160,001 - 170,000 | 2 | - |
| 170,001 - 180,000 | 1 | 1 |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys wyth aelod o'r Pwyllgor Gweithredol a dderbyniodd mwy na £60,000 yn y flwyddyn.

Roedd dau aelod arall o'r Pwyllgor Gweithredol oedd yn eu swyddi am ran o'r flwyddyn y syrthiodd eu henillion i'r bandiau £0 - £10,000 a £10,001 - £20,000. Am ragor o wybodaeth ar gydnabyddiaeth i'r Pwyllgor Gweithredol yn y flwyddyn Gweler yr adroddiad cydnabyddiaeth.

Mae'r tabl yn dangos dau gyflogai â chydnabyddiaeth yn 2020–2021yn y band £160,001 - 170,000, gyda neb yn y band hwnnw yn 2019–2020. Mae cydnabyddiaeth un o'r cyflogeion hyn yn 2020–2021 yn cynnwys pecyn ymadael o £60,000 - 65,000, fel y datgelwyd yn yr adroddiad cydnabyddiaeth. Roedd cydnabyddiaeth y cyflogai arall tuag at derfyn uchaf y band £150,001 - 160,000 yn 2019–2020 a symudodd i fyny i'r band £160,001 - 170,000 yn 2020–2021 trwy godiad cyflog blynyddol safonol.

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | Nifer o | Nifer o |
| Nifer ar gyfartaledd o gyflogeion parhaol â chontract tymor sefydlog | | |
| Gweithredol | 7 | 9 |
| Cyflogeion eraill | 886 | 787 |
| Nifer ar gyfartaledd o staff asiantaeth dros dro a chontractwyr yn ystod y flwyddyn | 71 | 83 |
| **Cyfanswm** | **964** | **879** |

## 10. Statws elusennol

Rydym wedi'n cofrestru fel elusen yn Lloegr a Chymru â'r Comisiwn Elusennau (rhif elusen 1091434) ac yn yr Alban â Swyddfa'r Rheoleiddiwr Elusennau Albanaidd (rhif elusen SC038362).

Oherwydd ein statws elusennol nid ydym yn atebol am dreth corfforaethol ar ein gweithgareddau elusennol nac ar ein hincwm ac enillion o fuddsoddiad. Rydym hefyd yn derbyn rhyddhad treth elusennol gan Ddinas Westminster, Bwrdeistref Newham yn Llundain a Chyngor Dinas Caeredin.



## 11. Asedau diriaethol sefydlog i'w defnyddio gan yr elusen

| | 23 PP adeilad prydles hir [6] | Adnewyddu adeiladau | Prosiectau TG | Dodrefn | Cyfarpar | Gwaith cyfalaf yn mynd rhagdd [7] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost:** | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2020 | 15,448 | 13,651 | 3,148 | 555 | 10,334 | 8,196 | **51,332** |
| Ychwanegiadau | - | - | 3,173 | - | - | 1,291 | **4,464** |
| Gwerthiannau | - | (1,770) | - | (38) | (139) | - | **(1,947)** |
| Trosglwyddiadau | - | - | 7,147 | - | - | (7,147) | **-** |
| 31 Mawrth 2021 | 15,448 | 11,881 | 13,468 | 517 | 10,195 | 2,340 | **53,849** |
| **Dibrisiant:** | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2020 | 2,069 | 9,488 | 2,487 | 421 | 10,327 | - | **24,792** |
| Tal dibrisiant am y flwyddyn | 354 | 615 | 2,280 | 22 | 2 | - | **3,273** |
| Gwarediadau | - | (1,770) | - | (38) | (138) | - | **(1,946)** |
| 31 Mawrth 2021 | 2,423 | 8,333 | 4,767 | 405 | 10,191 | - | **26,119** |
| **Gwerth Llyfr Net:** | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2020 | 13,379 | 4,163 | 662 | 134 | 7 | 8,196 | **26,541** |
| 31 Mawrth 2021 | 13,025 | 3,548 | 8,701 | 112 | 4 | 2,340 | **27,730** |

Mae prosiectau cyfalaf ar waith yn cael eu hychwanegu at y gofrestr asedau sefydlog ac yn cael eu dibrisio pan ddygir hwy i mewn i ddefnydd.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd £7.147miliwn o waith yn mynd rhagddo perthynol i raglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg (MoTS) ei ddwyn i mewn i ddefnydd a'i drosglwyddo i brosiectau TG, gyda £3.173 miliwn arall o ychwanegiadau wedi'u cyfalafu hefyd yn berthynol i'r rhaglen MoTS.

[6] Gweler Nodyn 11.1 | [7] Gweler Nodyn 11.2

### 11.1 Adeiladau prydles hir

Gwnaeth yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) gaffael diddordeb y brydles yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ gan Gyngor Nyrsio Cyffredinol Lloegr a Chymru ar ddim cost. Mae gan y brydles rent rhad o £250 y flwyddyn ac mae'n dod i ben yn y flwyddyn 2933. Cafodd y brydles ei phrisio megis ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan archwilwyr allanol Carter Jonas, yn £17.185 miliwn. Mae cyfamod cyfyngol ar y brydles sy'n cyfyngu defnydd a meddiannaeth yr eiddo i'r NMC.

### 11.2 Gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo

Prosiectau yw'r rhain i greu asedau cyfalaf i'w defnyddio yn y busnes lle mae gwariant wedi cael ei greu ar ddiwedd y cyfnod ond nid yw'r asedau wedi cael eu cwblhau eto na'u dwyn i ddefnydd. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect Moderneiddio Technoleg, y prosiect rheoli Prawf Cymhwyster a'r prosiect Cofrestru Tramor.

## 12. Trafodion partïon cysylltiedig

Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Cyfrin Gyngor. Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn amlinellu natur ein perthynas â'r Cyfrin Gyngor a'r mecanweithiau adrodd gofynnol. Er nad yn atebol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae gennym gysylltiad rheolaidd â'r Adran ar bolisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, cyfanswm y lwfansau a dalwyd i'r cadeirydd presennol a'r un blaenorol oedd £58,500 (2019-20 £66754) a chostau hyfforddiant a dalwyd i, neu a gynhyrchwyd mewn perthynas ag, aelodau o'r Cyngor oedd £239,258 (2019–2020: £294,464). Mae aelodau'r Cyngor yn cael eu talu'n uniongyrchol trwy gyflogres yr NMC. Mae manylion o symiau a delir i aelodau unigol y Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredol yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad cydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd yr NMC wasanaethau hwyluso a hyfforddi gan Aim Higher Leadership Ltd. Mae John Welsh, brawd Edward Welsh, Cyfarwyddwr Materion Allanol, yn is-gontractiwr cyswllt allanol o Aim Higher Leadership. Talodd yr NMC i Aim Higher Leadership gyfanswm o £31,650 yn ystod y flwyddyn (2019–2020: £22,487).



## 13. Buddsoddiadau

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Buddsoddiadau asedau sefydlog** | | |
| Gwerth marchnad ar 1 Ebrill | 0 | 0 |
| Cyfalaf newydd wedi'i fuddsoddi | 30,000 | 0 |
| Difidendau a llog a dderyniwyd ac a gadwyd mewn cronfa | 196 | 0 |
| Ffïoedd rheoli wedi'u codi yn y ffrynhonnell | (40) | 0 |
| Ennill/(colled)net ar ailbrisio | 1,125 | 0 |
| Gwerth marchnad ar 31 Mawrth | **31,281** | **0** |
| Yn cynnwys y canlynol: | | |
| Buddsoddiadau wedi eu rhestru | | |
| Gwarannau incwm sefydlog | 3,470 | 0 |
| Ecwitïau | 22,524 | 0 |
| Cronfeydd eiddo | 503 | 0 |
| Cronfeydd buddsoddi amgen | 2,482 | 0 |
| | 28,797 | 0 |
| Buddsoddiadau heb eu rhestru | 0 | 0 |
| Arian | 2,302 | 0 |
| Gwerth marchnad ar 31 Mawrth | **31,281** | **0** |

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, cafodd £30,000,000 ei fuddsoddi yn y farchnad stoc gan ddefnyddio'n rheolwyr buddsoddi Sarasin & Partners

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Buddsoddiadau asedau cyfredol** | | |
| Adneuon tymor byr (aeddfedrwydd o 3 mis neu lai) | 25,882 | 43,479 |
| Adneuon tymor hir (aeddfedrwydd o fwy na 3 mis ond llai na 12 mis) | 28,362 | 20,436 |
| **Cyfanswm** | **54,244** | **63,915** |

## 14. Dyledwyr

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dyledwyr | 767 | 170 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,255 | 2,574 |
| **Cyfanswm** | **4,022** | **2,744** |

## 15. Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Credydwyr a chroniadau | 13,263 | 9,403 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 1,405 | 1,270 |
| Incwm gohiriedig | 41,757 | 43,692 |
| **Cyfanswm** | **56,425** | **54,365** |

## 16. Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nac un flwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | 0 | 106 |
| Premiwm y brydles | 135 | 193 |
| **Cyfanswm** | **135** | **299** |



## 17. Darpariaethau

| | Dadfeiliadau[8] | Pensiwn – ymddeoliad cynnar[9] | Panelwyr[10] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | (798) | (156) | (1,500) | (2,454) |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | 150 | 67 | - | 217 |
| Ychwanegiadau | (128) | - | - | (128) |
| Rhyddhadau | 108 | - | 300 | 408 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | **(668)** | **(89)** | **(1,200)** | **(1,957)** |

[8] Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau yn cynrychioli'n hamcangyfrifon pwyllog o gostau rhoi ein hadeiladau wedi'u prydlesu yn ôl i mewn i'r cyflwr roeddent ynddo cyn dechrau'n prydlesau.

[9] Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pensiwn ymddeol yn gynnar yn adlewyrchu cost aelod o'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig yn ymddeol yn gynnar oherwydd anallu. Mae'r gost ychwanegol yn cael ei thalu'n fisol hyd Mehefin 2022

[10] Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau ychwanegol posibl i banelwyr yn adlewyrchu'n hamcangyfrif pwyllog o effaith ehangach bosibl hawliad unigol i dribiwnlys cyflogaeth. am symiau ychwanegol gan banelydd addasrwydd i ymarfer. Mae panelwyr yn gontractwyr annibynnol sy'n eistedd ar ein panelau addasrwydd i ymarfer. Mae achosion cyfreithiol ynglŷn â hyn yn parhau. Mae'r gostyngiad yn y ddarpariaeth o gymharu â llynedd yn adlewyrchu cyngor cyfreithiol mwy diweddar ynghylch graddau tebygol yr atebolrwydd posibl.

## 18. Ymrwymiadau Pensiwn

Rydym yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun cyfraniadau diffiniedig a chynllun â buddion diffiniedig

### Y cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig

Mae'n prif gynllun pensiwn yn bensiwn cyfraniadau diffiniedig sy'n cael ei weithredu gan The People's Pension. Y lefel cyfraniad isaf yw fod cyflogeion yn cyfrannu un y cant o'u cyflog pensiynadwy a'r NMC yn cyfrannu 8 y cant (2019-2020: wyth y cant). Mae cyflogeion yn gallu gwneud cyfraniadau ychwanegol sy'n cael eu cyfateb gan yr NMC hyd at gyfraniad uchaf y cyflogwr o 12 y cant. Ar 31 Mawrth 2021, roedd 84 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. o 2021-2022, mae cyfraniad uchaf y cyflogwr wedi cynyddu i 14 y cant.

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfraniadau'r NMC (cyflogwr) a wnaed i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn y flwyddyn | **2,936** | 2,468 |
| | % | % |
| Cynllun cyfraniadau'r NMC's (cyflogwr) a'i gyfraniad sylfaenol wedi'i ddiffinio | **8.00%** | 8.00% |
| Cynllun cyfraniadau'r cyflogai a'i gyfraniad sylfaenol wedi'i ddiffinio | **1.00%** | 1.00% |

**Y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig**

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn Tachwedd 2013 yn gallu ymuno â'n cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, Cynllun Pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586. Mae'n gynllun amlgyflogwr wedi'i gyllido gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i weinyddu gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a GIG Addysg yr Alban, cyfranogwyr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013 a 2015 yn eu tro. Ym Mawrth 2021, yn dilyn ymgynghoriad ag aelodau gweithredol y cynllun, penderfynodd y Cyngor gau'r cynllun â buddion diffiniedig i groniadau'r dyfodol o fuddion yn dod i rym o 1 Gorffennaf 2021. Ar 31 Mawrth 2021, mae naw y cant o gyflogeion yr NMC yn perthyn i'r cynllun.

Mae cyfraniadau i'r cynllun yn cael eu codi i'r datganiad o weithgareddau ariannol (SoFA) er mwyn gwasgaru cost y pensiynau dros fywydau gwaith y cyflogeion. Mae cyfraniadau'n cael eu pennu gan actiwari cymwys ar sail prisiadau pob tair blynedd.

Cafodd y prisiad cyflawn diweddaraf o'r cynllun ei gwblhau ar ran ymddiriedolwyr y pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2019, gan ddefnyddio dull cromlin elw llawn. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £124.0 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau oedd yn cael eu dal ar gyfer pensiynwyr yswiriedig). Cynrychiolodd gwerth yr asedau 88 y cant o werth y buddion, oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig yn y dyfodol mewn enillion a phensiynau. Mae diffyg asedau gwasanaeth y gorffennol yn cael ei amorteiddio hyd 31 Mawrth 2026. Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau uwchben codiadau cyflog o 0.65 y cant y flwyddyn ac uwchen codiadau pensiwn o -0.15 y cant a -0.20 y cant i rai sydd ddim yn bensiynwyr a phensiynwyr yn eu tro y flwyddyn.

Pe byddai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar ddiwrnod y prisiad (31 Mawrth 2019), byddai'r asedau wedi bod tua 72 y cant o'r swm angenrheidiol i brynu contractau yswiriant i ateb buddion cronedig ar gyfer aelodau gweithredol ac ymadawyr y gorffennol a'r buddion presennol ar gyfer pensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifiedig wedi bod yn £42.8 miliwn.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel gyllido'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar ragbydiaethau actiwaraidd presennol, erbyn 31 Mawrth 2026. Byddwn yn cywiro'r diffyg dros y cyfnod i 31 Mawrth 2026 trwy wneud taliadau Cynllun Adfer o £1.8 miliwn y flwyddyn gyda chodiadau o 3.65 y cant pob Ebrill (y codiad cyntaf o'i fath wedi'i wneud yn Ebrill 2015). Gwerth taliadau Cynllun Adfer, gan gynnwys taliad ychwanegol o £6.3miliwn, yn y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 oedd £8,100,000 (31 Mawrth 2020: £1,172,309).



Bydd y prisiad pob tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r prisiad FRS 102 wedi cael ei seilio ar asesiad llawn o ddyledion y cynllun ar 31 Mawrth 2021.

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau a gydnabyddir mewn Mantolenni** | | |
| Asedau ar werth teg | 97,343 | 67,004 |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth budd diffiniedig | (100,498) | (78,626) |
| **Diffyg** | **(3,155)** | (11,622) |
| **Dyled net** | **(3,155)** | (11,622) |

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau a gydnabyddir mewn SoFA** | | |
| Cost gwasanaeth presennol | (1,565) | (2,014) |
| Cost gwasanaeth y gorffennol | (11) | 0 |
| Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 1,736 | 2,021 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | (1,926) | (2,377) |
| **Swm net a gydnabyddir mewn SoFA** | **(1,766)** | **(2,370)** |
| | % | % |
| Cynllun â buddion diffiniedig cyfraniad yr NMC (cyflogwr) | 39.30% | 39.30% |
| Cynllun cyfrannu â buddion diffiniedig y cyflogai | 6.00% | 6.00% |

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | | |
| **Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2020** | **78,626** | **91,100** |
| Cost gwasanaeth presennol | 1,565 | 2,014 |
| Cost gwasanaeth y gorffennol | 11 | 0 |
| Cost llog | 1,926 | 2,377 |
| Cyfraniad y cyflogai | 269 | 282 |
| (ennill)/colledion Actiwraraidd | 19,943 | (15,494) |
| Buddion a dalwyd | (1,842) | (1,653) |
| **Balans cau ar 31 Mawrth 2021** | **100,498** | **78,626** |

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun** | | |
| **Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2020** | **67,004** | **76,862** |
| Elw disgwyliedig ar asedau | 1,736 | 2,021 |
| Ennill/(colledion)Actiwaraidd | 20,119 | (13,789) |
| Cyfraniad y cyflogwr | 10,057 | 3,281 |
| Cyfraniad y cyflogai | 269 | 282 |
| Buddion a dalwyd | (1,842) | (1,653) |
| **Balans cau ar 31 Mawrth 2021** | **97,343** | **67,004** |



| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni'r newid mewn statws wedi'i gyllido** | | |
| **Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2020** | **(11,622)** | **(14,238)** |
| Cost pensiwn | (1,766) | (2,370) |
| Ennill/(colledion) Actiwaraidd | 176 | 1,705 |
| Cyfraniad y cyflogwr | 10,057 | 3,281 |
| **Balans cau ar 31 Mawrth 2021** | (3,155) | (11,622) |
| **Elw gwrioneddol ar asedau'r cynllun** | **21,855** | **(11,768)** |

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Hanes addasiadau profiad** | | | | |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (100,498) | (78,626) | (91,100) | (84,114) |
| Asedau'r cynllun | 97,343 | 67,004 | 76,862 | 72,414 |
| **Diffyg** | **(3,155)** | **(11,622)** | **(14,238)** | **(11,700)** |
| Addasiadau profiad ar y cynllun dyled - ennill/(colled) | 731 | 5,226 | (695) | (2,795) |
| Addasiadau profiad ar y cynllun | **20,119** | **(13,789)** | **898** | **(49)** |

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|
| **Cyfraniad disgwyliedig yn y cyfnod sy'n dilyn** | |
| Cyflogwr | 2,530 |
| Cyflogai | 66 |
| **Cyfanswm** | **2,596** |

| | Ar 31 Mawrth 2021 | 2020 Y flwyddyn |
|---|---|---|
| | % | % |
| **Prif ragdybiaethau** | | |
| Cyfradd y gostyngiad | 1.90% | 2.45% |
| Chwyddiant pris manwerthu | 3.05% | 2.75% |
| Chwyddiant pris defnyddwyr | 2.60% | 1.75% |
| Codiadau pensiwn | 3.05% | 2.75% |
| Elw disgwyliedig ar asedau | 1.90% | 2.45% |
| **Disgwyliad bywyd yn 60 oed** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Gwrywod wedi'u genu 1961 | 26.6 | 26.5 |
| Benywod wedi'u geni 1961 | 29.2 | 29.0 |
| Gwrywod wedi'u genu 1981 | 28.1 | 28.0 |
| Benywod wedi'u geni 1981 | 30.7 | 30.5 |

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Asedau'r cynllun** | | |
| Cronfeydd twf | 64,444 | 37,128 |
| Bondiau | 1,929 | 1,656 |
| Buddsoddiadau wedi'u gyrru gan ddyled | 4,998 | 4,646 |
| Giltiau | 3,461 | 2,354 |
| Blwydd-daliadau wedi'u hyswirio | 22,511 | 21,220 |
| **Cyfanswm** | **97,343** | **67,004** |



## 19. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2021, mae £1.2 miliwn ar gyfer Prawf Cofrestru ac Ailddilysu Cymhwyster a £0.7 miliwn o wariant cyfalaf Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg wedi cael eu contractio ond ni ddarparwyd ar eu cyfer yn y datganiadau ariannol.

Roedd y gwariant cyfalaf canlynol wedi cael ei gymeradwyo ond ni chontractiwyd ar ei gyfer:

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg | 2,400 | 6,700 |
| Rhaglen llety | 5,100 | 3,500 |
| Cofrestriadau ac Ailddilysu (Prawf Cymhwyster) | 0 | 500 |
| Gwelliannau isadeiledd TG | 700 | 0 |
| **Cyfanswm** | **8,200** | **10,700** |

## 20. Ymrwymiadau gweithredu prydles

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gennym y taliadau isafswm gweithredu prydlesau i'r dyfodol canlynol:

| | Tir ac adeiladau | |
|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
| | £'000 | £'000 |
| **Prydlesau sy'n dod i ben:** | | |
| O fewn un flwyddyn | 1,491 | 1,630 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 4,724 | 5,534 |
| Mwy na phum mlynedd | 2,800 | 3,481 |
| **Cyfanswm** | **9,015** | **10,645** |

Rydym yn rhentu adeilad yn 2 Stratford Place, Llundain ar gyfer y cyfnod hyd 21 Gorffennaf 2024; ac 1 Westfield Avenue, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd 6 Chwefror 2029. Daeth ein prydles yn 114 - 116 George Street, Caeredin, i ben ar 24 Ebrill 2021. Ar 1 April 2021, aethom i gytundeb ar brydles ar adeilad yn 10 George Street, Caeredin. Aethpwyd i mewn i'r brydles ei hun ar 17 Mai 2021, ac mae'n rhedeg am y cyfnod hyd 14 Tachwedd 2034, gyda chymalau toriad ar 17 Mai 2026 a 14 Tachwedd 2029.

## 21. Offerynnau Ariannol

Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nac y byddai'n gymwys i sefydliad masnachol.

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig | 103,215 | 99,726 |
| Dyledion ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig | (14,668) | (10,673) |

Mae asedau ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys balansau arian o £13.668 miliwn (2019–2020: £33.067 miliwn), buddsoddiadau mewn adneuon banc tymor sefydlog £54.244 miliwn (2019-2020: £63.915 miliwn), buddsoddiadau yn y farchnad stoc (trwy reolwyr buddsoddi) £31.281 miliwn (2019–2020: dim), dyledwyr £14.030 miliwn (2019–2020: £2.744 miliwn). Mae dyledion ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys credydwyr a chroniadau £12.998 miliwn (2019–2020: £9.403 miliwn) a threthi eraill a nawdd cymdeithasol £1.405 miliwn (2019–2020: £1.270 miliwn).

## 22. Datganiad cymharol o weithgareddau ariannol

Yn y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 roedd yr holl incwm a gwariant yn anghyfyngedig heb unrhyw falans cyfyngedig yn cael ei ddwyn ymlaen.

## 23. Taliadau y tu allan i gontract

Nid oedd taliadau y tu allan i gontract yn y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020: £Dim).

## 24. Asedau achlysurol a dyledion achlysurol

Ar 31 Mawrth 2021 nid oedd asedau na dyledion achlysurol.

## 25. Digwyddiadau ar ôl mantolen

Nid oes digwyddiadau wedi bod ar ôl dyddiad y fantolen sy'n gofyn am addasiad na datgeliad yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon wedi cael eu hawdurdodi ar y dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol.



# Atodiad 1



# Y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Ffurf y Cyfrifon) Penderfyniad 2010

Gwnaeth Eu Harglwyddi y penderfyniad canlynol wrth weithredu pwerau a roddwyd gan erthygl 52(1) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001[11].

Mae gan y penderfyniad hwn rym o 23 Chwefror 2010.

# Dehongliad

1. Yn y Penderfyniad hwn

mae'r "cyfrifon" yn golygu'r cyfrifon y mae'n ddyletswydd i'r Cyngor eu cadw a'u paratoi o dan erthygl 52(1) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ynglŷn a'r flwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 a blynyddoedd ariannol dilynol;

mae "SoRP yr Elusennau" yn golygu "Cadw Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau:Datganiad o Ymarfer a Argymhellir 2005 a baratowyd gan y Comisiwn Elusennau neu unrhyw argraffiad wedi'i ddiweddaru mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol.

mae'r "Cyngor" yn golygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

mae'r "FReM" yn golygu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a ddosbarthwyd gan Drysorlys EM sydd mewn grym yn y flwyddyn ariannol berthnasol.

[11] S.I 2002/253

## Penderfyniad

2. Mae'n rhaid i'r cyfrifon

(a) gael eu paratoi er mwyn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol dan sylw ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol honno; a

(b) datgelu unrhyw adnoddau materol sy'n dod i mewn neu'n mynd allan sydd ddim wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion materol sydd ddim wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

3. Yn amodol ar baragraff 4, er mwyn cydymffurfio â pharagraff 2(a), mae'n rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi

(a) mewn cydymffurfiaeth â'r egwyddorion cyfrifeg a gofynion datgelu a gynhwysir yn SORP yr Elusennau; ac

(b) ystyried gofynion yr FReM i'r graddau bod y gofynion hynny'n egluro, neu'n adeiladu ar, ofynion SORP yr Elusennau.

4. Lle mae presenoldeb amgylchiadau eithriadol yn golygu y byddai cydymffurfio â gofynion SORP yr Elusennau neu'r FReM yn achosi paratoi cyfrifon oedd yn anghyson â'r gofyniad ym mharagraff 2(b), dylid gwyro oddi wrth y gofynion hynny i'r graddau angenrheidiol yn unig i roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa honno.

5. Mewn achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff 4, dylai barn wybodus a diduedd gael ei defnyddio i ddyfeisio triniaeth amgen briodol sy'n gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw yn ogystal ag ysbryd SORP yr Elusennau a'r FReM.

6. Dylai'r penderfyniad hwn gael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

Llofnodwyd trwy awdurdod y Cyfrin Gyngor

Dyddiedig: 18 Gorffennaf 2011

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

ISBN 978-1-5286-2787-0
CCS0721890888